

TAG UG/SAFON UWCH



TAG UG/SAFON UWCH CBAC CELFF A DYLUNIO

ACHREDWYD GAN LYWODRAETH CYMRU

MANYLEB

Addysgu o 2015

I'w ddyfarnu o 2016 (UG)

I'w ddyfarnu o 2017 (Safon Uwch)

Fersiwn 2 Mawrth 2019



CRYNODEB O NEWIDIADAU

Fersiwn	Disgrifiad	Rhif y dudalen
2	Newidiwyd yr adran 'Cofrestru' i egluro rheolau ailsefyll a throsglwyddo marciau'r Asesu Di-arholiad.	47

TAG UG a SAFON UWCH CELFF a DYLUNIO CBAC

I'w addysgu o 2015

UG i'w ddyfarnu o 2016

Safon Uwch i'w dyfarnu o 2017

Mae'r fanyleb hon yn bodloni'r Egwyddorion Cymwysterau TAG UG a Safon Uwch sy'n pennu gofynion yr holl fanylebau TAG newydd neu ddiwygiedig a ddatblygwyd i'w haddysgu yng Nghymru o fis Medi 2015.

	Tudalen
Crynodeb o'r asesiad	2
1. Rhagarweiniad	4
1.1. Nodau ac Amcanion	4
1.2. Dysgu blaenorol a dilyniant	5
1.3. Cydraddoldeb ac asesu teg	5
1.4. Bagloriaeth Cymru	6
1.5. Persbectif Cymreig	6
2. Cynnwys y pwnc	7
2.1. Crynodeb o'r opsiynau	10
2.2. Uned UG	13
2.3. Unedau U2	14
2.4. Opsiynau yn fanwl	17
3. Asesu	43
3.1. Amcanion asesu a phwysoli	43
3.2. Trefniadau asesu	44
4. Gwybodaeth dechnegol	47
4.1. Cofrestru	47
4.2. Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl	48
Atodiadau:	
A: Lluniadu	49
B: Ysgrifennu estynedig yn yr Ymchwiliad Personol	50
C: Cynllun marcio a chynnwys a awgrymir UG	52
CH: Cynlluniau marcio a chynnwys a awgrymir U2	61

TAG UG a SAFON UWCH CELF A DYLUNIO (Cymru)

CRYNODEB O'R ASESIAD

Mae'r fanyleb hon wedi'i rhannu'n gyfanswm o 3 uned, 1 uned UG a 2 uned U2. Mae'r pwysoli a nodir isod yn cael ei fynegi yn nhermau'r cymhwyster Safon Uwch llawn.

UG (1 uned)

UG Uned 1 Ymholiad Creadigol Personol Asesiad diarholiad 40% o'r cymhwyster	160 marc
Mae'r Ymholiad Creadigol Personol yn cynnwys project/portffolio ymchwiliol, estynedig a chanlyniad/au yn seiliedig ar themâu a deunydd pwnc sydd yn bersonol ac yn ystyrlon i'r dysgwr. Rhaid i'r Ymholiad gyfuno gwaith beirniadol, ymarferol a damcaniaethol.	
<ul style="list-style-type: none">• Asesir y gwaith beirniadol, ymarferol a damcaniaethol fel cyfanwaith, gan ddefnyddio'r amcanion asesu. Bydd gofyn i ddysgwyr ddethol, gwerthuso a chyflwyno eu gwaith i'w asesu.• Bydd y dysgwr a'r athro/athrawes yn penderfynu ar yr Ymholiad Creadigol Personol, a'r gwaith yn cael ei asesu gan yr athro/athrawes a'i safoni'n allanol.• Dim terfyn amser: y ganolfan fydd yn penderfynu ar y cyfnod amser.	

Safon Uwch (yr uchod yn ogystal â 2 uned bellach)

U2 Uned 2 Ymchwiliad Personol Asesiad diarholiad 36% o'r cymhwyster	160 marc
Yn cynnwys dwy ran gyfansoddol integredig:	
<ol style="list-style-type: none">1. prif broject/portffolio ymchwiliol beirniadol, ymarferol a damcaniaethol a chanlyniad/au yn seiliedig ar themâu a deunydd pwnc sydd ag arwyddocâd personol.2. Effen ysgrifennu estynedig o leiafswm o 1000 gair. Gallai gynnwys delweddau a thestunau, ac mae'n rhaid iddo ymwneud yn amlwg â gwaith ymarferol a damcaniaethol gan ddefnyddio geirfa weithiol a themau arbenigol priodol	
<ul style="list-style-type: none">• Asesir y gwaith ymarferol/damcaniaethol a'r elfen ysgrifenedig gyda'i gilydd gan ddefnyddio'r amcanion asesu. Bydd gofyn i ddysgwyr ddethol, gwerthuso a chyflwyno eu gwaith i'w asesu.• Bydd y dysgwr a'r athro/athrawes yn penderfynu ar yr Ymchwiliad Personol, a'r gwaith yn cael ei asesu gan yr athro/athrawes a'i safoni'n allanol.• Dim terfyn amser: y ganolfan fydd yn penderfynu ar y cyfnod amser.	

U2 Uned 3

Aseiniad wedi'i osod yn allanol

Aseiad diartholiad

24% o'r cymhwyster

100 marc

Yn cynnwys **dwy** ran:**Rhan 1: Cyfnod gwaith paratoi**

- Rhyddheir y deunyddiau ar gyfer yr aseiniad a osodwyd yn allanol i ddysgwyr o 1 Chwefror (yn ail flwyddyn y cwrs) a byddant yn cynnwys cyfres o ysgogiadau gweledol ac ysgrifenedig. Dylid cyflwyno'r rhain i'r dysgwyr ar ddechrau eu cyfnod gwaith paratoi.
- Bydd un o'r ysgogiadau yn cael ei ddewis gan y dysgwr a bydd yn cael ei ddefnyddio fel man cychwyn. Bydd hyn wedyn yn mynnu ymateb personol.
- Mae'r ymatebion hyn yn cael eu datblygu yn ystod y cyfnod gwaith paratoi. Dylai'r ymatebion fod ar ffurf gwaith paratoi/astudiaethau cefnogol sy'n feirniadol, ymarferol a damcaniaethol. Defnyddir y gwaith hwn wedyn wrth wireddu'r syniadau yn yr astudiaeth ddwys a manwl 15 awr.
- Y ganolfan sydd i benderfynu ar ddyddiadau dechrau a gorffen y cyfnod gwaith paratoi, gan ystyried bod marciau aseiad mewnol i'w cyflwyno i CBAC erbyn terfyn amser ym mis Mai.

Rhan 2: Cyfnod o waith dwys a manwl 15 awr

- Rhaid cwblhau'r broses o wireddu syniadau'r dysgwyr o'r gwaith paratoi yn ystod y 15 awr hyn a rhaid iddyn nhw ddangos y cysylltiad rhwng eu cynlluniau a'r canlyniad/au a gafwyd.
- Rhaid cwblhau'r cyfnod o waith dwys a manwl dan amodau dan oruchwyliaeth.
- Canolfannau sydd i benderfynu ar amseru'r sesiynau dwys a manwl, gan ystyried bod marciau aseiad mewnol i'w cyflwyno i CBAC erbyn terfyn amser ym mis Mai.

Asesir y gwaith paratoi a'r gwaith dwys a manwl gyda'i gilydd, gan ddefnyddio'r amcanion asesu.

Bydd gofyn i ddysgwyr ddethol, gwerthuso a chyflwyno eu gwaith i'w asesu. CBAC fydd yn gosod yr Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol, sy'n cael ei asesu gan yr athro/athrawes a'i safoni'n allanol.

Manyleb unedol yw hon sy'n caniatáu am elfen o asesu mewn camau. Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn ystod cyfnod asesu'r haf bob blwyddyn, tan ddiwedd oes y fanyleb hon.

Bydd Uned 1 ar gael yn 2016 (a phob blwyddyn wedi hynny) a dyfernir y cymhwyster UG am y tro cyntaf yn yr haf 2016.

Bydd Uned 2 ac Uned 3 ar gael yn 2017 (a phob blwyddyn wedi hynny) a dyfernir y cymhwyster UG am y tro cyntaf yn yr haf 2017.

Rhif Cymhwyster
ar restr [The Register](#):
TAG UG: 601/5347/7
TAG Safon Uwch: 601/5290/4

Rhif Cymeradwyo Cymwysterau Cymru
ar restr [QiW](#):
TAG UG: C00/0723/0
TAG Safon Uwch: C00/0722/0

TAG UG a SAFON UWCH CELF A DYLUNIO

1 RHAGARWEINIAD

1.1 Nodau ac amcanion

Lluniwyd y fanyleb UG a Safon Uwch mewn Celf a Dylunio i gynnig profiadau dysgu creadigol sy'n ddeniadol ac arloesol, lle mae arfer celf, crefft a dylunio yn cael ei gyfuno'n ystyrion â gwybodaeth a dealltwriaeth ddamcaniaethol.

Mae'r fanyleb yn rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr ddatblygu sylfaen eang o sgiliau beirniadol, ymarferol a damcaniaethol yn yr UG, sy'n cynnig dealltwriaeth gyfannol iddyn nhw o amrediad o ymarferion a chyd-destunau yn y meysydd celf, crefft a dylunio gweledol, gan arbenigo mwy a chyflawni'n well yn y Safon Uwch.

Pa bynnag deitl neu gyfuniad o deitlau arnodedig a ddilynir, mae'r fanyleb hon yn annog creadigedd, ymchwil a dadansoddi cynhaliol, arbrofi, a dylunio a gwneud fell dulliau o feithrin sgiliau technegol a mynegiannol. Mae'n rhoi cyfle i'r dysgwyr ddilyn rhaglen astudio sy'n estyn profiad ac ymateb personol yn ogystal â meithrin dychymyg a meddwl beirniadol a myfyriol. Yn sylfaenol i bob agwedd ar y fanyleb hon mae'r gallu i arloesi, i addasu ac i weithio'n annibynnol, ac mae addysg uwch a chyflogwyr fel ei gilydd yn gwerthfawrogi hyn.

Yn unol â gofynion rheoleiddio'r holl fanylebau UG a Safon Uwch Celf a Dylunio, mae manyleb CBAC yn anelu at annog dysgwyr i ddatblygu'r canlynol:

- galluoedd deallus, dychmygus, creadigol a greddfodol
- sgiliau ymchwilio, dadansoddi, arbrofi, ymarferol, technegol a mynegiannol, dealltwriaeth esthetig a barn feirniadol
- meddwl yn annibynnol wrth ddatblygu, mireinio a chyfathrebu eu syniadau, eu bwriadau a'u canlyniadau personol eu hunain
- diddordeb a brwdfrydedd am y maes celf, crefft a dylunio a mwynhad ohono
- profiad o weithio ag amrediad eang o gyfryngau
- dealltwriaeth o'r gydberthynas rhwng prosesau celf, crefft a dylunio ac ymwybyddiaeth o'r cyd-destunau maent yn gweithredu ynddyn nhw
- gwybodaeth a phrofiadau o gyd-destunau o'r byd go iawn a chysylltiadau â'r diwydiannau creadigol, lle y bo'n briodol

- gwybodaeth a dealltwriaeth o gelf, crefft, dylunio a'r cyfryngau a thechnolegau yng nghymdeithasau a diwylliannau'r presennol a'r gorffennol
- ymwybyddiaeth o rolau, swyddogaethau a defnyddwyr gwahanol celf, crefft a dylunio

Lle bynnag y bo'n bosibl gwneud hynny, dylid annog dysgwyr i feithrin gwerthfawrogiad o bersbectif Cymreig mewn perthynas â'r uchod.

1.2 Dysgu blaenorol a dilyniant

Nid oes unrhyw ofynion dysgu blaenorol. Y ganolfan sydd i benderfynu ar unrhyw ofynion sy'n cael eu pennu o ran cael mynediad i gwrs sy'n dilyn y fanyleb hon. Mae'n rhesymol derbyn y bydd llawer o'r dysgwyr wedi ennill cymwysterau sy'n cyfateb i Lefel 2 CA4. Bydd sgiliau yn Rhifedd/Mathemateg, Llythrennedd/Saesneg a Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu yn sylfaen dda ar gyfer symud ymlaen i'r cymhwyster Lefel 3 hwn.

Bydd rhai dysgwyr eisoes wedi caffael gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau o astudio Celf a Dylunio ar gyfer TGAU neu UG.

Darperir sylfaen addas yn y fanyleb hon ar gyfer astudio Celf a Dylunio neu faes perthynol trwy ddilyn amrywiaeth o gyrsiau addysg uwch, symud ymlaen i'r lefel nesaf o gymwysterau galwedigaethol neu gyflogaeth. Yn ogystal, mae'r fanyleb yn darparu cwrs astudio sy'n gydlynol, boddhaol ac yn werth chweil i'r dysgwyr hynny nad ydynt yn symud ymlaen i astudio ymhellach neu i ddilyn gyrfa yn y pwnc hwn.

Nid yw'r fanyleb hon yn benodol i oedran ac, o'r herwydd, mae'n darparu cyfleoedd i ddysgwyr barhau i ddysgu gydol oes.

1.3 Cydraddoldeb ac asesu teg

Gellir astudio'r fanyleb hon gan unrhyw ddysgwr, beth bynnag fo'i ryw, cefndir ethnig, crefyddol neu ddiwylliannol. Nid yw'r fanyleb hon yn benodol i oedran ac, o'r herwydd, mae'n darparu cyfleoedd i ddysgwyr barhau i ddysgu gydol oes. Lluniwyd y fanyleb i osgoi, lle bo'n bosibl, nodweddion a allasai, heb gyfiawnhad, ei gwneud yn fwy anodd i ddysgwr lwyddo oherwydd bod ganddynt nodwedd benodol wedi ei hamddiffyn.

O dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y nodweddion penodol wedi'u hamddiffyn yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol.

Mae'r fanyleb hon wedi'i thrafod â grwpiau sy'n cynrychioli diddordebau ystod amrywiol o ddysgwyr, ac adolygir y fanyleb yn gyson.

Caiff addasiadau rhesymol eu gwneud ar gyfer rhai dysgwyr fel bod yr asesiadau o fewn eu cyrraedd (e.e. gwneud cais am amser ychwanegol mewn pwnc TGAU lle mae gofyn ysgrifennu'n estynedig). Mae gwybodaeth am addasiadau rhesymol i'w chael yn nogfen y Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC): *Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol: Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol*. Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y CGC (www.jcq.org.uk).

Byddwn yn dilyn egwyddorion y ddogfen hon ac felly, o ganlyniad i ddarpariaeth addasiadau rhesymol, prin iawn fydd nifer y dysgwyr sydd wedi'u hatal yn llwyr rhag unrhyw ran o'r asesiad.

1.4 Bagloriaeth Cymru

Dylai dysgwyr, wrth ddilyn y fanyleb hon, gael cyfleoedd, lle bo'n briodol, i ddatblygu'r sgiliau sy'n cael eu hasesu trwy Graidd Bagloriaeth Cymru:

- Llythrennedd
- Rhifedd
- Llythrennedd Ddigidol
- Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau
- Cynllunio a Threfnu
- Creadigedd ac Arloesi
- Effeithiolrwydd Personol.

1.5 Persbectif Cymreig

Rhaid i ddysgwyr, wrth ddilyn y fanyleb hon, ystyried persbectif Cymreig os bydd cyfle i wneud hynny'n deillio'n naturiol o'r deunydd pwnc ac os byddai gwneud hynny'n cyfoethogi dealltwriaeth dysgwyr o'r byd o'u cwmpas fel dinasyddion o Gymru yn ogystal â'r DU, Ewrop a'r byd.

2 CYNNWYS Y PWNC

Cyflwyniad

Lluniwyd y fanyleb UG/Safon Uwch CBAC hon mewn Celf a Dylunio i alluogi dysgwyr i ennill profiad dysgu dilyniannol a chynyddrannol o sylfaen rhagarweiniol eang celf, crefft a dylunio ar UG, i fwy o arbenigaeth a chyrhaeddiad ar Safon Uwch.

Mae'r UG yn cynrychioli'r flwyddyn gyntaf o gymhwyster Safon Uwch dwy flynedd ond gellir ei astudio ar wahân. Mae'n cynnwys **un** uned:

- Uned 1: Ymholiad Creadigol Personol (40% o'r Safon Uwch), i'w asesu'n fewnol a'i safoni'n allanol.

Mae'r Safon Uwch yn cynnwys yr UG Uned 1 yn ogystal â **dwu uned** ychwanegol:

- Uned 2: Ymchwiliad Personol, (36% o'r Safon Uwch), i'w asesu'n fewnol, a'i safoni'n allanol.
- Uned 3: Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol, (24% o'r Safon Uwch), i'w asesu'n fewnol a'i safoni'n allanol.

Mae'r fanyleb hon yn cynnig hyblygrwydd a chynhwysedd i adeiladu ar ehangder a dyfnder arfer creadigol y dysgwr, ac ehangu ar hynny. Mae hefyd yn cynnig dewis o gwrs cyffredinol eang, yn ogystal â chwe opsiwn teitl arnodedig heb unrhyw gyfuniadau gwaharddedig.

Yng ngham cychwynnol Uned 1, bydd dysgwyr yn cael y cyfle i archwilio a gwella sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth hanfodol trwy amrywiaeth o brofiadau. Gallai'r rhain gynnwys defnyddio ffynonellau dan arweiniad, fel yr *amgylchedd lleol neu *adnoddau eraill, i gasglu ymchwil gweledol sy'n gyfoethog. Bydd y rhaglen ddysgu hefyd yn cynnig cyfleoedd ar gyfer arbrofi, cydweithio, gwneud penderfyniadau creadigol ac arloesedd yn ogystal â gweithgareddau i helpu dysgwyr i ddatblygu sgiliau curadurol. O'r rheiny, gellir creu ymholiadau creadigol arwyddocaol wrth i'r cwrs fynd yn ei flaen.

Pwrpas y dull hwn yn bennaf yw datblygu sylfaen i gefnogi llywio hyderus trwy deithiau creadigol y dysgwyr o ganol y cwrs hyd at y diwedd (tymor dau a thri) a, lle bo'n briodol, cynnig sail gadarn ar gyfer astudiaeth bellach ar Safon Uwch.

Mae Uned 2 yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr fireinio eu sgiliau, ehangu gwybodaeth a dyfnhau dealltwriaeth trwy amrediad o brofiadau mwy heriol. Gallai'r rhain gynnwys dewis ffynonellau'n annibynnol a'u defnyddio, *er enghraifft agwedd benodol ar yr amgylchedd lleol, ymweliadau ag orielau, *gweithdai neu adnoddau eraill, i gasglu ymchwil gweledol sy'n gyfoethog ac yn cefnogi ymchwiliadau manwl. Yn ystod y cwrs, dylid annog dysgwyr i arbrofi'n bwrpasol, cydweithio, gwneud penderfyniadau creadigol gwybodus a bod yn gynyddol arloesol yn eu dulliau. Dylai eu hastudiaethau gael eu datblygu i sicrhau dyfnder priodol a graddau uchel o drylwyrdd. Dylid hefyd feithrin ystyriaethau curadurol yng nghyflwyniad eu gwaith. Pwrpas y dull hwn yw bod yn sail i ddatblygiad creadigol personol y dysgwyr, yn enwedig trwy ran olaf Uned 2, a thrwy gydol Uned 3.

*Yn yr enghreifftiau hyn mae cyfleoedd i athrawon ymwneud â dysgu a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r Persbectif Cymreig.

Mae pwyslais hefyd ar werth sgiliau lluniadu. Mae holl fanylebau UG/Safon Uwch Celf a Dylunio yn gofyn i ddysgwyr ddatblygu sgiliau i 'gofnodi profiadau ac arsylwadau, mewn amrywiaeth o ffyrdd gan ddefnyddio lluniadu a ffurfiau gweledol priodol eraill; ymgymryd â gwaith ymchwil; a chasglu, dewis a threfnu gwybodaeth weledol a gwybodaeth briodol arall'. Dylai'r ffocws hwn annog dysgwyr i werthfawrogi arwyddocâd lluniadu yn yr ystyr ehangaf trwy adnabod ac adolygu sut mae'n bwydo'r broses greadigol ar draws y disgyblaethau.

Mae'r tair uned ar gyfer y fanyleb wedi cael eu llunio i arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:

- defnyddiau, prosesau, technolegau ac adnoddau perthnasol
- sut y gellir cyfleu a dehongli syniadau, teimladau ac ystyron mewn delweddau ac arteffactau
- y berthynas rhwng delweddau ac arteffactau a'r cyfnod a lle y cawsant eu gwneud a'u cyd-destunau cymdeithasol a diwylliannol
- parhad a newid mewn gwahanol *genres*, arddulliau a thraddodiadau
- geirfa weithiol a thermau arbenigol.

Mae'r holl unedau yn gofyn i ddysgwyr ddatblygu'r sgiliau i wneud y canlynol:

- cofnodi profiadau ac arsylwadau, mewn amrywiaeth o ffyrdd gan ddefnyddio lluniadu a ffurfiau gweledol priodol eraill; ymgymryd â gwaith ymchwil; a chasglu, dewis a threfnu gwybodaeth weledol a gwybodaeth briodol arall
- archwilio adnoddau perthnasol; dadansoddi, trafod a gwerthuso delweddau, gwrthrychau ac arteffactau; a mynegi a chofnodi barn annibynnol
- defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth o waith pobl eraill i ddatblygu ac estyn eu syniadaeth a chyfoethogi eu gwaith eu hunain
- cynhyrchu ac archwilio trywyddau ymholi posibl, gan ddefnyddio cyfryngau a thechnegau priodol
- cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth wrth wneud delweddau ac arteffactau. adolygu ac addasu gwaith; a chynllunio a datblygu syniadau ar sail eu gwerthusiadau eu hunain a gwerthusiadau pobl eraill
- trefnu, dewis a chyfleu syniadau, datrysiadau ac ymatebion, a'u cyflwyno ar sawl ffurf weledol, gyffyrddol a/neu synhwyraidd

Gall dysgwyr weithio'n llwyr mewn cyfryngau digidol neu'n llwyr mewn cyfryngau nad ydynt yn ddigidol, neu mewn cymysgedd o'r ddau, cyhyd ag y bodlonir y nodau a'r amcanion asesu.

Mae'r fanyleb hon yn hybu'r defnydd o gyd-destunau o Gymru yn yr UG a'r Safon Uwch Celf a Dylunio. Mae'n annog yr athrawon i roi cyfleoedd i'r dysgwyr ymwneud â'r persbectif Cymreig yn eu harfer creadigol, lle bo'n briodol gwneud hynny. Gellir annog dysgwyr i ddatblygu a chymhwyso eu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau trwy ddefnyddio:

- ffynonellau lleol megis yr amgylchedd, pensaernïaeth, sefydliadau diwylliannol, neu arteffactau lleol, sy'n benodol i Gymru neu'n nodwedd ohoni
- gwaith artistiaid, dylunwyr neu grefftwyr sy'n cyfrannu ar hyn o bryd at y diwydiannau creadigol yng Nghymru
- gwaith artistiaid, dylunwyr neu grefftwyr o'r gorffennol, sydd wedi byw a gweithio yng Nghymru, neu'r rheini sydd wedi mabwysiadu ffocws neu berspectif Cymreig yn eu harfer;
- treftadaeth, arferion, diwylliant, nodweddion ieithyddol a/neu hunaniaeth artistig a diwydiannol Cymru.

Mae'r persbectif Cymreig yn rhan o'r Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol hefyd gan ddefnyddio delweddau o ffynonellau cynradd wedi'u lleoli yng Nghymru a chyfeirio at artistiaid, dylunwyr a chrefftwyr o Gymru lle bo'n briodol gwneud hynny.

2.1 Crynodeb o'r opsiynau

Gall dysgwyr astudio un neu fwy o'r opsiynau canlynol sy'n cael eu dewis o gwrs eang, dan y teitl Celf, Crefft a Dylunio, a chwe theitl arnodedig.

Celf, Crefft a Dylunio

Mae'r cwrs hwn yn eang ac yn cynnig hyblygrwydd o ran cynnwys a dull. Gall dysgwyr ddilyn y llwybr hwn os ydynt am gyflwyno gwaith yn ymwneud â mwy nag un teitl arnodedig. Dylai dysgwyr sy'n dewis Celf, Crefft a Dylunio archwilio gwaith ymarfer a beirniadol/cydestunol trwy ddilyn amrywiaeth o brosesau a chyfryngau 2D a/neu 3D yn ystod camau cynharaf yr Ymholiad Creadigol Personol a'r Ymchwiliad Personol. Gellir dewis datrysiad terfynol eu gwaith ymchwiliol **naill ai** o brosesau a chyfryngau 2D a/neu 3D (gan gyfuno disgyblaethau o fwy nag un teitl arnodedig) **neu** gynnwys prosesau a chyfryngau sy'n gysylltiedig ag un teitl arnodedig.

Yn yr un modd, yn Uned 3, yr Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol, gall dysgwyr ddewis cynhyrchu gwaith yn ystod y cyfnodau astudiaeth baratoadol a gwaith dwys a manwl sy'n cyfleu **naill ai** mwy nag un teitl arnodedig **neu** un teitl arnodedig.

Proses gyfannol mewn perthynas â'r pedwar amcan asesu, fydd asesu'r holl waith a gyflwynir ar gyfer Unedau 1, 2 a 3, fel y gwneir â'r holl deitlau arnodedig. Bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i ehangder a dyfnder y dystiolaeth a gyflwynir.

Gall dysgwyr archwilio meysydd sy'n gorgyffwrdd a/neu gyfuniadau o ddisgyblaethau o'r meysydd isod:

- Celfyddyd Gain
- Astudiaethau Beirniadol a Chyd-destunol
- Dylunio Tecstilau
- Cyfathrebu Graffig
- Dylunio Tri Dimensiwn
- Ffotograffiaeth.

Celf a Dylunio (Celfyddyd Gain)

Mae'r meysydd astudio posibl yn cynnwys y canlynol:

- peintio a lluniadu
- cyfryngau cymysg, gan gynnwys collage ac assemblage
- celf perfformiad a chysyniadol
- cerflunwaith
- celfyddyd tir ac amgylcheddol
- gosodwaith
- gwneud printiau: cerfweddol, intaglio, prosesau sgrin a lithograffi
- ffilm, teledu, animeiddio, fideo, ffotograffiaeth
- cyfryngau digidol.

Celf a Dylunio (Astudiaethau Beirniadol a Chyd-destunol)

Mae'r ffurfiau a'r dulliau y gellir eu harchwilio yn cynnwys y canlynol:

- astudiaeth ymarferol a damcaniaethol o'r ffurf ddynol mewn Celf, Crefft a Dylunio wedi'i gyflwyno mewn ffurf clyweledol
- *genres* neu fudiadau fel Mynegiadaeth, Cerflunwaith Cyfoes o Gymru neu Bauhaus wedi'u dogfennu fel cyfres o arweinlyfrau ar gyfer orielau
- agweddau ar arfer cyfoes megis delweddu digidol wedi'i sgriptio fel rhaglen ddogfen ar gyfer y teledu
- materion amgylcheddol neu wleidyddol mewn Celf wedi'u harddangos fel byrddau arddangos neu blacardiau
- perthynas rhwng delwedd a thestun wedi'i gyflwyno yn Powerpoint neu ar ffurf e-lyfr
- archwiliad i gelf naratif wedi'i gyflwyno mewn llyfr braslunio neu ar fwrdd stori sy'n cynnwys sylwebaeth estynedig
- ymchwilio i'r defnydd o symbolaeth ac alegori mewn traethawd darluniadol.

Celf a Dylunio (Dylunio Tecstilau)

Mae'r meysydd astudio posibl yn cynnwys y canlynol:

- ffasiwn
- costiwm
- ffabrigau, dillad a deunyddiau wedi'u printio a/neu eu llifo'n ddigidol neu'n draddodiadol
- dylunio mewnol
- tecstilau wedi'u hadeiladu (wedi'u gwau, wedi'u gwehyddu, wedi'u brodio neu wedi'u cyfuno â defnyddiau eraill)
- gosodwaith tecstilau
- cyfwisgoed.

Celf a Dylunio (Cyfathrebu Graffig)

Mae'r meysydd astudio posibl yn cynnwys y canlynol:

- darlunio
- teipograffeg
- golygyddol
- hysbysebu a brandio
- dylunio pecyn
- dylunio printiau
- graffeg gyfrifiadurol
- dylunio amlgyfrwng
- animeiddio ac effeithiau arbennig
- creu byrddau stori a gosodiad
- geiriau llyfr
- dylunio gwefannau ac apiau
- dylunio gemau.

Celf a Dylunio (Dylunio Tri Dimensiwn)

Mae'r meysydd astudio posibl yn cynnwys y canlynol:

- cerameg
- cerflunwaith
- gemwaith/addurniadau i'r corff
- dylunio ar gyfer arddangosfeydd
- dylunio cynhyrchiad
- dylunio perfformiad
- dylunio mewnol
- dylunio cynnyrch
- dylunio amgylcheddol
- dylunio pensaernïol
- animeiddio 3-D a dylunio ac adeiladu pypedau
- dylunio dodrefn
- dylunio 3-D digidol.

Celf a Dylunio (Ffotograffiaeth)

Mae'r meysydd astudio posibl yn cynnwys y canlynol:

- ffotograffio pobl
- ffotograffio lleoedd
- ffotograffiaeth bywyd llonydd
- ffotograffiaeth ddogfennol
- ffotonewyddiaduraeth
- delweddaeth arbrofol
- gosodwaith ffotograffig
- ffotograffiaeth ffasiwn
- delweddu digidol
- delwedd symudol (fideo, ffilm, animeiddio).

2.2 UNED UG

Uned 1: Ymholiad Creadigol Personol

Asesiad diartholiad

40% o'r cymhwyster Safon Uwch (100% o'r cymhwyster UG)

Mae'r Ymholiad Creadigol Personol yn cynnwys project/portffolio ymchwiliol, estynedig a chanlyniad/au yn seiliedig ar themâu a deunydd pwnc sydd yn bersonol ac yn ystyrllon i'r dysgwr. Rhaid i'r Ymholiad gyfuno gwaith beirniadol, ymarferol a damcaniaethol.

Ar ddechrau eu hastudiaeth ar gyfer yr uned UG unigol hon, bydd yn bosibl i gynnig cyfleoedd ar gyfer adnabod cryfderau dysgwyr yn ogystal ag agweddau ar eu dysgu sydd angen eu datblygu. Dylai hyn gynnig sail ar gyfer adeiladu'n gynyddrannol amrediad o wybodaeth a sgiliau hanfodol ac arbenigol a fydd, yn y diwedd, yn meithrin hyder ac yn galluogi dysgwyr i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain. Ar gam priodol o'r datblygiad, mae'n debyg erbyn diwedd y tymor cyntaf, dylai'r dysgwyr fod wedi ennill yr hyder a'r cymhwysedd i benderfynu ar eu llinellau archwilio eu hunain, mewn ymgynghoriad â'u hathro. Bydd hyn yn eu galluogi i ddewis y pwnc neu thema ar gyfer eu ymholiad personol a chynllunio'r ffordd i ymgymryd â'r ymholiad.

Penllanw'r uned hon yw project/portffolio ymarferol yn archwilio thema, cysyniad neu friff dylunio penodol a ddylai fod o arwyddocâd personol i'r dysgwr. Dylai eu galluogi i ddatblygu'n bellach, a gwneud defnydd pwrpasol ac effeithiol o'r wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau sylfaenol a adeiladwyd yn gynharach yn y cwrs. Dylai'r ymholiad ymarferol fod yn gysylltiedig ag astudiaeth feirniadol a chyd-destunol o waith yr artistiaid, crefftwyr a/neu ddylunwyr perthnasol, a bod yn seiliedig ar hynny.

Dylid annog dysgwyr i wahaniaethu wrth iddynt ddewis, gwerthuso a chyflwyno eu gwaith i'w asesu. Dylent hefyd ystyried y ffordd fwyaf priodol i gyflwyno eu project/portffolio a bod yn ymwybodol o'r amrywiaeth o ffurfiau posibl, gan ystyried pwrpas y cyflwyniad a'r angen i'w wneud yn ddiddorol i gynulleidfa.

Asesiad

Mae'r aseiniadau, briffiau neu themâu i ymgymryd â nhw ar gyfer yr Ymholiad Creadigol Personol yn cael eu gosod yn fewnol gan y dysgwr, mewn ymgynghoriad â'r athro, a'i safoni'n allanol. Bydd y gwaith syn cael ei gyflwyno yn cael ei asesu mewn perthynas â'r pedwar amcan asesu ac mae'n rhaid iddo felly ddangos tystiolaeth o gyfeirio at bob un o'r amcanion asesu hyn. Dylid gwneud hyn er mwyn arddangos y lefel gofynnol o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth sy'n ddisgwyliedig ar gyfer cymwysterau UG. Dylai'r gwaith gael ei gwblhau a'i asesu er mwyn i ganolfannau gyflwyno marciau'r ganolfan i CBAC erbyn y dyddiad cau ar ddiwedd mis Mai.

Amserlen a argymhellir: Mis Medi y flwyddyn gyntaf hyd at ganol mis Mai. Dylai'r tymor cyntaf gyflwyno cyfleoedd ar gyfer adeiladu'r sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i ddatblygu'r ymholiad creadigol personol dros yr amser sydd yn weddill. Dylid rhoi digon o amser i gwblhau'r asesiad mewnol erbyn y dyddiad cau ym mis Mai.

2.3 UNEDAU U2

Uned 2: Ymchwiliad Personol

Asesiad diarholiad
36% o'r cymhwyster

Mae'r uned hon yn cynnwys prif broject/portffolio ymchwiliol beirniadol, ymarferol a damcaniaethol manwl yn seiliedig ar themâu a chanlyniad/au â dadansoddiad ysgrifenedig estynedig beirniadol a chyd-destunol (**lleiafswm o 1000 gair**). Pennir yr aseiniadau, briffiau neu themâu i ymgymryd â nhw gan y dysgwr a'r athro.

Dylai'r uned hon alluogi dysgwyr i atgyfnerthu ac ehangu'n effeithiol y sgiliau craidd sylfaenol a adeiladwyd yn ystod y cwrs UG. Dylai hefyd annog dysgu, gwybodaeth, sgiliau cyd-destunoli a meddwl beirniadol manwl ac arbenigol. Mae'r amser sydd ar gael ar gyfer yr uned hon yn cynnig mwy o gyfleoedd i ganolbwyntio ar feithrin sgiliau gwerthfawr (sy'n cynnwys arbrofi, cymryd risg, lluniadu a'r gallu i ddadansoddi a chyfosod gwybodaeth a syniadau) yn ogystal â datblygu a mireinio technegau.

Bydd agweddau cyflwyniadol y cwrs yn arwain at broject/portffolio ymarferol gydag elfennau ysgrifenedig wedi'u hintegreiddio (**lleiafswm o 1000 gair**). Yma, dylai dysgwyr ddatblygu (mewn ymgynghoriad â'r athro) ymchwiliad personol yn seiliedig ar thema, cysyniad neu friff dylunio penodol sydd ag arwyddocâd personol i'r dysgwr, a chysylltiadau i gyd-destunau o artistiaid, dylunwyr neu grefftwyr cyfoes a/neu o'r gorffennol.

Dylai'r uned alluogi dysgwyr i ymrwymo i astudiaeth o ddyfnder addas. Gall y dysgwyr gyflawni hyn, er enghraifft, trwy un neu fwy o'r canlynol:

- archwiliad trylwyr o ddull rhyngddisgyblaethol neu amlddisgyblaethol i'w gwaith
- datblygiad estynedig o themâu, syniadau neu faterion sydd ag arwyddocâd i ddysgwyr
- arbenigaeth mewn cyfrwng, techneg neu broses penodol mewn perthynas â'r dewis opsiwn neu
- ymchwil damcaniaethol pellach i ddatblygu mwy o ddealltwriaeth trwy gyfathrebu ymarferol, ysgrifenedig a dulliau eraill o gyfathrebu wedi'u hintegreiddio.

Dylai dysgwyr wahaniaethu wrth iddynt ddewis, gwerthuso a chyflwyno eu gwaith i'w asesu, a gwneud penderfyniadau curadurol ystyriol o ran cyflwyniad eu gwaith, gan ddefnyddio ffurfiau sy'n addas iawn i bwrpas y gwaith. Dylai'r ffurfiau anelu i fod yn ac yn ddiddorol. Dylid ystyried cyd-destunau, adnoddau a chynulleidfaoedd.

Gall deunydd ysgrifenedig estynedig, beirniadol, cyd-destunol a dadansoddol fod ar amrywiaeth o ffurfiau, fel astudiaeth bersonol, traethwad darluniadol, cyflwyniad digidol neu flog, taflenni astudiaeth ddarluniadol, adroddiad ysgrifenedig, dyddlyfr, erthygl neu adolygiad, a dylai adlewyrchu ar waith y dysgwr a gwaith eraill. Er mwyn bodloni'r **lleiafswm o 1000 gair** am yr ysgrifennu estynedig sy'n berthnasol i **bob** cyflwyniad, **rhaid** i ddysgwyr gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig mewn adrannau'n cynnwys **dim llai na 200 gair**. Rhaid i ddysgwyr, er mwyn iddynt ddatblygu dadl sy'n ddigon manwl ac yn dangos digon o ddyfnder dealltwriaeth feirniadol, gyflwyno **lleiafswm o 400 gair** ynghyd â thystiolaeth weledol a thystiolaeth arall er mwyn bodloni gofynion **AA1**.

Gellir defnyddio ysgrifennu estynedig (ynghyd â thystiolaeth weledol a thystiolaeth arall) i ymwneud ag Amcanion Asesu eraill, gan ddibynnu ar natur yr ymchwiliad.

Yn AA4, er enghraifft, gall dysgwyr ysgrifennu'n estynedig er mwyn ychwanegu ystyr i'w gwaith ac i werthuso'r prosesau a ddefnyddiwyd i wireddu eu bwriadau. Yn AA3, gallant ddefnyddio ysgrifennu estynedig, ynghyd â lluniadu, fel ffordd o gofnodi arsylwadau a dangos dyfnder mewnwelediad i bwnc eu hymchwiliad a myfyrio'n feirniadol ar yr hyn a ddysgwyd ganddynt. Yn AA2, gellid defnyddio sylwebaeth ysgrifenedig i ystyried y perthnasoedd rhwng dulliau gweithio ymarferol a chanlyniadau yn ogystal â pharhau i adolygu'r rhain.

Yn achos AA2, AA3 /neu AA4, **rhaid** cyflwyno'r ysgrifennu estynedig mewn adrannau o leiafswm o **200 gair**. Pa bynnag gyd-destun a ddefnyddir, dylai dysgwyr anelu at gynnal cydlynedd a pharhad ym mhob darn o ysgrifennu estynedig.

Dylid talu sylw arbennig i elfennau gweledol ac ysgrifenedig ac i sicrhau bod y cyswllt rhwng y ddau'n eglur ac yn gydlynol. Ni ddylid ystyried gwaith ysgrifenedig fel rhywbeth sy'n cael ei asesu ar wahân ond yn hytrach fel rhywbeth sy'n rhan gyfannol o'r gwaith sy'n cael ei greu ar gyfer pob Amcan Asesu. Proses gyfannol felly fydd asesu'r ymatebion ysgrifenedig ac ymarferol yn asesiad yr Ymchwiliad Personol. Mae'n hanfodol felly eu bod yn cael eu cyfannu'n uniongyrchol ac yn bwrpasol.

Noder nad bwriad ysgrifennu estynedig yw disodli anodi ysgrifenedig cryno fel a ddefnyddir, er enghraifft, ynghyd â lluniadau mewn llyfrau braslunio neu lyfrau nodiadau dylunio. Anogir yr arfer da hwn. Fodd bynnag, ni fydd anodi o'r fath yn ffurfio rhan o'r gofyniad lleiaf o 1000 gair ar gyfer ysgrifennu estynedig.

Dylai dysgwyr hefyd wneud y canlynol:

- sicrhau bod gwaith ysgrifenedig yn ddarllenadwy a'r cyfathrebu'n eglur
- defnyddio ffurf ac arddull ysgrifennu sy'n addas i'r pwrpas
- trefnu gwybodaeth yn glir a chydlynol, gan ddefnyddio geirfa weithiol a therminoleg arbenigol.

Bydd yr Ymchwiliad Personol yn cael ei asesu'n fewnol gan y ganolfan (gan sicrhau bod y marciau wedi eu cyflwyno i CBAC erbyn y dyddiad cau ym mis Mai) a'i safoni'n allanol. Bydd yr holl waith a gynhyrchir ar gyfer yr uned hon yn cael ei farcio mewn perthynas â'r amcanion asesu.

(I gael mwy o wybodaeth ac arweiniad ar Ysgrifennu Estynedig yn yr Ymchwiliad Personol, ewch i Atodiad B.)

Amserlen a argymhellir: Dechrau'r ail flwyddyn academiaidd ym mis Medi (neu mewn egwyddor o orffen y cwrs UG) hyd at ddiwedd mis Ionawr. Dylai rhan gychwynnol y cwrs ganiatáu atgyfnerthu ac ehangu'r sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth a adeiladwyd yn ystod yr astudiaeth UG. Dylai hyn fod yn sail i Ymchwiliad Personol dros yr amser sydd yn weddill nes dechrau'r Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol yn fuan ym mis Chwefror.

Uned 3: Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol

Asesiad diartholiad
24% o'r cymhwyster

Mae'r uned hon yn cynrychioli penllanw astudiaeth Safon Uwch y dysgwyr ac yn cynnig sialens sylweddol. Mae'n ofynnol i ddysgwyr ddatblygu'n annibynnol ymateb i un dewis o amrediad amrywiol o ysgogiadau o fewn cyfyngiadau amser a nodir. Rhaid i ddysgwyr felly ddwyn ynghyd y gorau o'r ddealltwriaeth, y wybodaeth a'r sgiliau a adeiladwyd dros eu cwrs astudio ac arddangos eu cyrhaeddiad uchaf trwy'r aseiniad hwn a osodir yn allanol.

Mae'r Aseiniad wedi'i Osod yn allanol yn cynnwys cyfres o ysgogiadau gweledol ac ysgrifenedig (gan gynnwys delwedd symudol) wedi'u gosod gan CBAC. Mae'n ofynnol i ddysgwyr ddewis **un** o'r ysgogiadau a'i ddatblygu ar un o'r ffurfiau canlynol:

- ymateb personol neu
- fater sydd angen rhoi sylw iddo neu
- broblem i'w hystyried neu
- briff dylunio penodol neu
- fan cychwyn addas arall.

Bydd dysgwyr yn datblygu eu hymateb dros gyfnod o astudiaeth paratoadol (y ganolfan sydd i benderfynu ar hyd y cyfnod hwn). Rhaid i ymatebion fod ar ffurf gwaith paratoi a/neu astudiaethau cefnogol sy'n feirniadol, ymarferol a damcaniaethol. Defnyddir y gwaith hwn wedyn i wireddu'r syniadau hyn mewn astudiaeth ddwys a manwl **15 awr**, fydd yn cael ei wneud heb gymorth ac o dan amodau dan oruchwyliaeth. Yn dilyn y cyfnod o astudiaeth paratoadol hwn, dyrennir cyfnod o **15 awr** o astudiaeth ddwys a manwl i'r dysgwyr i wireddu eu hymateb heb gymorth ac mewn amodau dan oruchwyliaeth.

Ar ddiwedd eu cyfnodau o astudiaeth paratoadol a gwaith dwys a manwl, bydd gofyn i ddysgwyr ddethol, gwerthuso a chyflwyno'u gwaith i'w asesu. Dylai'r gwaith a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod o astudiaeth ddwys a manwl gael ei nodi'n glir. Yn ychwanegol, dylai dysgwyr sicrhau bod yr holl ddeunydd ffynhonnell eilaidd wedi ei gydnabod yn briodol. Os oes gwaith wedi'i gynnwys yn y cyflwyniad nad yw'n llwyr berthyn i'r dysgwr, fel dyfyniadau a delweddau wedi'u cynhyrchu gan eraill, mae'n hanfodol nodi a chydabod bob un o'r rhain yn benodol.

Asesir dysgwyr ar eu gallu i weithio'n annibynnol, o fewn cyfyngiadau amser penodol ac mewn perthynas â'r pedwar amcan asesu. Bydd y gwaith paratoi a gwaith yr astudiaeth ddwys a manwl yn cael eu hasesu gyda'i gilydd. Gweler Adran 3.2 am amodau'n ymwneud â'r Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol.

Cyfnod amser yr asesiad

- Bydd deunyddiau'r Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol yn cael eu rhyddhau i ymgeiswyr ar 1 Chwefror neu wedi hynny yn ail flwyddyn y cwrs Safon Uwch.
- Bydd y dyddiadau dechrau a gorffen ar gyfer yr astudiaeth ddwys a manwl yn cael eu pennu gan y ganolfan, ond dylid ystyried y dyddiad cau ym mis Mai ar gyfer cyflwyno marciau i CBAC.
- Asesir y gwaith yn fewnol a'i safoni'n allanol.

Amserlen a argymhellir: Dechrau mis Chwefror hyd y dyddiad cau ym mis Mai ar gyfer cyflwyno marciau. Dylai hyn ganiatáu lleiafswm o chwe wythnos a argymhellir ar gyfer yr astudiaeth paratoi, ac i'w dilyn gyda chyfnod addas i drefnu'r astudiaeth ddwys a manwl 15 awr. Dylid rhoi digon o amser i gwblhau'r asesiad mewnol erbyn y dyddiad cau ym mis Mai.

2.4 Opsiynau yn fanwl

Mae'r un meysydd astudio'n cael eu rhoi i'r dysgwyr UG â'r dysgwyr Safon Uwch ym mhob teitl a theitl arnodedig, er mwyn sicrhau bod yr amrywiaeth lawn o gyfleoedd ar gael ar y naill lefel a'r llall. Gan mai gwahaniaethu trwy ganlyniad a geir mewn Celf a Dylunio, bydd modd cymharu'r safon sy'n ddisgwyliedig yn yr UG â'r hyn sy'n cael ei chyflawni gan ddysgwyr ar ôl blwyddyn o astudiaeth ar gwrs Safon Uwch. Bydd modd cymharu'r safon U2 â'r hyn a gyflawnir gan ddysgwyr ar ôl dwy flynedd o astudiaeth ar gwrs Safon Uwch.

I bob opsiwn, bydd deunydd enghreifftiol yn cael ei roi ar-lein bob blwyddyn i enghreifftio maint yr ymdriniaeth sy'n ddisgwyliedig ar gyfer yr UG a'r U2 mewn perthynas â safonau pob Amcan Asesu.

Celf, Crefft a Dylunio

Mae'r cwrs hwn yn eang ac yn cynnig hyblygrwydd o ran cynnwys a dull. Gall dysgwyr ddilyn y llwybr hwn os ydynt am gyflwyno gwaith yn ymwneud â mwy nag un teitl arnodedig.

Mae'r dysgwyr hynny sy'n dewis Celf, Crefft a Dylunio'n archwilio gwaith ymarferol a beirniadol/cyd-destunol trwy amrywiaeth o brosesau a chyfryngau 2D a/neu 3D trwy gydol cyfnodau cynharaf eu hymchwiliadau. Gallant ddefnyddio prosesau a chyfryngau 2D a/neu 3D (yn adlewyrchu disgyblaethau o fwy nag un teitl arnodedig) ar gyfer datrysiad terfynol eu gwaith ymchwiliol neu gall fod yn waith sy'n gysylltiedig ag un teitl arnodedig.

Asesir yr holl waith a gyflwynir, yn yr un modd â'r holl deitlau arnodedig, yn gyfannol mewn perthynas â'r pedwar amcan asesu. Mae'r cynnwys a awgrymir ar gyfer Celf, Crefft a Dylunio, a nodir isod, yn rhoi arweiniad pellach am y math o dystiolaeth y dylai dysgwyr anelu at ei darparu er mwyn bodloni'r amcanion asesu hyn.

Ar gyfer y teitl hwn a theitlau eraill i ddilyn, gallai fod yn ddefnyddiol i gyfeirio at ddiffiniadau gweithredol, eang o 'gelf', 'crefft' a 'dylunio', gan gydnabod bod diffiniadau rhwng y rhain yn dod yn fwyfwy aneglur.

Celf

Mae Celf yn cyfuno gweithgaredd ymarferol a deallusol ac yn dueddol o ganolbwyntio ar fynegiant creadigol. Mae prosesau a chanlyniadau yn cael eu dylanwadau gan gyfyngiadau neu fwriadau penodol. Bydd nifer o'r rhain wedi'u pennu gan yr artist. Gall prosesau fod yn strwythuredig neu'n benagored a gallant gynnwys archwiliad o brofiadau, teimladau, canfyddiadau ac arsylwadau. Gallai'r rhain gynnwys astudiaeth uniongyrchol, feirniadol a dadansoddol o arteffactau, gwrthrychau, lleoedd a phobl. Gallent gychwyn gyda'r unigolyn, neu fel ymateb i ysgogiad a roddwyd, fel thema, mater, neu broblem. Gall y canlyniadau adlewyrchu dychymyg, dylanwadau a bwriadau'r unigolyn wrth ddilyn syniad, gan gyfleu profiad neu fynegi teimladau, yn aml â'r pwrpas o ddenu sylw eraill a fydd yn gweld y gwaith.

Crefft

Mae Crefft yn cyfuno sgiliau ymarferol a deallusol ac yn canolbwyntio ar eu defnyddio'n greadigol i drin defnyddiau, offer a phrosesau yn sensitif. Mae'n cynnwys cymhwysu gwybodaeth a dealltwriaeth am ddefnyddiau a'u nodweddion gweithredol, ynghyd â sgiliau crefft a bwriadau creadigol sy'n ystyried anghenion gwneuthurwr a defnyddiwr y canlyniad terfynol. Er bod angen i ddysgwyr gael gwybodaeth weithiol a gwerthfawrogiad o ddefnyddiau, offer a phrosesau traddodiadol, dylent hefyd fod yn gyfarwydd â defnyddiau a thechnolegau newydd sy'n datblygu mewn gwaith crefft cyfoes. Mae'n hanfodol bod pwyslais priodol yn cael ei roi ar syniadau creadigol a dulliau dychmygus, wrth ddefnyddio defnyddiau a sgiliau crefft.

Dylunio

Mae Dylunio yn rhoi pwyslais ar y ffordd mae gweithgaredd ymarferol a deallusol yn cyfuno er mwyn ymateb i anghenion pobl. Fel arfer, nid yw'r rhain yn cael eu nodi gan y dylunydd ei hun ac mae hyn yn rhoi dylunio ar wahân i weithdrefnau celf a chrefft sydd wedi cychwyn i raddau helaeth gyda'r artist neu'r crefftwr unigol. Mae'r dylunydd yn dueddol o weithio o fewn paramedrau a osodir yn allanol ac yn ystyried materion fel y defnydd sydd i'w wneud o'r canlyniad, gwydnwch, ergonomeg, ymddangosiad esthetig, costau, argaeledd defnyddiau a dulliau cynhyrchu. Gall prosesau a chanlyniadau amrywio o fod yn fympwyol, dychmygus a mentrus i addasiad a gwelliant meddylgar o ddyluniadau sy'n bodoli'n barod.

Mae modd gwahaniaethu rhwng Celf, Crefft a Dylunio ac opsiynau eraill drwy alluogi dysgwyr i arddangos diddordebau a galluoedd personol ar draws cwrs eang o astudiaeth.

Dylent archwilio meysydd ymarferol a chyd-destunol a ddewiswyd o gelf, crefft a dylunio i amrediad o gyfryngau a phrosesau dau a/neu dri dimensiwn.

Gall celf, crefft a dylunio gynnwys y defnydd o amrediad bron yn ddi-ben-draw o ddefnyddiau, technegau a phrosesau, ond dylid rhoi sylw dyledus i sicrhau dyfnder priodol yn ogystal â lled y profiadau dysgu.

Fel rhan o'u hastudiaethau UG Celf, Crefft a Dylunio anogir dysgwyr i ystyried y canlynol:

AA1

- Datblygu syniadau sy'n seiliedig ar astudiaeth ymchwiliol gyd-destunol o gelf, crefft a dylunio a ffynonellau eraill sy'n berthnasol i'r maes astudio a ddewiswyd.
- Ymwybyddiaeth o amrywiaeth eang o waith sydd wedi'i gynhyrchu gan artistiaid, crefftwyr a dylunwyr a'r gwahaniaethau yn eu dulliau, ymagweddau, pwrpasau a bwriadau.
- Sgïl dadansoddol a dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol wrth gymharu a chyferbynnu gwaith artistiaid, crefftwyr a dylunwyr perthnasol a ffynonellau cyd-destunol eraill ac wrth werthuso canlyniadau personol.

AA2

- Dethol ac arbrofi gydag amrediad eang priodol a digonol o gyfryngau a phrosesau, gan arfer rheolaeth addas ar y rhain i uchafu potensial creadigol.
- Archwilio adnoddau ysgogol i gychwyn a datblygu syniadau arloesol, gyda sylw dyledus i elfennau ffurfiol perthnasol, yn enwedig cyfansoddiad. Perthnasoedd clir rhwng dulliau gweithio a chanlyniadau. Dylid dogfennu pob cam arwyddocaol yn y broses creadigol, gan gynnwys cam olaf ond un y datblygu er mwyn sicrhau nad yw'r canlyniadau terfynol yn ymddangos yn ddisymwth.
- Dylid dangos gwahaniaethu wrth adolygu a mireinio syniadau wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen. Rheolaeth fedrus o ran rhoi sylw i fanylder, fel ail-adeiladu rhannau o ddarnau crefft tri-dimensiwn, er mwyn cynhyrchu canlyniadau cydrannol o safon.

AA3

- Casglu, dewis, trefnu a chyfathrebu gwybodaeth berthnasol wrth ymgymryd ag ymchwil i ffynonellau cyfeirio gweledol a ffynonellau eraill. Rhoi sylw dyledus i ddewis ffynonellau ymholi priodol a dadansoddi'r rhain er mwyn cael manylder llawn gwybodaeth.
- Cofnodi, drwy luniadu a ffyrdd eraill addas, fel lliw, nodiadau tonyddol a gweadeddol, ffotograffau ac anodi mewn llyfrau braslunio ac ar daflenni astudio, syniadau, arsylwadau a mewnwediadau sydd yn unol â bwriadau personol.
- Myfyrio beirniadol ar gynnydd y gwaith er mwyn adolygu beth sydd wedi cael ei ddysgu, meithrin dealltwriaeth ac egluro pwrpasau ac ystyron. Lle bo'n briodol, gellir trosglwyddo dysgu i gyd-destunau newydd, er enghraifft, addasu ymateb haniaethol mynegiannol wedi'i beintio i drawstoriadau o ffrwythau er mwyn datblygu dyluniadau graffig ar gyfer marchnata iogyrtiau ffrwythau sydd wedi'u cynhyrchu'n lleol.

AA4

- Cyflwyno canlyniadau terfynol dychmygus personol sydd, ynghyd â thystiolaeth o'r prosesau a ddefnyddiwyd i'w cynhyrchu, yn gwireddu'r bwriadau a nodwyd.
- Gwneud cysylltiadau, lle bo'n briodol, rhwng gwahanol elfennau'r cyflwyniad, gan gynnwys ymatebion cyd-destunol, ymarferol ac ysgrifenedig, a chyflwyno gwaith sy'n ystyrlon ac mewn trefn sydd yn hawdd ei dilyn.
- Ystyriaeth wedi'i rhoi i ffurfiau gwahanol o gyflwyno a dewis yr un fwyaf priodol o'r rhain ar gyfer y cyflwyniad. Dylid rhoi sylw dyledus i bwrpas y gwaith a sut i wneud iddo edrych yn ddiddorol, er enghraifft, arddangos canlyniad celf, canlyniad crefft a chanlyniad dylunio sydd wedi'u datblygu o thema gyffredin, ynghyd â rhaglen yn seiliedig ar sgrin o ddeunydd gweledol a thestun.

Fel rhan o'u hastudiaethau U2 Celf, Crefft a Dylunio anogir dysgwyr i ystyried y canlynol:

AA1

- Datblygu syniadau sy'n seiliedig ar astudiaeth ymchwiliol gyd-destunol ar gelf, crefft a dylunio hanesyddol a chyfoes yn ogystal â ffynonellau eraill sy'n berthnasol i'r maes astudio a ddewiswyd.
- Ymwybyddiaeth o amrywiaeth eang o waith sydd wedi'i gynhyrchu gan artistiaid, crefftwyr a dylunwyr a'r gwahaniaethau yn eu dulliau, ymagweddau, pwrpasau a bwriadau.
- Sgïl dadansoddol a dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol wrth gloriannu, cymharu a chyferbynnu gwaith artistiaid, crefftwyr a dylunwyr perthnasol, a ffynonellau cyd-destunol eraill ac mewn gwerthusiad ffurfiannol a chyfansymiol o ganlyniadau personol.

AA2

- Dethol ac arbrofi pwrpasol, gydag amrediad eang priodol a digonol o gyfryngau a phrosesau, cyfryngau cymysg a chyfuniadau o gyfryngau, gan arfer rheolaeth addas o'r rhain i uchafu potensial creadigol, a dangos tystiolaeth o ddyfnder a lled yr astudiaeth.
- Archwilio adnoddau ysgogol a ffynonellau gweledol cyfoethog a chyffyrddol i gychwyn a datblygu syniadau arloesol, gyda sylw dyledus i elfennau ffurfiol perthnasol, yn enwedig cyfansoddiad. Dylid sefydlu perthnasoedd clir rhwng dulliau gweithredol a chanlyniadau. Dylid dogfennu pob cam arwyddocaol yn y broses creadigol, gan roi sylw dyledus i gam olaf ond un y datblygu er mwyn sicrhau nad yw'r canlyniadau terfynol yn ymddangos yn ddisymwth.
- Dylid dangos gwahaniaethu wrth adolygu a mireinio syniadau wrth i waith fynd yn ei flaen. Rheolaeth fedrus o ran rhoi sylw i fanylder, fel ail-adeiladu rhannau o ddarnau crefft tri-dimensiwn, er mwyn cynhyrchu canlyniadau cydrannol o safon.

AA3

- Casglu, dewis, trefnu a chyfathrebu gwybodaeth berthnasol wrth ymgymryd ag ymchwil i ffynonellau cyfeirio gweledol a ffynonellau eraill, gan ddangos diddordebau a barnau personol. Rhoi sylw dyledus i ddewis ffynonellau ymholi priodol a dadansoddi'r rhain yn drylwyr er mwyn cael manylder llawn gwybodaeth.
- Cofnodi, drwy luniadu a ffyrdd eraill addas, fel lliw, nodiadau tonyddol a gwadeddol, ffotograffau ac anodi mewn llyfrau braslunio ac ar daflenni astudio, syniadau, arsylwadau a mewnwelediadau sydd yn unol â bwriadau personol.
- Myfyrio beirniadol ar gynnydd y gwaith er mwyn adolygu beth sydd wedi cael ei ddysgu, meithrin dealltwriaeth ac egluro pwrpasau ac ystyron. Lle bo'n briodol, gellir trosglwyddo dysgu i gyd-destunau newydd, er enghraifft, addasu ymateb haniaethol mynegiannol wedi'i beintio i drawstoriadau o ffrwythau er mwyn datblygu dyluniadau graffig ar gyfer marchnata iogyrtiau ffrwythau sydd wedi'u cynhyrchu'n lleol.

AA4

- Cyflwyniad o ganlyniadau terfynol dychmygus sydd wir yn bersonol ac yn gwireddu'r bwriadau a nodwyd, ynghyd â thystiolaeth detholiadol o'r prosesau a ddefnyddiwyd i'w cynhyrchu.
- Gwneud cysylltiadau pendant, lle bo'n briodol, rhwng gwahanol elfennau o'r cyflwyniad, gan gynnwys ymatebion cyd-destunol, ymarferol ac ysgrifenedig, yn cyflwyno gwaith sy'n ystyrlon, hyddysg ac mewn trefn sydd yn hawdd i'w ddilyn.
- Ystyriaeth wedi'i rhoi i ffurfiau gwahanol o gyflwyno a dewis yr un mwyaf priodol o'r rhain ar gyfer y cyflwyniad. Dylid rhoi sylw dyledus i bwrpas y gwaith a sut y gallai ddenu sylw cynulleidfya, fel arddangos celf, canlyniad celf a dylunio wedi'i ddatblygu o thema gyffredin, ynghyd â rhaglen yn seiliedig ar sgrin o ddeunydd gweledol a thestun.

Opsiwn teitl arnodedig: Celf a Dylunio (Celfyddyd Gain)

Mae'r meysydd astudio posibl yn cynnwys y canlynol:

- peintio a lluniadu
- cyfryngau cymysg, gan gynnwys collage ac assemblage
- celf perfformiad a chysyniadol
- cerflunwaith
- celfyddyd tir neu amgylcheddol
- gosodwaith
- gwneud printiau: cerfweddol, intaglio, prosesau sgrin a lithograffi
- ffilm, animeiddio, fideo, ffotograffiaeth
- cyfryngau digidol.

Gall Celfyddyd Gain fod yn wahanol oherwydd y pwyslais mae'n ei roi ar bwrpasau estheteg a deallusol yn hytrach nag ar ystyriaethau ymarferol, swyddogaethol ac iwtilitaraidd.

Mae'r opsiwn hwn yn cwmpasu maes eang o astudiaeth sy'n datblygu ac yn cynnwys peintio, lluniadu, cerameg, cerflunwaith, gosod, celf perfformiad a chysyniadol ac agweddau ar wneud printiau, ffotograffiaeth a ffilm.

Mae'n defnyddio cyfryngau a phrosesau traddodiadol, newydd a rhai sy'n datblygu ac yn cynnwys defnydd mynegiannol o amrediad arbennig o eang o ddefnyddiau, technegau a sgiliau.

Fel rhan o'u hastudiaethau UG Celfyddyd Gain anogir dysgwyr i ystyried y canlynol:

AA1

- Datblygu syniadau sy'n seiliedig ar astudiaeth gyd-destunol o gelfyddyd gain a ffynonellau eraill fel pensaernïaeth, dylunio cynhyrchiad a lle celfyddyd gain yn y rhain.
- Ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth o brosesau a chanlyniadau celfyddyd gain a'r gwahaniaeth rhwng dulliau mynegiannol a dulliau swyddogaethol.
- Sgîl dadansodol a dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol wrth gymharu a chyferbynnu gwaith artistiaid cain perthnasol a ffynonellau cyd-destunol eraill ac wrth werthuso gwaith personol.

AA2

- Dethol ac arbrofi gydag amrediad eang o gyfryngau a phrosesau celfyddyd gain, gan arfer rheolaeth ar y rhain i uchafu potensial creadigol.
- Archwilio adnoddau ysgogol i gychwyn a datblygu syniadau gwreiddiol, gyda sylw dyledus i linell, tŷn, lliw, gwedd ac elfennau gweledol eraill, yn enwedig cyfansoddiad. Perthnasoedd clir rhwng dulliau gweithio a chanlyniadau. Dylid dogfennu pob cam arwyddocaol yn y broses creadigol, gan gynnwys cam olaf ond un y datblygu er mwyn sicrhau nad yw'r canlyniadau terfynol yn ymddangos yn ddisymwth.
- Dylid dangos gwahaniaethu wrth adolygu a mireinio syniadau wrth i'r gwaith ddatblygu. Rheolaeth ofalus o ran rhoi sylw i fanylder, er enghraifft, darlunio adeiledd anatomegol wrth bortreadu'r ffurf ddynol, er mwyn cynhyrchu canlyniadau gorffenedig o safon.

AA3

- Casglu, dewis, trefnu a chyfathrebu gwybodaeth berthnasol wrth ymgymryd ag ymchwil i ffynonellau cyfeirio gweledol a chyffyrddol. Rhoi sylw dyledus i ddewis ffynonellau ymholi priodol a dadansoddi'r rhain er mwyn cael manylder llawn gwybodaeth.
- Cofnodi, trwy luniadu a ffyrdd addas eraill, fel nodiadau lliw, tonyddol a gweadeddol, ffotograffau ac anodi mewn llyfrau braslunio ac ar daflenni astudio, syniadau, arsylwadau a mewnwediadau sydd yn unol â bwriadau personol.
- Myfyrio beirniadol ar y gwaith a'r cynnydd er mwyn adolygu beth sydd wedi cael ei ddysgu, meithrin dealltwriaeth ac egluro pwrpasau ac ystyron.

AA4

- Cyflwyno ymatebion creadigol sydd yn bersonol ac yn gwireddu'r bwriadau a nodwyd, fel triptych yn cynnwys printiau arwyneb, ffotograffau arbrol a phortreadau wedi'u peintio yn darlunio cyfnodau ym mywyd aelod o'r teulu.
- Gwneud cysylltiadau, lle bo'n briodol, rhwng gwahanol elfennau'r cyflwyniad, gan gynnwys ymatebion cyd-destunol, ymarferol ac ysgrifenedig, a chyflwyno gwaith sy'n ystyrlon ac mewn trefn sydd yn hawdd ei dilyn.
- Ystyriaeth wedi'i rhoi i ffurfiau gwahanol o gyflwyno a dewis yr un fwyaf priodol o'r rhain ar gyfer y cyflwyniad, gan roi sylw dyledus i bwrpas y gwaith a sut i wneud iddo edrych yn ddiddorol.

Fel rhan o'u hastudiaethau U2 Celfyddyd Gain anogir dysgwyr i ystyried y canlynol:

AA1

- Datblygu syniadau sy'n seiliedig ar astudiaeth ymchwiliol cyd-destunol ar gelf, crefft a dylunio hanesyddol a chyfoes yn ogystal â ffynonellau eraill fel pensaernïaeth, cerddoriaeth, dawns, drama, dylunio cynhyrchiad a chyfryngau wedi'u cyhoeddi a lle celfyddyd gain yn y rhain.
- Ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth eang o brosesau a chanlyniadau celfyddyd gain a'r gwahaniaethau rhwng cerflunwaith, cerameg, gwneud printiau a ffotograffiaeth celfyddyd gain a chymwysu'r ffurfiau celf hyn yn iwtilitaraidd. Lle bo'n briodol, dylai dehongliadau personol arddangos y gwahaniaeth rhwng dulliau mynegiannol a dulliau swyddogaethol.
- Sgïl dadansoddol a dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol wrth gloriannu, cymharu a chyferbynnu gwaith artistiaid cain perthnasol a ffynonellau cyd-destunol perthnasol eraill ac mewn gwerthusiad ffurfiannol a chyfansymiol o ganlyniadau personol.

AA2

- Dethol ac arbrofi pwrpasol, gydag amrediad eang priodol a digonol o gyfryngau a phrosesau celfyddyd gain, cyfryngau cymysg a chyfuniadau o gyfryngau, gan arfer rheolaeth addas o'r rhain i uchafu potensial creadigol.
- Archwilio adnoddau ysgogol a ffynonellau gweledol cyfoethog a chyffyrddol i gychwyn a datblygu syniadau gwreiddiol, gyda sylw dyledus i linell, tŷn, lliw, gwead ac elfennau gweledol eraill, yn enwedig cyfansoddiad. Dylid sefydlu perthnasoedd clir rhwng dulliau gweithredol a chanlyniadau. Dylid dogfennu pob cam arwyddocaol yn y broses creadigol, gan roi sylw dyledus i gam olaf ond un y datblygu er mwyn sicrhau nad yw'r canlyniadau terfynol yn ymddangos yn ddisymwth.
- Dylid dangos gwahaniaethu wrth adolygu a mireinio syniadau wrth i waith fynd yn ei flaen. Rheolaeth ofalus o ran rhoi sylw i fanylder, er enghraifft darlunio adeiledd anatomegol wrth bortreadu'r ffurf ddynol, er mwyn cynhyrchu canlyniadau cydrannol o safon.

AA3

- Casglu, dewis, trefnu a chyfathrebu gwybodaeth berthnasol wrth ymgymryd ag ymchwil i ffynonellau cyfeirio gweledol a chyffyrddol gan ddangos diddordebau a barnau personol. Rhoi sylw dyledus i ddewis ffynonellau ymholi priodol a dadansoddi'r rhain yn drylwyr er mwyn cael manylder llawn gwybodaeth.
- Cofnodi, trwy luniadu a ffyrdd eraill addas, fel lliw, nodiadau tonyddol a gwadeddol, ffotograffau ac anodi mewn llyfrau braslunio ac ar daflenni astudio, syniadau, arsylwadau a mewnwelediadau sydd yn unol â bwriadau personol.
- Myfyrio beirniadol ar y gwaith a'r cynnydd er mwyn adolygu'n effeithiol beth sydd wedi cael ei ddysgu, meithrin dealltwriaeth ddyfnach ac egluro pwrpasau ac ystyron.

AA4

- Cyflwyno ymatebion creadigol sydd yn y bôn bersonol ac yn gwireddu'r bwriadau a nodwyd yn effeithiol, fel triptych yn cynnwys printiau arwyneb, ffotograffau arbrofol a phortreadau wedi'u peintio yn darlunio camau bywyd aelod o'r teulu.
- Gwneud cysylltiadau pendant, lle bo'n briodol, rhwng gwahanol elfennau o'r cyflwyniad, gan gynnwys ymatebion cyd-destunol, ymarferol ac ysgrifenedig, yn cyflwyno gwaith sy'n ystyron, hyddysg ac mewn trefn sydd yn hawdd i'w ddilyn.
- Ystyriaeth wedi'i rhoi i ffurfiau gwahanol o gyflwyno a dewis yr un mwyaf priodol o'r rhain ar gyfer y cyflwyniad, gan roi sylw dyledus i bwrpas y gwaith a sut y gallai ddenu sylw cynulleidfa.

Opsiw'n teitl arnodedig: Celf a Dylunio (Astudiaethau Beirniadol a Chyd-destunol)

Mae'r meysydd astudio posibl yn cynnwys y canlynol:

- astudiaeth ymarferol a damcaniaethol o'r ffurf ddynol mewn Celf, Crefft a Dylunio wedi'i gyflwyno mewn ffurf clyweledol
- *genres* neu fudiadau fel Mynegiadaeth, Cerflunwaith Cyfoes o Gymru neu Bauhaus wedi'u dogfennu fel cyfres o arweinyfrau orielau
- agweddau ar arfer cyfoes megis delweddu digidol wedi'i sgriptio fel rhaglen ddogfen ar gyfer y teledu
- materion amgylcheddol neu wleidyddol mewn Celf wedi'u harddangos fel byrddau arddangos neu blacardiau
- perthynas rhwng delwedd a thestun wedi'i gyflwyno yn Powerpoint neu ar ffurf e-lyfr
- archwiliad i gelf naratif wedi'i gyflwyno mewn llyfr braslunio neu ar fwrdd stori sy'n cynnwys sylwebaeth estynedig
- ymchwilio i'r defnydd o symbolaeth ac alegori mewn traethawd darluniadol.

Mae Astudiaethau Beirniadol a Chyd-destunol yn opsiwn unigryw gan ei fod yn galluogi dysgwyr i ddatblygu cyfleoedd gwreiddiol i feithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau beirniadol, cyd-destunol a churadurol wrth werthfawrogi arteffactau, testunau a delweddu o fewn amgylcheddau diwylliannol penodol, ynghyd ag ymchwiliadau ymarferol perthnasol.

Mae'r opsiwn yn cynnig amrediad eang o brofiadau dysgu deallusol ac ymarferol trwy amrywiaeth o strategaethau bywiog a chreadigol i ddatblygu a chyflwyno ymatebion personol, ymarferol, beirniadol a chyd-destunol.

Gallai'r rhain gynnwys amrywiaeth eang o ganlyniadau ymarferol sy'n arddangos dealltwriaeth o, er enghraifft, waith artist, symudiad neu themâu trwy ddyfeisio cyflwyniad clyweledol, datblygu arddangosfa addysgiadol wedi'i anodi, dylunio adnoddau dysgu trwy amrywiaeth o destunau darluniedig wedi'u hysgrifennu mewn ffurfiau gwahanol ac ar gyfer amrediad o bwrpasau.

Gallai'r rhain fod ar ffurf arweinyfrau orielau, pamffledi arddangosfa, tudalennau cylchgrawn, erthyglau papur newydd, sgriptiau rhaglen ddogfen teledu a thrafodaethau ffeithiol neu ffuglennol neu ohebiaeth rhwng artistiaid, crefftwyr neu ddylunwyr gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu.

Mae'n hanfodol pwysleisio fod yr opsiwn hwn yn wahanol i ymagweddau traddodiadol i hanes celf, ac mae'n ofynnol i ddysgwyr ddarparu tystiolaeth o gyrhaeddiad ar draws y pedwar amcan asesu.

Fel rhan o'u hastudiaethau UG Astudiaethau Beirniadol a Chyd-destunol anogir dysgwyr i ystyried y canlynol:

AA1

- Datblygu syniadau sy'n seiliedig ar astudiaeth gyd-destunol o gelf, crefft a dylunio a ffynonellau eraill, gan ddangos dealltwriaeth o sut mae arteffactau a delweddau yn adlewyrchu amser a lleoliad eu cynhyrchu.
- Ymwybyddiaeth o amrywiaeth eang o waith sydd wedi'i chynhyrchu gan artistiaid, crefftwyr a dylunwyr, y berthynas rhwng eu disgyblaethau a'r gwahaniaethau yn eu dulliau a'u hymagweddau.
- Sgîl dadansoddol a dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol wrth gymharu a chyferbynnu gwaith artistiaid, crefftwyr a dylunwyr perthnasol a ffynonellau cyd-destunol eraill ac wrth werthuso canlyniadau personol.

AA2

- Dethol ac archwilio'n bwrpasol amrediad eang priodol o gyfryngau, defnyddiau a thechnegau, testunau beirniadol a chyd-destunol, themâu, cyfnodau, mudiadau ac arddulliau a'r ffyrdd mae syniadau a chredoau wedi dylanwadu ar gelf, crefft a dylunio.
- Ymchwilio i adnoddau ysgogol gan gynnwys ffynonellau gweledol a chyffyrddol, cyflwyniadau artistiaid, rhaglenni celf ar y radio a'r teledu, adolygiadau mewn papurau newydd, cyhoeddiadau a defnydd detholus o'r Rhyngwlad. Lle bo'n bosibl, dylid gweld enghreifftiau hanesyddol a chyfoes yn uniongyrchol ac artistiaid, crefftwyr a dylunwyr wrth eu gwaith.
- Dylid dangos gwahaniaethu wrth adolygu a mireinio syniadau wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen. Rheolaeth fedrus wrth ddehongli a chyfleu barnau am ddelweddau, gwrthrychau ac arteffactau er mwyn cynhyrchu canlyniadau o safon.

AA3

- Casglu, dewis, trefnu a chyfathrebu gwybodaeth berthnasol wrth ymgymryd ag ymchwil i ffynonellau cyfeirio priodol, gan ddangos chwilfrydedd a diddordebau a barnau personol. Rhoi sylw dyledus i ddewis ffynonellau ymholi priodol a dadansoddi'r rhain er mwyn cael manylder llawn gwybodaeth.
- Cofnodi, trwy amrywiaeth o ffyrdd addas, fel nodiadau ysgrifenedig, brasluniau, nodiadau lliw, tonyddol a gweadeddol, ffotograffau ac anodi mewn llyfrau gwaith a llyfrau braslunio ac ar daflenni astudio, syniadau, arsylwadau a mewnwelediadau sydd yn unol â bwriadau personol.
- Myfyrio beirniadol ar gynnydd y gwaith er mwyn adolygu beth sydd wedi cael ei ddysgu, gan ddangos dealltwriaeth ddyfnach ac egluro pwrpasau. Y gallu i drosglwyddo dysgu i gyd-destun newydd, er enghraifft, addasu disgrifiad ysgrifenedig a darluniadol o fywyd a gwaith artist lleol i lunio sgript rhaglen ddogfen ar gyfer y teledu.

AA4

- Cyflwyno ymatebion gwreiddiol sydd yn eu hanfod yn bersonol ac yn gwireddu'r bwriadau a nodwyd, er enghraifft, cyfres o lythyrau dychmygol rhwng arlunydd tirluniau a ffotograffydd tirwedd lle maent yn cymharu'r gwahaniaethau yn eu dulliau, mewn geiriau a delweddau.
- Gwneud cysylltiadau clir, lle bo'n briodol, rhwng gwahanol elfennau'r cyflwyniad, gan gynnwys ymatebion cyd-destunol, ymarferol ac ysgrifenedig, a chyflwyno gwaith sy'n ystyrlon ac mewn trefn sydd yn hawdd ei dilyn.
- Ystyriaeth wedi'i rhoi i ffurfiau gwahanol o gyflwyno a dewis yr un fwyaf priodol o'r rhain ar gyfer y cyflwyniad, gan roi sylw dyledus i bwrpas y gwaith a sut i wneud iddo edrych yn ddiddorol ar gyfer cynulleidfau, er enghraifft, cynhyrchu pecyn adnoddau oriel ar gyfer dysgwyr CA3.

Fel rhan o'u hastudiaethau U2 Astudiaethau Beirniadol a Chyd-destunol anogir dysgwyr i ystyried y canlynol:

AA1

- Datblygu syniadau sy'n seiliedig ar astudiaeth ymchwiliol gyd-destunol o gelf, crefft a dylunio hanesyddol a chyfoes yn ogystal â ffynonellau eraill, gan ddangos dealltwriaeth o sut mae arteffactau a delweddau yn adlewyrchu amser, lleoliad a chyd-destunau eraill eu cynhyrchu.
- Ymwybyddiaeth o amrywiaeth eang o waith sydd wedi'i gynhyrchu gan artistiaid, crefftwyr a dylunwyr, y berthynas rhwng eu disgyblaethau a'r gwahaniaethau yn eu dulliau, ymagweddau, pwrpasau a bwriadau.
- Sgïl ymchwiliol, dadansoddol a dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol wrth gloriannu, cymharu a chyferbynnu gwaith artistiaid, crefftwyr a dylunwyr perthnasol a ffynonellau cyd-destunol eraill ac wrth werthuso'n ffurfiannol a chrynodol ganlyniadau personol.

AA2

- Dethol ac archwilio doeth a phwrpasol o amrediad eang priodol a digonol o gyfryngau, defnyddiau, technegau a phrosesau, testunau beirniadol a chyd-destunol, themâu, cyfnodau, symudiadau ac arddulliau a'r ffyrdd mae syniadau, agweddau a chredoau wedi dylanwadu ar gelf, crefft a dylunio.
- Ymchwilio i adnoddau ysgogol a ffynonellau gweledol cyfoethog a chyffyrddol, cyflwyniadau byw ac wedi'u recordio gan artistiaid, rhaglenni celf radio a theledu, adolygiadau arddangosfeydd mewn papurau newydd a chylchgronau, cyhoeddiadau a dewis detholus o'r We. Lle bo'n bosibl, dylid ymgymryd ag ymweliadau i ffynonellau cynradd fel orielau, arddangosfeydd, stiwdios a gweithdai artistiaid, crefftwyr a dylunwyr i gyfarfod ac ymgysylltu â'r canlyniadau creadigol a'u gwneuthurwyr yn uniongyrchol.
- Dylid dangos gwahaniaethu wrth adolygu a mireinio syniadau wrth i waith fynd yn ei flaen. Rheolaeth fedrus o ran rhoi sylw i fanylder wrth ddehongli, gwerthuso a chyfleu barnau am ddelweddau, gwrthrychau ac arteffactau er mwyn cynhyrchu canlyniadau gorffenedig o safon.

AA3

- Casglu, dewis, trefnu a chyfathrebu gwybodaeth berthnasol wrth ymgymryd ag ymchwil i ffynonellau cyfeirio priodol, gan ddangos chwilfrydedd, diddordebau a barnau personol. Rhoi sylw dyledus i ddewis ffynonellau ymholi priodol a dadansoddi'r rhain yn drylwyr er mwyn cael manylder llawn gwybodaeth.
- Cofnodi, trwy amrywiaeth o ffyrdd addas, fel nodiadau ysgrifenedig, brasluniau, nodiadau lliw, tonyddol a gweadeddol, ffotograffau, anodi mewn llyfrau gwaith a llyfrau braslunio ac ar daflenni astudio, syniadau, arsylwadau a mewnweddiadau sydd yn unol â bwriadau personol.
- Myfyrio beirniadol ar gynnydd y gwaith er mwyn adolygu'n effeithiol beth sydd wedi cael ei ddysgu, gan ddangos dealltwriaeth ddyfnach ac egluro pwrpasau. Y gallu i drosglwyddo dysgu i gyd-destun newydd, er enghraifft, addasu disgrifiad ysgrifenedig a darluniadol o fywyd a gwaith artist lleol i lunio sgript rhaglen ddogfen ar gyfer y teledu.

AA4

- Cyflwyno ymatebion gwreiddiol sydd yn eu hanfod yn bersonol ac yn gwireddu'r bwriadau a nodwyd yn effeithiol, fel cyfres o lythyrau dychmygol rhwng arlunydd tirwedd a ffotograffydd tirwedd lle maent yn cymharu'r gwahaniaethau yn eu dulliau, mewn geiriau a delweddau.
- Gwneud cysylltiadau pendant, lle bo'n briodol, rhwng gwahanol elfennau'r cyflwyniad, gan gynnwys ymatebion cyd-destunol, ymarferol ac ysgrifenedig, a chyflwyno gwaith sy'n ystyrlon, gwybodus ac mewn trefn sydd yn hawdd ei dilyn.
- Ystyriaeth wedi'i rhoi i ffurfiau gwahanol o gyflwyno a dewis yr un fwyaf priodol o'r rhain ar gyfer y cyflwyniad, gan roi sylw dyledus i bwrpas y gwaith a sut y gallai ennyn diddordeb cynulleidfa neu olygydd, er enghraifft, cynhyrchu pecyn adnoddau oriel ar gyfer dysgwyr CA3.

Opsiwn teitl arnodedig: Celf a Dylunio (Dylunio Tecstilau)

Mae'r meysydd astudio posibl yn cynnwys y canlynol:

- ffasiwn
- costiw
- ffabrigau, dillad a deunyddiau wedi'u printio a/neu eu llifo'n ddigidol neu'n draddodiadol
- dylunio mewnol
- tecstilau wedi'u hadeiladu (wedi'u gwau, wedi'u gwehyddu, wedi'u brodio neu wedi'u cyfuno â defnyddiau eraill)
- gosodwaith tecstilau
- cyfwisgoedd.

Mae Dylunio Tecstilau yn cwmpasu amrediad eang iawn o ddefnyddiau, technegau a phrosesau, gan gynnwys nifer gynyddol o dulliau rhyngddisgyblaethol. Mae'r rhain yn cynnwys dulliau wedi'u gwehyddu, wedi'u brodio, wedi'u gwau, wedi'u printio, wedi'u peintio, wedi'u llifo, wedi'u trin ac wedi'u haddurno a dulliau saerïol a ddefnyddir i gynhyrchu amrywiaeth fawr o ganlyniadau tecstilau sy'n cynnwys dylunio costiw a ffasiwn, cyfwisgoedd ac addurniadau corff. Mae'r amrediad yn cynyddu wrth i ddefnyddiau a thechnolegau newydd sy'n datblygu.

Fel rhan o'u hastudiaethau UG Dylunio Tecstilau anogir dysgwyr i ystyried y canlynol:

AA1 Dealltwriaeth gyd-destunol

- Datblygu syniadau sy'n seiliedig ar astudiaeth gyd-destunol o ddylunio tecstilau hanesyddol a chyfoes yn ein diwylliant ein hunain ac mewn diwylliannau eraill, yn ogystal â ffynonellau eraill fel celfyddyd gain, ffotograffiaeth a dylunio cynhyrchiad.
- Ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth o brosesau a chanlyniadau tecstil creadigol a dealltwriaeth o'r berthynas rhwng ystyriaethau swyddogaethol ac esthetig. Ymateb sensitif i faterion fel traddodiadau diwylliannol ac ailgylchu.
- Sgîl dadansoddol a dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol wrth gymharu a chyferbynnu gwaith dylunwyr tecstilau perthnasol a ffynonellau cyd-destunol eraill ac wrth werthuso canlyniadau tecstil personol.

AA2 Gwneud creadigol

- Dethol ac arbrofi'n bwrpasol gydag amrediad o ddefnyddiau, prosesau a thechnegau tecstil, gan arfer rheolaeth addas ar y rhain i uchafu potensial creadigol. Gellir cynnwys manylion technegol, ond dylent gael eu dethol yn ofalus a bod yn gryno. Ni ddylai ymddiddori mewn prosesau technegol neu brosesau crefft fod yn bwysicach na datblygu syniadau creadigol.
- Archwilio adnoddau ysgogol a ffynonellau gweledol a chyffyrddol cyfoethog i gychwyn a datblygu syniadau gwreiddiol, gyda sylw dyledus i linell, lliw, patrwm, gwead ac elfennau gweledol eraill, yn enwedig ffurf. Sefydlir perthnasoedd clir rhwng dulliau gweithio a chanlyniadau. Dylid dogfennu pob cam arwyddocaol yn y broses creadigol, a rhoi sylw dyledus i gam olaf ond un y datblygu er mwyn sicrhau nad yw'r canlyniadau terfynol yn ymddangos yn ddisymwth.
- Dylid dangos gwahaniaethu wrth adolygu syniadau wrth i'r gwaith ddatblygu. Arferir rheolaeth ofalus wrth fireinio manylion, er enghraifft, dylunio a chynhyrchu nodweddion addurniadol, er mwyn cynhyrchu canlyniadau gorffenedig o safon.

AA3 Cofnodi myfyriol

- Casglu, dewis, trefnu a chyfathrebu gwybodaeth berthnasol wrth astudio ffynonellau cyfeirio gweledol a chyffyrddol, gan ddangos diddordebau a barnau personol. Rhoi sylw dyledus i ddewis ffynonellau ymholi priodol a dadansoddi'r rhain er mwyn cael manylder llawn gwybodaeth.
- Cofnodi mewn llyfrau braslunio, llyfrau gwaith ac ar daflenni astudio arsylwadau a mewnwelediadau sydd yn unol â bwriadau personol, fel nodiadau lliw, patrwm a gweadeddol. Gellir gwneud hyn trwy luniadu, gwneud marciau a dulliau addas eraill fel ffotograffau a sylwebaeth ddadansoddol.
- Myfyrio beirniadol ar y gwaith a'r cynnydd er mwyn adolygu'n effeithiol beth sydd wedi cael ei ddysgu, meithrin dealltwriaeth ddyfnach ac egluro pwrpasau ac ystyron.

AA4 Cyflwyno personol

- Cyflwyno ymatebion gwreiddiol sydd yn eu hanfod yn bersonol ac yn gwireddu'r bwriadau a nodwyd, fel paneli appliqué wedi'u brodio â pheiriant ar gyfer tŷ newydd ffrind agos.
- Gwneud cysylltiadau, lle bo'n briodol, rhwng gwahanol elfennau'r cyflwyniad, gan gynnwys ymatebion cyd-destunol, ymarferol ac ysgrifenedig, a chyflwyno gwaith sy'n ystyrlon, gwybodus ac mewn trefn sydd yn hawdd ei dilyn.
- Ystyriaeth wedi'i rhoi i ffurfiau gwahanol o gyflwyno, er enghraifft, trwy sesiwn tynnu lluniau mewn stiwdio o gostiwm theatrig, neu frasluniau o'r cynnyrch tecstil mewn sefyllfa addas. Dewis yr un fwyaf priodol o'r rhain ar gyfer y cyflwyniad, gan roi sylw dyledus i bwrpas y gwaith a sut i wneud iddo edrych yn ddiddorol ar gyfer cynulleidfa. Nid yw bob amser yn angenrheidiol i gynhyrchu eitemau neu ddillad gorffenedig ond dylent fod yn ddigon cyflawn i ddangos y gellid dod â hwy i ddatrysiaid terfynol.

Fel rhan o'u hastudiaethau U2 Dylunio Tecstilau anogir dysgwyr i ystyried y canlynol:

AA1

- Datblygu syniadau sy'n seiliedig ar astudiaeth gyd-destunol o ddylunio tecstilau hanesyddol a chyfoes yn ein diwylliant ein hunain ac mewn diwylliannau eraill, yn ogystal â ffynonellau eraill fel celfyddyd gain, pensaernïaeth, ffotograffiaeth, cyfryngau wedi'u cyhoeddi a dylunio cynhyrchiad.
- Ymwybyddiaeth o amrywiaeth eang o brosesau a chanlyniadau tecstilau creadigol a'r berthynas rhwng ystyriaethau swyddogaethol ac estheteg, gan ddangos dealltwriaeth o sut mae'r rhain yn cael eu cymhwyso a'u haddasu i fodloni anghenion penodol. Ymatebion sensitif i faterion fel traddodiadau diwylliannol, anabled, ailgylchu, ac uwchgylchu.
- Sgîl dadansoddol a dealltwriaeth beirniadol a chyd-destunol wrth gloriannu, cymharu a chyferbynnu gwaith dylunwyr tecstilau perthnasol a ffynonellau cyd-destunol eraill ac mewn gwerthusiad ffurfiannol a chyfansymiol o ganlyniadau tecstilau personol.

AA2

- Dethol ac arbrofi'n bwrpasol gydag amrediad eang priodol a digonol o gyfryngau a phrosesau celfyddyd gain, cyfryngau cymysg a chyfuniadau o gyfryngau ac arbrofi pwrpasol, gan arfer rheolaeth addas o'r rhain i uchafu potensial creadigol. Gellir cynnwys manylion technegol, ond dylent gael eu dethol yn ofalus a bod yn gryno. Ni ddylai pryderon gyda phrosesau technegol neu brosesau crefft fod yn bwysicach na chynnydd y syniadau creadigol.
- Archwilio adnoddau ysgogol a ffynonellau gweledol cyfoethog a chyffyrddol i gychwyn a datblygu syniadau gwreiddiol, gyda sylw dyledus i linell, lliw, patrwm, gwead ac elfennau gweledol eraill, yn enwedig ffurf. Dylid sefydlu perthnasoedd clir rhwng dulliau gweithredol a chanlyniadau. Dylid dogfennu pob cam arwyddocaol yn y broses creadigol, gan roi sylw dyledus i gam olaf ond un y datblygu er mwyn sicrhau nad yw'r canlyniadau terfynol yn ymddangos yn sydyn.
- Dylid dangos gwahaniaethu wrth adolygu a mireinio syniadau wrth i waith fynd yn ei flaen. Arferir rheolaeth ofalus wrth fireinio manylion, er enghraifft, dylunio a chynhyrchu nodweddion addurniadol, er mwyn cynhyrchu canlyniadau gorffenedig o safon.

AA3

- Casglu, dewis, trefnu a chyfathrebu gwybodaeth berthnasol wrth ymgymryd ag ymchwil i ffynonellau cyfeirio gweledol a chyffyrddol gan ddangos diddordebau a barnau personol. Rhoi sylw dyledus i ddewis ffynonellau ymholi priodol a dadansoddi'r rhain yn drylwyr er mwyn cael manylder llawn gwybodaeth.
- Cofnodi arsylwadau a mewnwediadau sydd yn unol â bwriadau personol fel lliw a nodiadau patrwm a gweadeddol mewn llyfrau braslunio, llyfrau gwaith ac ar daflenni astudio. Gellir gwneud hyn drwy luniadu, gwneud marciau a dulliau eraill addas fel ffotograffau a sylwebaeth ddadansoddol.
- Myfyrio beirniadol ar y gwaith a'r cynnydd er mwyn adolygu'n effeithiol beth sydd wedi cael ei ddysgu, meithrin dealltwriaeth ddyfnach ac egluro pwrpasau ac ystyron.

AA4

- Cyflwyno ymatebion creadigol sydd yn eu hanfod yn bersonol ac yn gwireddu'r bwriadau a nodwyd yn effeithiol, fel paneli appliqué wedi'u brodio â pheiriant ar gyfer ty newydd ffrind agos.
- Gwneud cysylltiadau pendant, lle bo'n briodol, rhwng gwahanol elfennau o'r cyflwyniad, gan gynnwys ymatebion cyd-destunol, ymarferol ac ysgrifenedig, yn cyflwyno gwaith sy'n ystyrlon, hyddysg ac mewn trefn sydd yn hawdd i'w ddilyn.
- Ystyriaeth wedi'i rhoi i ffurfiau gwahanol o gyflwyno, fel trwy sesiwn tynnu lluniau mewn stiwdio o gostiw theatrig neu frasluniau o'r cynnyrch tecsilau mewn sefyllfa addas. Ystyriaeth wedi'i rhoi i ffurfiau gwahanol o gyflwyno a dewis yr un mwyaf priodol o'r rhain ar gyfer y cyflwyniad, gan roi sylw dyledus i bwrpas y gwaith a sut y gallai ddenu sylw cynulleidfau neu gleientiaid posibl. Nid yw bob amser yn angenrheidiol i gynhyrchu eitemau neu ddilladau terfynol ond dylent fod yn ddigon cyflawn i arddangos gallu er mwyn sicrhau casgliad penderfynol.

Opsiwn teitl arnodedig: Celf a Dylunio (Cyfathrebu Graffig)

Mae'r meysydd astudio posibl yn cynnwys y canlynol:

- darlunio
- teipograffeg
- golygyddol
- hysbysebu a brandio
- dylunio pecyn
- dylunio ar gyfer print
- graffeg gyfrifiadurol
- dylunio amlgyfrwng
- animeiddio ac effeithiau arbennig
- dylunio gwefannau ac apiau
- dylunio gemau
- gweithiau llyfr.

Gellir diffinio Cyfathrebu Graffig fel y broses lle mae syniadau'n cael eu mynegi trwy'r defnydd o symbolau, lluniadau, ffotograffau a theipograffeg i gyfleu cysyniadau a/neu emosiynau.

Mae'r opsiwn hwn yn cwmpasu maes astudiaeth eang sy'n datblygu, gan ymgorffori amrywiaeth o ddisgyblaethau perthnasol a defnyddio sgiliau traddodiadol, fel caligraffi a llythrennu wedi'i greu â llaw, ochr yn ochr â thechnolegau digidol arloesol.

Mae'r ffiniau rhwng prosesau graffigol perthnasol yn mynd yn fwyfwy aneglur ond mae agweddau, fel hysbysebu, dylunio pecyn, gemau cyfrifiadurol, dylunio gwe ac amlgyfrwng, darlunio a theipograffeg, yn cynnig syniad o beth allai gael ei drafod yn yr opsiwn.

Gall Cyfathrebu Graffig hefyd gael ei gysylltu'n agos ag animeiddio, pensaernïaeth, ffotograffiaeth a dylunio ar gyfer print. Gall canlyniadau fod yn ddau ddimensiwn neu'n dri dimensiwn, a gallant fod ar ffurf posteri, taflenni, crysau T, cloriau CD/DVD, cloriau llyfrau, tudalennau cylchgrawn, calendrau, stampiau, pecynnu, deunydd cyhoeddusrwydd, lifrai cerbyd, byrddau poster, hysbysebu, logos, brandio, hunaniaeth gorfforaethol, a dylunio arddangosfeydd a phwyntiau talu tri dimensiwn.

Fel rhan o'u hastudiaethau UG Cyfathrebu Graffig anogir dysgwyr i ystyried y canlynol:

AA1 Dealltwriaeth gyd-destunol

- Datblygu syniadau sy'n seiliedig ar astudiaeth gyd-destunol o ddylunio graffig ddoe a heddiw yn ogystal â ffynonellau eraill fel celfyddyd gain, dylunio cynnyrch a chyfryngau wedi'u cyhoeddi.
- Ymwybyddiaeth o'r materion sy'n dylanwadu ar bwrpasau, ystyron a chyd-destunau dylunio graffig, fel ystyriaethau moesegol a chadwraethol, prosesau reprograffig a chynhyrchu cylchgronau.
- Sgil dadansoddol a dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol wrth gymharu a chyferbynnu gwaith dylunwyr graffig perthnasol a ffynonellau cyd-destunol eraill ac wrth werthuso prosesau a chanlyniadau dylunio personol.

AA2 Gwneud creadigol

- Dethol ac arbrofi'n bwrpasol gyda chyfyngau a phrosesau dylunio graffig priodol, a defnydd dan reolaeth o deipograffeg a delweddaeth o ffynonellau cynradd ac eilaidd, gan gynnwys trin pwrpasol gan ddefnyddio meddalwedd ddigidol. Gellir cynnwys manylion technegol, ond dylent gael eu dethol yn ofalus a bod yn gryno. Ni ddylai ymddiddori mewn prosesau technegol fod yn bwysicach na datblygu syniadau creadigol.
- Archwilio adnoddau a ffynonellau stiwdio ac amgylcheddol i ddatblygu syniadau gwreiddiol, gan roi sylw dyledus i gyfansoddiad a gosodiad, cyfrannedd, llinell, tŵn, lliw, gwead, graddfa ac elfennau gweledol eraill. Dylid archwilio potensial cyfathrebu graffig drwy arbrofi gyda thechnolegau sydd wedi'u sefydlu'n barod a thechnolegau sy'n datblygu. Dylid dogfennu pob cam arwyddocaol yn y broses creadigol, a rhoi sylw dyledus i gam olaf ond un y datblygu er mwyn sicrhau nad yw'r canlyniadau terfynol yn ymddangos yn ddisymwth.
- Dylid dangos gwahaniaethu wrth adolygu syniadau wrth i'r gwaith ddatblygu. Arferir rheolaeth ofalus wrth fireinio manylion, fel dewis ffontiau, y berthynas rhwng teipograffeg a delweddu, a dewis proses reprograffig addas, er mwyn cynhyrchu canlyniadau o safon.

AA3 Cofnodi myfyriol

- Casglu, dewis, trefnu a chyfathrebu gwybodaeth berthnasol wrth ymgymryd ag ymchwil i ffynonellau cyfeirio gweledol a ffynonellau eraill. Rhoi sylw dyledus i ddewis y delweddu mwyaf addas, a dadansoddi ac anodi'r rhain, yn hytrach, er enghraifft, na chynnwys llawer o brintiau bawd heb unrhyw sylwadau gwerthusol.
- Cofnodi, trwy luniadu, ffotograffau a ffyrdd eraill, fel brasluniau gosod, byrddau stori a nodiadau ysgrifenedig, syniadau, arsylwadau a mewnwelediadau sydd yn berthnasol i fwriadau personol.
- Myfyrio beirniadol ar y gwaith a'r cynnydd er mwyn adolygu beth sydd wedi cael ei ddysgu, meithrin dealltwriaeth ddyfnach ac egluro pwrpas ac ystyr.

AA4 Cyflwyno personol

- Cyflwyno ymatebion creadigol sydd yn eu hanfod yn bersonol, yn gwireddu'r bwriadau a nodwyd yn effeithiol ac yn cyflawni'r gofynion dylunio.
- Gwneud cysylltiadau pendant, lle bo'n briodol, rhwng gwahanol elfennau'r cyflwyniad, gan gynnwys ymatebion cyd-destunol, ymarferol ac ysgrifenedig, a chyflwyno gwaith sy'n ystyrlon, gwybodus ac mewn trefn sydd yn hawdd ei dilyn.
- Ystyriaeth wedi'i rhoi i ffurfiau gwahanol o gyflwyno, fel hysbysebu ar gludiant cyhoeddus neu bosteri mewn llochesi bysiau, a dewis yr un fwyaf priodol o'r rhain ar gyfer y cyflwyniad, gan roi sylw dyledus i bwrpas y gwaith a sut i wneud iddo edrych yn ddiddorol. Os yw maint print neu gost printio fformat ffafriedig yn gyfyngiad, yna gellir ei luniadu, ei ddisgrifio a/neu ei gyflwyno fel model wrth raddfa.

Fel rhan o'u hastudiaethau U2 Cyfathrebu Graffig anogir dysgwyr i ystyried y canlynol:

AA1

- Datblygu syniadau sy'n seiliedig ar astudiaeth gyd-destunol o ddylunio graffig ddoe a heddiw yn ogystal â ffynonellau eraill fel teledu a sinema, celfyddyd gain, dylunio cynnyrch a chyfryngau wedi'u cyhoeddi.
- Ymwybyddiaeth o amrywiaeth o faterion sy'n dylanwadu ar bwrpasau, ystyron a chyd-destunau dylunio graffig fel ystyriaethau moesegol a chadwraethol, strategaethau marchnata, ymgyrchoedd hyrwyddo, prosesau reprograffig a chynhyrchiad cylchgrawn a dyddiadur.
- Sgil dadansoddol a dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol wrth gloriannu, cymharu a chyferbynnu gwaith dylunwyr graffig perthnasol a ffynonellau cyd-destunol eraill ac wrth werthuso'n ffurfiannol a chrynodol brosesau a chanlyniadau dylunio personol.

AA2

- Dethol cyfryngau a phrosesau dylunio graffig priodol gan arbrofi â'r rhain, a defnydd dan reolaeth o deipograffi a delweddaeth o ffynonellau cynradd ac eilaidd, gan gynnwys trin pwrpasol gan ddefnyddio meddalwedd ddigidol. Gellir cynnwys manylion technegol, ond dylent gael ei dethol yn ofalus a bod yn gryno. Ni ddylai ymddiddori mewn prosesau technegol fod yn bwysicach na datblygu syniadau creadigol.
- Archwilio adnoddau ysgogol a ffynonellau amgylcheddol i gychwyn a datblygu syniadau gwreiddiol, gan dalu sylw dyledus i gyfansoddiad a gosodiad, cyfrannedd, llinell, tŷn, lliw, gwead, graddfa ac elfennau gweledol erail. Dylid archwilio potensial llawn cyfathrebu graffig drwy arbrofi gyda thechnolegau sydd wedi'u sefydlu'n barod a thechnolegau sy'n datblygu, a lle bo'n briodol, dylid cyfuno dulliau dylunio graffig gyda phrosesau eraill i greu ffyrdd newydd o weithio. Dylid dogfennu pob cam arwyddocaol yn y broses creadigol, a rhoi sylw dyledus i gam olaf ond un y datblygu er mwyn sicrhau nad yw'r canlyniadau terfynol yn ymddangos yn ddisymwth.
- Dylid dangos gwahaniaethu wrth adolygu a mireinio syniadau wrth i waith fynd yn ei flaen. Arferir rheolaeth ofalus wrth fireinio manylion, fel dewis ffontiau, perthynas y deipograffeg â'r delweddau, a phroses reprograffig addas, er mwyn cynhyrchu canlyniadau o safon.

AA3

- Casglu, dewis, trefnu a chyfathrebu gwybodaeth berthnasol wrth ymgymryd ag ymchwil i ffynonellau cyfeirio gweledol a ffynonellau eraill. Rhoi sylw dyledus i ddewis y delweddau mwyaf addas, a dadansoddi ac anodi'r rhain, yn hytrach na chynnwys nifer o brintiau bawd heb unrhyw sylwadau gwerthusol.
- Cofnodi, trwy luniadu, ffotograffau a ffyrdd eraill, fel brasluniau gosod, byrddau stori a nodiadau ysgrifenedig, syniadau, arsylwadau a mewnwelediadau sydd yn berthnasol i fwriadau personol.
- Myfyrio beirniadol ar y gwaith a'r cynnydd er mwyn adolygu'n effeithiol beth sydd wedi cael ei ddysgu, meithrin dealltwriaeth ddyfnach ac egluro pwrpasau ac ystyron.

AA4

- Cyflwyno ymatebion creadigol sydd yn eu hanfod yn bersonol, yn gwireddu'r bwriadau a nodwyd yn effeithiol ac yn cyflawni'r gofynion dylunio.
- Gwneud cysylltiadau pendant, lle bo'n briodol, rhwng gwahanol elfennau'r cyflwyniad, gan gynnwys ymatebion cyd-destunol, ymarferol ac ysgrifenedig, a chyflwyno gwaith sy'n ystyrllon, gwybodus ac mewn trefn sydd yn hawdd ei dilyn.
- Ystyriaeth wedi'i rhoi i ffurfiau gwahanol o gyflwyno, fel hysbysebu ar gludiant cyhoeddus neu bosteri mewn safleoedd bws, a dewis yr un mwyaf priodol o'r rhain ar gyfer y cyflwyniad, gan roi sylw dyledus i bwrpas y gwaith a sut y gallai ddenu sylw cynulleidfa neu gleientiaid posibl. Os yw maint print neu gost printio fformat ffafriedig yn gyfyngiad, yna gellir ei luniadu, ei ddisgrifio a/neu ei gyflwyno fel model wrth raddfa.

Opsiwn teitl arnodedig: Celf a Dylunio (Dylunio Tri Dimensiwn)

Mae'r meysydd astudio posibl yn cynnwys y canlynol:

- cerameg
- cerflunwaith
- gemwaith/addurniadau i'r corff
- dylunio ar gyfer arddangosfeydd
- dylunio cynhyrchiad
- dylunio perfformiad
- dylunio mewnol
- dylunio cynnyrch
- dylunio amgylcheddol
- dylunio pensaernïol
- animeiddio 3-D a dylunio ac adeiladu pypedau
- dylunio dodrefn.

Mae Dylunio Tri Dimensiwn yn unigryw yn yr opsiwn hwn oherwydd y pwyslais sydd yn cael ei roi ar ystyriaethau swyddogaethol ac iwtilitaraidd o'i gymharu â chanlyniadau tri dimensiwn sy'n cael eu cynhyrchu mewn disgyblaethau eraill, fel Celfyddyd Gain, lle mae'n debyg y byddai'r bwriadau'n seiliedig ar safonau estheteg ffurf fynegiannol.

Mae Dylunio Tri Dimensiwn yn cwmpasu amrediad arbennig o eang o weithgareddau o emwaith ac addurniadau corff i ddylunio pensaernïol ac amgylcheddol.

Mae agweddau eraill yn cynnwys cerameg swyddogaethol, dylunio cynnyrch, dylunio mewnol ac arddangosfeydd, dylunio theatr a dylunio cynhyrchiad gan gynnwys ffilm a theledu. Gellir cynnwys agweddau ar grefft hefyd, fel dylunio ac adeiladu pypedau, ac eitemau unigol o ddodrefn sy'n ymwneud ag ymarferoldeb a sgiliau llaw yn ogystal â phriodweddau esthetig.

Fel rhan o'u hastudiaethau UG Dylunio Tri Dimensiwn anogir dysgwyr i ystyried y canlynol:

AA1

- Datblygu syniadau sy'n seiliedig ar astudiaeth gyd-destunol o ddylunio tri dimensiwn ddoe a heddiw yn ein diwylliant ein hunain ac mewn diwylliannau eraill, yn ogystal â ffynonellau fel celfyddyd gain, ffilm a theledu, a thecstilau.
- Ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth o ffactorau sy'n dylanwadu ar bwrpasau, ystyron a chyd-destunau dylunio tri dimensiwn fel ffactorau ergonomig, ystyriaethau economaidd, dulliau cynhyrchu a'r meini prawf ymarferol ar gyfer lle penodol. Gwybodaeth berthnasol o drefniadau gweithio lle mae canlyniadau tri dimensiwn penodol yn cael eu cynhyrchu, fel cynhyrchu set ar gyfer drama. Dealltwriaeth bod y rhan fwyaf o ddylunwyr yn y bôn yn ymatebol ac yn barod i gydweithio.
- Sgïl dadansoddol a dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol wrth gymharu a chyferbynnu gwaith dylunwyr tri dimensiwn perthnasol a ffynonellau cyd-destunol eraill ac wrth werthuso'n ffurfiannol a chrynodol brosesau a chanlyniadau dylunio personol. Ymatebion personol i ddelweddau ysbrydoledig yn hytrach na chynhyrchu byrddau naws wedi'u torri a'u gludo.

AA2

- Dethol ac arbrofi gyda phrosesau a defnyddiau dylunio tri dimensiwn priodol, fel pren, clai, plastig, metel, cerdyn a phapur, gan ddefnyddio offer a chyfarpar addas yn ofalus a diogel. Gellir cynnwys manylion technegol, ond dylent gael eu dethol yn ofalus a bod yn gryno. Ni ddylai ymddiddori mewn prosesau technegol fod yn bwysicach na datblygu syniadau creadigol.
- Archwilio adnoddau ysgogol a ffynonellau gweithdy ac amgylcheddol i ddatblygu syniadau gwreiddiol, gan roi sylw dyledus i'r defnydd sydd i gael ei wneud o'r canlyniad arfaethedig, ei arwynebedd, adeiladwaith, gwead, lliw, ffurf, graddfa a chryfder ac elfennau tri dimensiwn eraill. Dylid archwilio potensial agweddau penodol ar ddylunio tri dimensiwn trwy arbrofi gyda thechnolegau sydd wedi'u sefydlu'n barod a thechnolegau sy'n datblygu. Dylid dogfenu pob cam arwyddocaol yn y broses creadigol, a rhoi sylw arbennig i'r cam olaf ond un, er mwyn sicrhau nad yw'r canlyniadau terfynol yn ymddangos yn ddisymwth.
- Dylid dangos gwahaniaethu wrth adolygu a mireinio syniadau wrth i'r gwaith ddatblygu. Rheolaeth ofalus o ran rhoi sylw i fanylder, fel cysylltiadau cydrannau wedi'u ffurfio'n dda, rhannau gweithio sydd yn gweithio, gorffeniad arwyneb ac ymddangosiad esthetig, er mwyn cynhyrchu canlyniadau o safon.

AA3

- Casglu, dewis, trefnu a chyfathrebu gwybodaeth berthnasol wrth astudio ffynonellau cyfeirio tri dimensiwn, gweledol a chyffyrddol a ffynonellau eraill. Sylw dyledus wedi'i roi i ddadansoddi'r posibilïadau dylunio mwyaf priodol a'r datrysiadau mwyaf priodol i broblemau.
- Cofnodi, trwy frasluniau, lluniadau persbectif, lluniadau technegol â llaw a CAD, ffotograffau, nodiadau ysgrifenedig a ffyrdd eraill, syniadau, arsylwadau a mewnwleidiadau sydd yn berthnasol i fwriadau personol.
- Myfyrio beirniadol ar y gwaith a'r cynnydd er mwyn adolygu beth sydd wedi cael ei ddysgu, meithrin dealltwriaeth ddyfnach, egluro pwrpas a, lle bo'n briodol, trosglwyddo dysgu i gyd-destun newydd, er enghraifft, o'r llwyfan i'r sgrin.

AA4

- Cyflwyno ymatebion creadigol sydd yn eu hanfod yn ddatrysiadau personol i ofynion dylunio ac sydd yn gwireddu'r bwriadau a nodwyd yn effeithiol gyda thystiolaeth o chwilfrydedd ac ymrwymiad personol.
- Gwneud cysylltiadau pendant, lle bo'n briodol, rhwng gwahanol elfennau'r cyflwyniad, gan gynnwys ymatebion cyd-destunol, ymarferol ac ysgrifenedig, gan gyflwyno gwaith mewn trefn sydd yn hawdd ei dilyn.
- Ystyriaeth wedi'i rhoi i ffurfiau gwahanol o gyflwyno, fel taflenni dylunio a rhaglen glyweledol, a dewis yr un fwyaf priodol o'r rhain ar gyfer y cyflwyniad. Dylid rhoi sylw dyledus i bwrpas y gwaith a sut i wneud iddo edrych yn ddiddorol. Os yw cost y ffurf fwyaf addas yn gyfyngiad, yna gellir ei lluniadu, ei disgrifio a/neu ei chyflwyno gan ddefnyddio defnyddiau rhatach. Gall canlyniadau fod ar ffurf darnau terfynol, prototeipiau, a modelau maint llawn neu wrth raddfa. Gallant fod yn ddarnau unigryw neu'n addas ar gyfer cynhyrchu swp bach neu fasgynhyrchu.

Fel rhan o'u hastudiaethau U2 Dylunio Tri Dimensiwn anogir dysgwyr i ystyried y canlynol:

AA1

- Datblygu syniadau sy'n seiliedig ar astudiaeth gyd-destunol ar ddylunio tri dimensiwn presennol ac o'r gorffennol yn ein diwylliant ein hunain ac mewn diwylliannau eraill, yn ogystal â ffynonellau fel gemau a chyhoeddiadau ffuglen wyddonol, ffilmiau a theledu, celfyddyd gain a thecstilau.
- Ymwybyddiaeth o amrywiaeth o ffactorau sy'n dylanwadu ar bwrpasau, ystyron a chyd-destunau dylunio tri dimensiwn fel ffactorau ergonomig, moesegol, ystyriaethau cadwraethol ac economaidd, dulliau cynhyrchu a'r meini prawf ymarferol o'r gofod a roddir. Gwybodaeth berthnasol o drefniadau gweithio lle mae canlyniadau tri dimensiwn yn cael eu cynhyrchu, fel cynhyrchiad llwyfan ar gyfer drama. Dealltwriaeth bod y rhan fwyaf o ddylunwyr yn y bôn yn ymatebol ac yn barod i gydweithio.
- Sgil dadansoddol a dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol wrth gloriannu, cymharu a chyferbynnu gwaith artistiaid cain perthnasol a ffynonellau cyd-destunol eraill ac mewn gwerthusiad ffurfiannol a chyfansymiol o ganlyniadau personol. Ymatebion personol i ddelweddau ysbrydoledig yn hytrach na chynhyrchu byrddau nawws wedi'u torri a'u gludo.

AA2

- Dethol ac arbrofi gydag chyfryngau a phrosesau tri dimensiwn priodol, fel pren, clai, plastic, metel, cerdyn a phapur, gyda defnydd ddiogel a dan reolaeth o offer addas, gan arbrofio â'r rhain a lle bo'n briodol, defnydd arbennigol o ddylunio a rheolaeth trwy gymorth cyfrifiadur. Gellir cynnwys manylion technegol, ond dylent gael ei dethol yn ofalus a bod yn gryno. Ni ddylai ymddiddori mewn prosesau technegol fod yn bwysicach na datblygu syniadau creadigol.
- Archwilio adnoddau ysgogol a ffynonellau gweithdy ac amgylcheddol i ddatblygu syniadau arloesol, gan roi sylw dyledus i'r defnydd sydd i gael ei wneud o'r canlyniad arfaethedig, ei arwynebedd, adeiladwaith, gwead, lliw, ffurf, graddfa a chryfder ac elfennau tri dimensiwn eraill. Dylid archwilio potensial agweddau penodol ar ddylunio tri dimensiwn trwy arbrofi gyda thechnolegau sydd wedi'u sefydlu'n barod a thechnolegau sy'n datblygu a, lle bo'n briodol, dylid cyfuno dulliau dylunio tri dimensiwn gyda phrosesau eraill i greu ffyrdd newydd o weithio. Dylid dogfennu pob cam arwyddocaol yn y broses greadigol, a rhoi sylw arbennig i'r cam olaf ond un, er mwyn sicrhau nad yw'r canlyniadau terfynol yn ymddangos yn ddisymwth.
- Dylid dangos gwahaniaethu wrth adolygu a mireinio syniadau wrth i waith fynd yn ei flaen. Rheolaeth ofalus o ran rhoi sylw i fanylder, fel cysylltiadau cydrannau wedi'u ffurfio'n dda, rhannau gweithredol swyddogaethol, gorffeniad arwynebedd ac ymdangosiad estheteg er mwyn cynhyrchu canlyniadau cydrannol o safon.

AA3

- Casglu, dewis, trefnu a chyfathrebu gwybodaeth berthnasol wrth ymgymryd ag ymchwil ac ymholiad i ffynonellau cyfeirio tri dimensiwn gweledol, cyffyrddol a ffynonellau eraill. Sylw dyledus wedi'i roi i ddadansoddi trylwyr o'r posibiladau dylunio mwyaf priodol a datrysiadau ar gyfer problemau.
- Cofnodi, trwy frasluniau, lluniadau persbectif, lluniadau technegol â llaw a CAD, cynlluniau gweithio, ffotograffau, nodiadau ysgrifenedig a ffyrdd eraill, syniadau, arsylwadau a mewnwleidiadau sydd yn berthnasol i fwriadau personol.
- Myfyrio beirniadol ar y gwaith a'r cynnydd er mwyn adolygu beth sydd wedi cael ei ddysgu, meithrin dealltwriaeth ddyfnach, egluro pwrpas a, lle bo'n briodol, trosglwyddo dysgu i gyd-destun newydd, er enghraifft, o'r llwyfan i'r sgrin.

AA4

- Cyflwyno ymatebion creadigol sydd yn eu hanfod yn ddatrysiadau personol i ofynion dylunio ac sydd yn gwireddu'r bwriadau a nodwyd yn effeithiol gyda thystiolaeth o chwilfrydedd ac ymrwymiad personol.
- Gwneud cysylltiadau pendant, lle bo'n briodol, rhwng gwahanol elfennau'r cyflwyniad, gan gynnwys ymatebion cyd-destunol, ymarferol ac ysgrifenedig, gan gyflwyno gwaith mewn trefn sydd yn hawdd ei dilyn.
- Ystyriaeth wedi'i rhoi i ffurfiau gwahanol o gyflwyno, fel taflenni dylunio a rhaglenni clyweledol, a dewis yr un mwyaf priodol o'r rhain ar gyfer y cyflwyniad. Dylid rhoi sylw dyledus i bwrpas y gwaith a sut y gallai ddenu sylw cynulleidfa neu gleientiaid posibl, fel cyfarwyddwr neu stiwdio ddylunio. Os yw cost y ffurf mwyaf addas yn gyfyngiad, yna gellir lluniadu hwn, ei ddisgrifio neu/a'i gyflwyno gan ddefnyddio defnyddiau rhatach. Gall canlyniadau fod ar ffurf darnau terfynol, prototeipiau a modelau maint llawn neu ar raddfa. Gallant fod yn ddarnau unigryw neu'n addas ar gyfer cynhyrchu swp bach neu fasgynhyrchu.

Opsiwn teitl arnodedig: Celf a Dylunio (Ffotograffiaeth)

Mae'r meysydd astudio posibl yn cynnwys y canlynol:

- tynnu lluniau o bobl
- tynnu lluniau o leoedd
- ffotograffiaeth bywyd llonydd
- ffotograffiaeth dogfennol
- ffotonewyddiaduraeth
- delweddaeth arbrofol
- gosodwaith ffotograffig
- ffotograffiaeth ffasiwn
- delweddu digidol
- delwedd symudol (fideo, ffilm, animeiddio).

Mae'r opsiwn hwn yn cwmpasu maes astudiaeth eang sydd yn newid o hyd gan edrych ar ddelweddaeth yn seiliedig ar olau dros gyfnod o bron i ddwy ganrif.

Gallai dysgwyr edrych ar ddelweddau cynnar yn seiliedig ar olau a thechnoleg elfennol, fel camera twll pin, yn ogystal â'r rhai mwyaf cyfoes, a allai gynnwys y defnydd o gamerau digidol, camcorder fideo, llungopiwyd, sganwyr a ffonau symudol. Gallant hefyd weithio'n unig naill ai gyda thechnoleg yn seiliedig ar ffilm neu dechnoleg digidol, neu weithio gyda'r ddau. Gall canlyniadau fod yn seiliedig ar sgrin neu ar brint, a chynnwys delweddau llonydd neu symudol, a gallant fod yn arwahanol i'r maes pwnc, neu wedi'u cyfuno â ffurfiau eraill ar gelf.

Fel rhan o'u hastudiaethau UG Ffotograffiaeth anogir dysgwyr i ystyried y canlynol:

AA1

- Datblygu syniadau sy'n seiliedig ar astudiaeth gyd-destunol o ffynonellau ffotograffig ddoe a heddiw, yn ogystal â ffynonellau eraill fel ffilm, celfyddyd gain, dylunio graffig a chyfryngau wedi'u cyhoeddi, a lle ffotograffiaeth yn y rhain.
- Ymwybyddiaeth o'r materion sy'n dylanwadu ar bwrpasau, ystyron a chyd-destunau ffotograffiaeth ac o'r amrywiaeth o *genres* ffotograffig a ffilm a, lle bo'n briodol, cysylltu gwaith personol â genre penodol.
- Sgil dadansoddol a dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol wrth gymharu a chyferbynnu gwaith ffotograffwyr perthnasol a ffynonellau cyd-destunol eraill ac wrth werthuso'n ffurfiannol a chrynodol ganlyniadau ffotograffig personol.

AA2

- Dethol ac arbrofi gyda chyfryngau a phrosesau ffotograffig priodol, cyfryngau eraill a chyfuniadau o gyfryngau, gyda defnydd dan reolaeth o oleuo, cyflymder caead, agorfa, lensiau, hidlyddion a meddalwedd ddigidol. Gellir cynnwys manylion technegol, ond dylent gael eu dethol yn ofalus a bod yn gryno. Ni ddylai ymddiddori mewn prosesau technegol fod yn bwysicach na datblygu syniadau creadigol.
- Archwilio adnoddau ysgogol a ffynonellau stiwdio ac amgylcheddol i gychwyn a datblygu syniadau arloesol, gyda sylw dyledus i safbwynt, cyfansoddiad, llinell, tŷn, lliw, gwedd, graddfa ac elfennau gweledol eraill. Dylid dogfennu pob cam arwyddocaol yn y broses creadigol. Dylid archwilio potensial llawn ffotograffiaeth trwy arbrofi gyda chyfryngau traddodiadol a digidol.

- Dylid dangos gwahaniaethu wrth adolygu syniadau wrth i'r gwaith ddatblygu. Rheolaeth ofalus o ran rhoi sylw i fanylder, er enghraifft, agweddau fel golygu, trin delweddau a chydriadiad y print, er mwyn cynhyrchu canlyniadau o safon.

AA3

- Casglu, dewis, trefnu a chyfathrebu gwybodaeth berthnasol wrth astudio ffynonellau cyfeirio gweledol a chyffyrddol. Rhoi sylw dyledus i ddewis y delweddau mwyaf arwyddocaol yn unig, a dadansoddi ac anodi'r rhain, yn hytrach na chynnwys llawer o brintiau bawd/printiau cyswllt heb unrhyw sylwadau gwerthusol.
- Cofnodi, trwy ffotograffiaeth a ffyrdd eraill, fel brasluniau, byrddau stori a nodiadau ysgrifenedig, syniadau, arsylwadau a mewnwleidiadau sydd yn berthnasol i fwriadau personol.
- Myfyrio beirniadol ar y gwaith a'r cynnydd er mwyn adolygu beth sydd wedi cael ei ddysgu, meithrin dealltwriaeth ddyfnach ac egluro pwrpas ac ystyr.

AA4

- Cyflwyno ymatebion creadigol sydd yn eu hanfod yn bersonol ac sydd yn gwireddu'r bwriadau a nodwyd yn effeithiol, fel poster ffotograffig i gefnogi barn gadarn neu ddelweddau o adeiladweithiau pensaernïol wedi'u taflunio ar adeilad tri dimensiwn.
- Gwneud cysylltiadau pendant, lle bo'n briodol, rhwng gwahanol elfennau'r cyflwyniad, gan gynnwys ymatebion cyd-destunol, ymarferol ac ysgrifenedig, gan gyflwyno gwaith mewn trefn sydd yn hawdd ei dilyn.
- Ystyriaeth wedi'i rhoi i ffurfiau gwahanol o gyflwyno, fel dilyniannau wedi'u hanimeiddio a'r defnydd o gyfryngau cymysg, a dewis yr un fwyaf priodol o'r rhain ar gyfer y cyflwyniad, gan roi sylw dyledus i bwrpas y gwaith a sut i wneud iddo edrych yn ddiddorol. Os yw maint print neu gost printio fformat ffafriedig yn gyfyngiad, yna gellir ei luniadu, ei ddisgrifio a/neu ei gyflwyno fel model wrth raddfa.

Fel rhan o'u hastudiaethau U2 Ffotograffiaeth anogir dysgwyr i ystyried y canlynol:

AA1

- Datblygu syniadau sy'n seiliedig ar astudiaeth ymchwiliol gyd-destunol o ffynonellau ffotograffig ddoe a heddiw, yn ogystal â ffynonellau eraill fel ffilm, celfyddyd gain, celf osod, dylunio graffig, dylunio cynhyrchiad a chyfryngau wedi'u cyhoeddi, a lle ffotograffiaeth yn y rhain.
- Ymwybyddiaeth o amrywiaeth genre ffotograffiaeth a ffilm a, lle bo'n briodol, cysylltu gwaith personol i genre penodol.
- Sgîl dadansoddol a dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol wrth gloriannu, cymharu a chyferbynnu gwaith ffotograffwyr perthnasol a ffynonellau cyd-destunol eraill ac mewn gwerthusiad ffurfiannol a chyfansymiol o ganlyniadau ffotograffig personol.

AA2

- Dethol cyfryngau a phrosesau ffotograffiaeth briodol, cyfryngau eraill a chyfuniadau eraill o gyfryngau, gan arbrofi â'r rhain, gyda defnydd dan reolaeth o oleuo, cyflymder caead, lensiau, hidlyddion a meddalwedd digidol. Gellir cynnwys manylion technegol, ond dylent gael eu dethol yn ofalus a bod yn gryno. Ni ddylai ymddiddori mewn prosesau technegol fod yn bwysicach na datblygu syniadau creadigol.
- Archwilio adnoddau ysgogol a ffynonellau gweledol cyfoethog a chyffyrddol i gychwyn a datblygu syniadau gwreiddiol, gyda sylw dyledus i safbwynt, cyfansoddiad, llinell, tŷn, lliw, gwead, graddfa ac elfennau gweledol eraill, yn enwedig cyfansoddiad. Dylid dogfennu pob cam arwyddocaol yn y broses creadigol. Dylid archwilio potensial llawn ffotograffiaeth trwy arbrofi gyda chyfryngau traddodiadol a digidol a, lle bo'n briodol, cyfuno ffotograffiaeth a thechnegau eraill i ddechrau ffyrdd newydd o weithio.
- Dylid dangos gwahaniaethu wrth adolygu a mireinio syniadau wrth i waith fynd yn ei flaen. Rheolaeth ofalus o ran rhoi sylw i fanylder, er enghraifft, agweddau fel golygu, trin delweddau a chydraniad y print, er mwyn cynhyrchu canlyniadau o safon.

AA3

- Casglu, dewis, trefnu a chyfathrebu gwybodaeth berthnasol wrth ymgymryd ag ymchwil i ffynonellau cyfeirio gweledol a chyffyrddol gan ddangos diddordebau a barnau personol. Rhoi sylw dyledus i ddewis y delweddau mwyaf arwyddocaol, a dadansoddi ac anodi'r rhain, yn hytrach na chynnwys nifer o brintiau bawd/printiau cyswllt heb unrhyw sylwadau gwerthusol.
- Cofnodi, trwy ffotograffiaeth a ffyrdd eraill, fel brasluniau, byrddau stori a nodiadau ysgrifenedig, syniadau, arsylwadau a mewnwediadau sydd yn berthnasol i fwriadau personol.
- Myfyrio beirniadol ar y gwaith a'r cynnydd er mwyn adolygu beth sydd wedi cael ei ddysgu, meithrin dealltwriaeth ddyfnach ac egluro pwrpas ac ystyr.

AA4

- Cyflwyno ymatebion creadigol sydd yn eu hanfod yn bersonol ac sydd yn gwireddu'r bwriadau a nodwyd yn effeithiol, fel poster ffotograffig i gefnogi barn gadarn neu ddelweddau o adeiladweithiau pensaernïol wedi'u taflunio ar adeilad tri dimensiwn.
- Gwneud cysylltiadau pendant, lle bo'n briodol, rhwng gwahanol elfennau'r cyflwyniad, gan gynnwys ymatebion cyd-destunol, ymarferol ac ysgrifenedig, gan gyflwyno gwaith mewn trefn sydd yn hawdd ei dilyn.
- Ystyriaeth wedi'i rhoi i ffurfiau gwahanol o gyflwyno, fel dilyniannau wedi'u hanimeiddio a'r defnydd o gyfrynfau cymysg, a dewis yr un mwyaf priodol o'r rhain ar gyfer y cyflwyniad, gan roi sylw dyledus i bwrpas y gwaith a sut y gallai ddenu sylw cynulleidfau neu gleientiaid posibl. Os yw maint print neu gost printio fformat ffafriedig yn gyfyngiad, yna gellir ei luniadu, ei ddisgrifio a/neu ei gyflwyno fel model wrth raddfa.

3 ASESU

3.1 Amcanion asesu a phwysoli

Yr un pedwar amcan asesu sy'n berthnasol i'r unedau UG ac U2. Mae'r un pwysoli i bob amcan asesu. Mae amcanion asesu'r fanyleb hon wedi'u rhoi isod. Rhaid i ddysgwyr:

AA1

Datblygu syniadau trwy ymchwiliadau dwys a manwl wedi'u cyfoethogi gan ffynonellau cyd-destunol a ffynonellau eraill, gan amlygu dealltwriaeth ddadansoddol a beirniadol.

AA2

Archwilio a dewis adnoddau, cyfryngau, defnyddiau, technegau a phrosesau priodol, gan adolygu a mireinio syniadau wrth i'r gwaith ddatblygu.

AA3

Cofnodi syniadau, arsylwadau a mewnwelediadau sydd yn berthnasol i fwriadau, gan fyfyrion'n feirniadol ar waith a chynnydd.

AA4

Cyflwyno ymateb personol ac ystyrlon sy'n gwireddu bwriadau, a, lle y bo'n briodol gwneud hynny, yn gwneud cysylltiad rhwng elfennau gweledol ac elfennau eraill.

Dangosir pwysoli'r amcanion asesu isod fel canran o'r Safon Uwch lawn (mae canran y cymwysterau UG mewn cromfachau).

Uned	Pwysoli'r Uned	AA1	AA2	AA3	AA4
UG Uned 1:	40% (100%)	10% (25%)	10% (25%)	10% (25%)	10%(25%)
U2 Uned 2:	36%	9%	9%	9%	9%
U2 Uned 3:	24%	6%	6%	6%	6%
Cyfanswm	100%	25%	25%	25%	25%

3.2 Trefniadau asesu

Mae **Unedau 1 a 2** yn cael eu hasesu'n fewnol a'u safoni'n allanol. Bydd pob un yn cael ei farcio allan o 160 (bydd pob amcan asesu'n cael ei farcio allan o 40). Y ganolfan sydd i benderfynu ar y dyddiad cwblhau. Mae'n rhaid i'r ganolfan gymryd ystyriaeth o'r amser sydd ei angen i asesu'n fewnol ac i gyflwyno marciau i CBAC erbyn y terfyn amser ym mis Mai.

Mae'n bwysig i ganolfannau roi sylw dyledus i aseiniadau, themâu a/neu friffiau y mae dysgwyr ac athrawon yn penderfynu arnynt ar gyfer Cydrannau 1 a 2 er mwyn sicrhau y byddant yn caniatáu i'r dysgwyr fodloni'r amcanion asesu. Os oes amheuaeth ynghylch aseiniadau, themâu a/neu friffiau, cyfeiriwch at yr adnoddau a'r arweiniad ar y wefan.

Mae **Uned 3** yn cael ei hasesu'n fewnol a'i safoni'n allanol. Bydd yn cael ei marcio allan o 100. (bydd marc allan o 25 am bob un o'r pedwar amcan asesu). Anfonir papur yr Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol i'r canolfannau cyn y dyddiad rhyddhau ar 1 Chwefror. Ni ddylid rhyddhau'r papur i'r ymgeiswyr cyn 1 Chwefror.

- Rhaid i'r dysgwyr ddewis **un** aseiniad o'r deuddeg aseiniad gosod. Yna bydd ganddynt gyfnod o amser i gwblhau'r gwaith ymchwil a'r astudiaethau paratoadol angenrheidiol. Y ganolfan sydd i benderfynu ar hyd y cyfnod ymchwil ac astudiaethau paratoadol.
- Yn dilyn y cyfnod ymchwil ac astudiaethau paratoadol hwn, dyrennir cyfnod o **15 awr o astudiaeth ddwys a manwl** i'r ymgeiswyr i wireddu eu hymateb heb gymorth ac mewn amodau dan oruchwyliaeth.
- Y ganolfan sydd i benderfynu ar ddyddiadau dechrau a gorffen y cyfnodau astudiaeth baratoadol a'r astudiaeth ddwys a manwl 15 awr o hyd gan gymryd ystyriaeth o'r ffaith fod angen cyflwyno holl farciau'r asesiad mewnol i CBAC erbyn terfyn amser ym mis Mai.

Amodau'r Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol, Uned 3

Gall athrawon roi arweiniad i ymgeiswyr yn ystod cyfnod yr astudiaeth baratoadol ac ymchwil, ond dylid cyfyngu hyn i:

- ddarpariaeth ac addasrwydd ffynonellau a defnyddiau
- atal llên-ladrad
- sicrhau bod y gwaith yn cael ei gynnal yn unol â gofynion a gweithdrefnau'r fanyleb, gan gynnwys materion iechyd a diogelwch.

Mae'n hanfodol i ymatebion y dysgwyr fod yn bersonol ac yn annibynnol.

Ar ôl i'r cyfnod o waith dwys a manwl 15 awr gychwyn, ni ddylai dysgwyr gael gweld **naill ai** eu gwaith ar gyfer yr astudiaeth baratoadol ac ymchwil **na** gwaith a gynhyrchwyd yn ystod y cyfnod o waith dwys a manwl. Rhaid i'r ganolfan gadw gwaith yr holl ymgeiswyr yn ddiogel ar ddiwedd pob sesiwn o waith dwys a manwl. Cyfrifoldeb y ganolfan yw monitro sesiynau'r cyfnod o waith dwys a manwl 15 awr er mwyn sicrhau nad oes gwaith ychwanegol yn cael ei gymryd i mewn na'i gymryd i ffwrdd o'r gweithle penodol.

Ffuriau cyflwyno

Gellir cyflwyno'r tair uned ar unrhyw ffurf briodol megis lyfrau braslunio, dyddiaduron gweledol, portffolios traddodiadol neu e-bortffolios, arddangosfeydd wedi'u mowntio, gosodiadau, cyflwyniadau digidol neu unrhyw gyfuniad o'r rhain. Nid oes unrhyw gyfyngiad ar gynnwys, ffurf na maint y gwaith na faint o dystiolaeth i'w dethol a'i chyflwyno, er y dylai'r pwyslais fod ar yr ansawdd yn hytrach na'r maint. Gall unedau, er enghraifft, gynnwys:

- un neu fwy o ddarnau wedi'u gwireddu'n derfynol ynghyd â dalenni o waith ymchwil ac astudiaethau paratoadol perthnasol yn cynnwys tystiolaeth o ymateb personol a datblygiad creadigol
- casgliad o astudiaethau cysylltiedig yn cynnwys o leiaf un darn gorffenedig, ynghyd â thystiolaeth bortffolio o broses eu datblygiad neu
- un neu ddau o lyfrau braslunio/llyfrau gwaith ynghyd ag un neu fwy o ddarnau gorffenedig.

Dilysu a Chydnabyddiaethau

Mae'n bwysig i'r asesu gael ei oruchwylio'n drylwyr gan y canolfannau i sicrhau mai'r ymgeiswyr sydd wedi gwneud yr holl waith ar eu pennau eu hunain. Mae gofyn i bob ymgeisydd lofnodi dogfen ddilysu sy'n cadarnhau gwreiddioldeb ei aseiniad(au) a rhaid i'r canolfannau lofnodi i gadarnhau eu bod wedi cymryd pob cam rhesymol i ddilysu hyn. Mae'n rhaid i bawb gwblhau'r dogfennau dilysu, nid y rhai sy'n cael eu dewis ar gyfer y sampl i'w weld gan y safonwr yn unig. Rhaid i'r dysgwr a'r athro/athrawes lofnodi'r dogfennau hyn. Bydd datganiad y dysgwr yn cefnogi'r broses hon drwy egluro a dilysu taith greadigol, bersonol pob dysgwr ym mhob cydran. Mae enghreifftiau o'r ddwy ffurflen i'w cael ar y wefan ac yn y Fanyleb a'r Deunyddiau Asesu Enghreifftiol.

Rhaid cydnabod yn glir unrhyw ddeunyddiau ffynhonnell eilaidd, fel delweddau o weithiau neu ddyfyniadau gan artistiaid a dylid nodi unrhyw waith nad yw'n perthyn yn gyfangwbl i'r dysgwr.

Asesu: cynlluniau marcio a chynnwys a awgrymir (gweler Atodiad C)

Dylai athrawon ddefnyddio'r cynlluniau marcio sy'n cael eu cynnwys yn y fanyleb hon, gan gyfeirio am arweiniad at y cynnwys a awgrymir, wrth asesu unedau 1, 2 a 3 yn fewnol. Cawsant eu llunio er mwyn cyflwyno system sy'n cysylltu'r amcanion asesu â marciau ac yn helpu i wahaniaethu'n glir rhwng yr amrywiol lefelau cyflawniad. Bydd y cynlluniau marcio fwyaf gwerthfawr o'u defnyddio ar y cyd ag arweiniad ac enghreifftiau o waith wedi'i asesu, y bydd CBAC yn eu darparu'n flynyddol er mwyn helpu canolfannau i nodi'r safon gwaith sy'n gysylltiedig â'r bandiau marciau amrywiol.

Safoni Mewnol

Mewn canolfannau neu gonsortiw m lle mae mwy nag un athro/athrawes, mae'n hanfodol safoni gwaith o bob grŵp addysgu yn fewnol. Mae'n angenrheidiol gwneud hyn er mwyn gallu bod yn sicr bod yr asesiad terfynol yn cyfleu'r safon a gytunwyd ar gyfer yr holl grwpiau dan sylw.

Consortia Ysgol neu Goleg

Os yw ysgol neu goleg yn rhan o gonsortiw m lle mae trefniadau addysgu ar y cyd (lle cafodd dysgwyr o ysgolion a/neu golegau gwahanol eu haddysgu ar y cyd ond eu cofrestru gan eu hysgol neu goleg eu hunain), rhaid hysbysu CBAC yn flynyddol am y trefniant hwn drwy wneud y canlynol:

- llenwi ffurflenni Cais am Drefniadau Asesu Consortiw m (ffurflen y Cydgyngor Cymwysterau)
- penodi cydlyn ydd consortiw m sy'n gyfrifol am sicrhau bod gwaith yr holl grwpiau addysgu ar draws y consortiw m yn cael ei safoni'n fewnol.

Cyfrifoldeb cydlyn ydd y consortiw m yw darparu yn yr ysgol neu goleg arweiniol y sampl o waith y consortiw m a nodwyd i'w safoni ynghyd â'r dogfennau gofynnol.

Cyflwyno marciau

Mae angen i ganolfannau gyflwyno marciau gwaith a asesir yn fewnol ar-lein yn ystod tymor yr haf ym mlwyddyn cyflwyno'r gwaith i'w safoni. Pan fydd marciau wedi'u cyflwyno i CBAC, bydd y system ar-lein yn cymhwyso fformiwla'r sampl yn seiliedig ar y drefn restrol gyffredinol i'r cofrestriad cyfan ac yn nodi'n syth y sampl o ddysgwyr y dewisir eu gwaith i'w safoni.

Y broses safoni

Ar ôl yr asesu mewnol, cyflwyno'r marciau i CBAC a nodi'r sampl i'w safoni, bydd safonwr yn ymweld i gwblhau'r safoni. Bydd hyn yn digwydd ym mis Mehefin fel arfer ac yn cynnwys yr holl waith a nodwyd i'w safoni mewn canolfan (gwaith ymgeiswyr U ac UG, os bydd y ganolfan yn cyflwyno cofrestradau am Safon Uwch ac UG). Bydd pob canolfan yn derbyn adborth manwl am y safoni.

Cyfrifoldeb y ganolfan yw sicrhau bod dysgwyr yn cyflwyno'u gwaith yn y ffurf sydd fwyaf priodol i'r gwaith a gynhyrchwyd. Mae'n hanfodol labelu pob darn o waith yn glir ac i arddangos elfennau cysylltiedig (er enghraifft llyfrau braslunio a chanlyniadau) gyda'i gilydd. Y canolfannau hefyd sy'n gyfrifol am sicrhau mai'r un gwaith sy'n cael ei gyflwyno ar gyfer y safonwr ymweld ag a gyflwynwyd yn wreiddiol i'w asesu'n fewnol. Ni ddylai gael ei ategu gan ddeunydd ychwanegol.

Bydd safonwyr yn rhoi adborth manwl i ganolfannau ar ffurf adroddiad fydd ar gael ar ddiwrnod cyhoeddi'r canlyniadau. Gwneir addasiadau i farciau asesiad mewnol y canolfannau os penderfynir nad yw'r asesiad hwnnw'n cydymffurfio â'r safonau cyffredin a sefydlwyd gan CBAC. Os nad yw canolfannau'n cytuno â chanlyniadau'r safoni, mae dewis o wasanaethau ar ôl y canlyniadau ar gael iddynt a amlinellir ar y wefan.

4 GWYBODAETH DECHNEGOL

4.1 Cofrestru

Manyleb unedol yw hon sy'n caniatáu am elfen o asesu mewn camau.

Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn ystod cyfnod asesu'r haf bob blwyddyn, tan ddiwedd oes y fanyleb hon.

Bydd Uned 1 ar gael yn 2016 (a phob blwyddyn wedi hynny) a dyfernir y cymhwyster UG am y tro cyntaf yn yr haf 2016.

Bydd Uned 2 ac Uned 3 ar gael yn 2017 (a phob blwyddyn wedi hynny) a dyfernir y cymhwyster UG am y tro cyntaf yn yr haf 2017.

Gellir sefyll cymhwyster fwy nag unwaith. Fodd bynnag, os yw ymgeisydd wedi rhoi cynnig ar unrhyw uned ddwywaith a'i fod yn dymuno cofrestru am y trydydd tro, yna bydd rhaid i'r ymgeisydd ail-gofrestru am bob uned a'r cyfnewid priodol. Cyfeirir at hyn fel 'dechrau o'r newydd'. Pan gaiff cymhwyster ei ailgymryd (dechrau o'r newydd), gall ymgeisydd roi hyd at ddau gynnig arall ar bob uned. Fodd bynnag, ni ellir defnyddio canlyniadau o unedau a safwyd cyn dechrau o'r newydd wrth agregu'r radd (graddau) newydd.

Gellir trosglwyddo marciau unedau asesu di-arholiad dros gyfnod oes y fanyleb.

Os cofrestrwyd ymgeisydd am uned ond ei fod yn absennol am yr uned honno, nid yw'r absenoldeb yn cyfrif fel ymgais. Fodd bynnag, byddai'r ymgeisydd yn cael ei ddisgrifio fel ymgeisydd ailsefyll.

Mae'r codau cofrestru i'w gweld isod.

Teitl		UG Uned 1	U2 Uned 2	U2 Uned 3	Cyfnewid Cymhwyster UG	Cyfnewid Cymhwyster Safon Uwch
		Ymholiad Creadigol Personol	Ymchwiliad Personol	Aseiniad Wedi'i Osod yn Allanol		
Celf, Crefft a Dylunio	Cyfrwng Saesneg	2650U1	1650U2	1650U3	2650QS	1650QS
	Cyfrwng Cymraeg	2650N1	1650N2	1650N3	2650CS	1650CS
Celfyddyd Gain	Cyfrwng Saesneg	2651U1	1651U2	1651U3	2651QS	1651QS
	Cyfrwng Cymraeg	2651N1	1651N2	1651N3	2651CS	1651CS
Astudiaethau Beirniadol a Chydestunol	Cyfrwng Saesneg	2652U1	1652U2	1652U3	2652QS	1652QS
	Cyfrwng Cymraeg	2652N1	1652N2	1652N3	2652CS	1652CS
Dylunio Tecstilau	Cyfrwng Saesneg	2653U1	1653U2	1653U3	2653QS	1653QS
	Cyfrwng Cymraeg	2653N1	1653N2	1653N3	2653CS	1653CS
Cyfathrebu Graffig	Cyfrwng Saesneg	2654U1	1654U2	1654U3	2654QS	1654QS
	Cyfrwng Cymraeg	2654N1	1654N2	1654N3	2654CS	1654CS
Dylunio Tri Dimensiwn	Cyfrwng Saesneg	2655U1	1655U2	1655U3	2655QS	1655QS
	Cyfrwng Cymraeg	2655N1	1655N2	1655N3	2655CS	1655CS
Ffotograffiaeth	Cyfrwng Saesneg	2656U1	1656U2	1656U3	2656QS	1656QS
	Cyfrwng Cymraeg	2656N1	1656N2	1656N3	2656CS	1656CS

Mae rhifyn cyfredol ein dogfen *Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau* yn rhoi'r dulliau cofrestru diweddaraf. Nid oes unrhyw gyfyngiad ar gofrestru am y fanyleb hon ynghyd ag unrhyw fanyleb UG neu Safon Uwch arall CBAC.

4.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl

Bydd y graddau cyffredinol ar gyfer y cymhwyster TAG UG yn cael eu cofnodi fel gradd ar y raddfa A i E. Bydd y graddau cyffredinol ar gyfer y cymhwyster TAG Safon Uwch yn cael eu cofnodi fel gradd ar y raddfa A* i E. Bydd y canlyniadau sy'n methu â chyrraedd y safon isaf ar gyfer y dyfarniad yn cael eu dangos fel U (annosbarthedig). Defnyddir llythyren fach a i e i ddangos graddau unedau ar slipiau canlyniadau ond nid ar y tystysgrifau.

Defnyddir y Raddfa Marciau Unffurf (GMU) mewn manylebau unedol fel ffordd o adrodd, cofnodi a chyfansymio canlyniadau asesiadau uned ymgeiswyr. Mae'r GMU yn cael ei defnyddio fel y bydd ymgeiswyr sy'n cyrraedd yr un safon yn cael yr un marc unffurf, pryd bynnag y cymerwyd yr uned. Bydd canlyniadau unedau unigol a'r dyfarniad pwnc cyffredinol yn cael eu mynegi fel marc unffurf ar raddfa sy'n gyffredin i bob cymhwyster TAG. Mae cyfanswm o 200 marc unffurf i'r TAG UG a chyfanswm o 500 marc unffurf i'r TAG Safon Uwch. Mae cyfanswm marciau unffurf unrhyw uned yn dibynnu ar y pwysoli am yr uned honno yn y fanyleb.

Mae marciau unffurf yn cyfateb i raddau uned fel a ganlyn:

Pwysoli'r Unedau	Uchafswm marciau unffurf uned	Gradd uned				
		a	b	c	d	e
Uned 1 (40%)	200	160	140	120	100	80
Uned 2 (36%)	180	144	126	108	90	72
Uned 3 (24%)	120	96	84	72	60	48

Mae'r marciau unffurf a enillwyd am bob uned yn cael eu hadio at ei gilydd a'r radd am y pwnc yn cael ei seilio ar y cyfanswm hwn.

	Uchafswm marciau unffurf	Gradd y cymhwyster				
		A	B	C	D	E
TAG UG	200	160	140	120	100	80
TAG Safon Uwch	500	400	350	300	250	200

Ar Safon Uwch, dyfernir Gradd A* i ymgeiswyr sydd wedi ennill Gradd A (400 marc unffurf) yn y cymhwyster Safon Uwch cyffredinol ac o leiaf 90% o gyfanswm y marciau unffurf ar gyfer yr unedau U2 (270 marc unffurf).

ATODIAD A - LLUNIADU

Mewn ymateb i argymhellion y diwydiannau creadigol, addysg uwch, y Gymdeithas Genedlaethol dros Addysg mewn Celf a Dylunio, y Cultural Learning Alliance, Cyngor y Celfyddydau ac athrawon arbenigol, mae mwy o bwyslais erbyn hyn ar werth lluniadu yn y fanyleb UG a Safon Uwch Celf a Dylunio. Awgrymir y dylai sgiliau lluniadu fod yn rhan annatod o'r holl unedau er mwyn sicrhau bod y dysgwyr yn gallu gwneud defnydd hyderus o'r elfen hanfodol hon o'r broses greadigol ac o iaith weledol. Hefyd dylai atgyfnerthu ymarfer, cefnogi dilyniant a bodloni gofynion addysg uwch a/neu'r diwydiannau creadigol.

Gellir dadlau bod lluniadu'n unigryw gan ei fod yn cynyddu gallu'r dysgwyr i weld ac i ddeall y byd gweledol a chyffyrddol. Yn bwysig, mae'n galluogi iddyn nhw feddwl yn weledol ac i gyfleu'r meddyliau hyn i eraill. Mae safonwyr, wrth asesu cyflwyniadau Safon Uwch Celf a Dylunio, yn cydnabod yn aml bod egni a chwmpas creadigedd y dysgwyr wedi'i gyfyngu gan ddiffyg delweddu syniadau trwy luniadu. Hyd yn oed os yw'r lefel cymhwysedd a enillwyd gan y dysgwyr yn gymharol fach, gallant ddefnyddio lluniadu'n bwrpasol o hyd i gofnodi gwybodaeth, delweddu syniadau a chyfathrebu posibiliadau. Mae angen i bob dysgwyr ddod yn gymwys yn y ffurfiau lluniadu sy'n briodol i'r opsiwn a astudir ganddynt.

Cyfyngau effeithiol iawn i'w defnyddio gan ddysgwyr yw llyfrau braslunio neu lyfrau gwaith crefft/dylunio. O'u defnyddio gallant gofnodi, trwy luniadu a dulliau eraill, dameidiau diddorol o wybodaeth, rhoi cynnig ar bosibiliadau myfyrgar ac archwilio defnyddiau a thechnegau fel rhan o astudiaeth ymchwilol. O dro i dro, cyfeirir at y rhain fel dyddiaduron gweledol ac, oherwydd hynny, byddant yn cynnwys syniadau bras a nodiadau gweledol heb eu gorffen. Nid oes bwriad i'r rhain ffurfio casgliad o ddarnau gwaith gorffenedig.

Dylid nodi bod modd gosod lluniadu mewn amrywiol gyd-destunau yn y fanyleb hon yn ogystal ag yn y broses greadigol. Yn aml, mae'r term 'lluniadu' yn cael ei gysylltu, er enghraifft, â chofnodi cynrychiadol Celfyddyd Gain a chanfyddiadau cyffredin ynghylch gafael draddodiadol ar dechneg. Fodd bynnag, mae llawer o gyd-destunau eraill ar gyfer lluniadu sy'n addas ar gyfer meysydd eraill o Ddylunio Tecstilau i Animeiddio neu Ffotograffiaeth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- defnydd pwrpasol o luniadu i gofnodi gwybodaeth
- ei ddefnyddio wrth ddylunio, delweddu neu fynegi syniadau
- ei botensial wrth gyfleu posibiliadau, megis trefniadau cyfansoddiadol.

Gall lluniadu fod ar ffurf:

- brasluniau
- astudiaethau arsylwi dadansoddol
- byrddau stori
- brasluniau bawd
- cynlluniau
- gwaith bras
- astudiaethau arbrofol neu fynegiannol
- modelu 2 neu 3-D
- dyluniadau neu olygon manwl.

Gellir lluniadu neu gofnodi gan ddefnyddio rhaglen 'stylus' a meddalwedd, neu gyfyngau traddodiadol megis siarcol neu ysgrifbin. Yn yr un modd gall lluniadu fod yn hynod effeithiol wrth gyfuno offer a thechnolegau digidol â phrosesau mwy traddodiadol.

ATODIAD B -

Ysgrifennu estynedig yn yr Ymchwiliad Personol

Mae pob un o'r manylebau Safon Uwch Celf a Dylunio yn gofyn am ysgrifennu estynedig, o leiafswm o 1,000 gair, y gall gynnwys delweddau a thestunau ac y mae'n rhaid iddo gysylltu'n glir â'r gwaith ymarferol, beirniadol a damcaniaethol sy'n cael ei gwblhau. Mae'r elfen ysgrifenedig hon wedi'i chynnwys yn Uned 2, yr Ymchwiliad Personol, yn y fanyleb hon.

Dylai gweithgareddau ysgrifennu helpu dysgwyr i wneud y canlynol:

- datblygu'r gallu i 'ymdrin' â gweithiau celf/crefft/dylunio gan fod yn barod i feddwl a threulio amser ac egni'n eu hastudio fel rhan o 'ymchwiliadau dwys a manwl' y gallan nhw ymateb a chysylltu'n bersonol â nhw.
- cyfathrebu eu syniadau'n llwyddiannus, gan alluogi iddyn nhw ddeall ystyron y dulliau ac ymagweddau gweledol maen nhw eu hunain yn eu defnyddio yn ogystal â gallu dadansoddi'r rhein mae pobl eraill yn eu defnyddio
- dangos eu bod yn deall cyd-destunau gwahanol gwneud arteffactau a gweithiau celf penodol yn wreiddiol ac ar hyn o bryd.

Gall dysgwyr ddefnyddio'r elfen ysgrifennu estynedig fel ffordd o ddangos tystiolaeth eu bod yn gallu:

- cymharu a chyferbynnu gweithiau o gelf/crefft/dylunio a gynhyrchwyd mewn diwylliannau a chyd-destunau gwahanol a gwerthuso dylanwad hynny ar eu diben a'u hystyr a'r ffordd y cawsant eu dehongli
- dogfennu dyfnder a lled eu gweithgareddau dysgu
- cynnal cofnod o ddilyniant yn eu dysgu
- cyfleu'r hyn a ddarganfuwyd ganddynt yn gyflawn ac yn eglur i bobl eraill, gan gynnwys defnyddio termau arbenigol
- trefnu eu hymchwil damcaniaethol er mwyn gallu cyfeirio at ailgyfeirio eu hymchwiliadau
- codi materion a chwestiynau er mwyn adnabod llinellau ymholiad sy'n addawol neu'n anghyffredin
- gweithio allan neu ddamcaniaethu am agweddau penodol ar eu gwaith er mwyn atgyfnerthu a dwysáu gwybodaeth a dealltwriaeth
- cyfeirio'n ôl at yr hyn a ddysgwyd ganddynt er mwyn adeiladu ar y wybodaeth honno a'i throsglwyddo i gyd-destun newydd, lle bo'n briodol gwneud hynny
- dwyn casgliadau ynghyd o ffynonellau gwahanol er mwyn crynhoi cynnydd a chwilio am gysylltiadau posibl at ddulliau dysgu newydd
- cynhyrchu meddyliau a syniadau arloesol a gwreiddiol
- mireinio sgiliau meddwl, dadansoddi a chyfosod creadigol a beirniadol
- myfyrio ar brosesau a chanlyniadau eu dysgu, gan adolygu a gwerthuso'r prosesau a'r canlyniadau hynny.

Fel y nodwyd yng nghynnwys pwnc Uned 2, mae'n bwysig bod dysgwyr yn dod i ystyried ysgrifennu estynedig fel rhan annatod o'u Hymchwiliad Personol. Proses gyfannol felly fydd asesu'r ymatebion ysgrifenedig ac ymarferol yn asesiad yr Ymchwiliad Personol. Mae'n hanfodol eu cyfosod yn uniongyrchol ac yn bwrpasol a bod dysgwyr yn anelu at gysylltu holl elfennau eu gwaith mor eglur â phosibl.

Ffuriau a dulliau cyflwyno posibl ar gyfer yr ysgrifennu estynedig (lleiafswm o 1000 gair)

Gall dysgwyr ddefnyddio neu gyfuno unrhyw rai o'r ffuriau awgrymedig ar y rhestr isod i ddatblygu elfen ysgrifennu estynedig eu hymchwiliad personol. Rhaid i ysgrifennu estynedig sy'n cael ei gyflwyno fel rhan o **AA1** gynnwys **lleiafswm o 400 gair**. Ar gyfer **AA2, AA3 neu AA4, rhaid** cyflwyno'r ysgrifennu estynedig mewn adrannau o leiafswm o **200 gair**. Mae'r rhaid i bob darn o ysgrifennu estynedig gynnwys lleiafswm o 1000 gair.

Nid yw'r rhestr hon yn orfodol nac yn gynhwysfawr:

- adroddiadau ymchwil
- taflenni
- catalogau arddangosfeydd
- traethodau darluniadol
- sgriptiau ar gyfer cyflwyniad llafar neu gyfweliad
- blogiau neu ddyddlyfrau
- erthyglau papur newydd/cylchgronau
- beirniadaethau neu ddadleuon
- adolygiadau
- adroddiadau gwerthuso
- sgriptiau cyflwyniadau clyweledol
- tudalennau gwe.

Fel y nodwyd yn y fanyleb ei hun, nid oes bwriad i'r ysgrifennu estynedig ddisodli anodi ysgrifenedig byr a ddefnyddir, er enghraifft, gyda lluniadau mewn llyfrau braslunio neu lyfrau nodiadau dylunio. Anogir yr arfer da hwn. Fodd bynnag, ni fydd anodi o'r fath yn rhan o'r elfen ysgrifennu estynedig sy'n lleiafswm o 1000 gair.

ATODIAD C - CYNLLUN MARCIO A CHYNNWYS A AWGRYMIR UG

Cynllun Marcio ar gyfer CELF A DYLUNIO UG		Uned 1 :	Ymholiad Creadigol Personol = Cyfanswm o 160 Marc	
	AA1	AA2	AA3	AA4
	<i>Datblygu syniadau trwy ymchwiliadau dwys a manwl wedi'u cyfoethogi gan ffynonellau cyd-destunol a ffynonellau eraill, gan amlygu dealltwriaeth ddadansoddol a beirniadol.</i>	<i>Archwilio a dewis adnoddau, cyfryngau, defnyddiau, technegau a phrosesau priodol, gan adolygu a mireinio syniadau wrth i'r gwaith ddatblygu.</i>	<i>Cofnodi syniadau, arsylwadau a mewnwleidiadau sy'n berthnasol i'r bwriadau, gan fyfyrion feiriadol ar y gwaith a'r cynnydd.</i>	<i>Cyflwyno ymateb personol ac ystyrion sy'n gwireddu bwriadau a, lle bo'n briodol, yn gwneud cysylltiadau rhwng elfennau gweledol ac elfennau eraill.</i>
5	33 - 40	33 - 40	33 - 40	33 - 40
	Datblygu syniadau'n drylwyr trwy ymchwiliadau dwys a manwl. Dadansoddiad a gwerthusiad beirniadol trylwyr o ffynonellau cyd-destunol perthnasol a ffynonellau perthnasol eraill. Mae ymatebion a dehongliadau cynhwysfawr wedi'u cyfoethogi gan ddealltwriaeth dda o bwrpasau, ystyrion a chyd-destunau.	Tystiolaeth dda o ddewis adnoddau, cyfryngau a phrosesau priodol. Archwilio defnyddiau'n hyderus a rheoli technegau'n fedrus i fanteisio ar eu potensial creadigol. Sefydli'r perthnasoedd o bwys rhwng syniadau, dulliau gweithio a chanlyniadau sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u mireinio'n briodol.	Gallu da i gofnodi arsylwadau, profiadau, syniadau a mewnwleidiadau sy'n berthnasol i'r bwriadau yng nghyd-destun ymchwilio ac ymholi trylwyr. Dangosir myfyrion beirniadol trylwyr ac effeithiol ar y gwaith a'r cynnydd.	Cyflwynir ymatebion personol ac ystyrion llawn dychmyg, a gwireddir bwriadau mewn ffordd gymwys ac eglur iawn. Cysylltiadau o bwys rhwng elfennau gweledol, ysgrifenedig, llafar ac eraill, lle bo'n briodol, wedi'u cyfleu mewn ffordd argyhoeddiadol.
4	25 - 32	25 - 32	25 - 32	25 - 32
	Datblygu syniadau'n weddol trwy ymchwiliadau sy'n ddwys ar y cyfan. Dadansoddiad a gwerthusiad rhesymol o ffynonellau cyd-destunol a ffynonellau eraill sy'n berthnasol ar y cyfan. Mae ymatebion a dehongliadau wedi'u cyfoethogi ar y cyfan gan ddealltwriaeth resymol o bwrpasau, ystyrion a chyd-destunau.	Tystiolaeth resymol o ddewis adnoddau, cyfryngau a phrosesau priodol. Archwilio defnyddiau a rheoli technegau'n dda i fanteisio ar eu potensial creadigol. Sefydli'r perthnasoedd rhwng syniadau, dulliau gweithio a chanlyniadau sy'n cael eu hadolygu a'u mireinio'n rhesymol.	Gallu rhesymol i gofnodi arsylwadau, syniadau a mewnwleidiadau sy'n berthnasol i'r bwriadau yng nghyd-destun ymchwilio ac ymholi rhesymol. Dangosir myfyrion beirniadol gweddol effeithiol ar y gwaith a'r cynnydd.	Cyflwynir ymatebion gweddol ddychmygus, personol ac ystyrion, a gwireddir bwriadau mewn ffordd foddhaol. Cysylltiadau perthnasol rhwng elfennau gweledol, ysgrifenedig, llafar ac eraill, lle bo'n briodol, wedi'u cyfleu mewn ffordd weddol argyhoeddiadol.
3	17 - 24	17 - 24	17 - 24	17 - 24
	Peth datblygu syniadau trwy ymchwiliadau, y mae rhai agweddau arnynt yn ddwys. Peth dadansoddiad a gwerthusiad beirniadol o ffynonellau cyd-destunol a ffynonellau eraill sy'n rhannol berthnasol. Mae ymatebion a dehongliadau wedi'u cyfoethogi weithiau gan beth dealltwriaeth o bwrpasau, ystyrion a chyd-destunau.	Peth dystiolaeth o ddewis adnoddau, cyfryngau a phrosesau, y mae rhai ohonynt yn briodol. Peth archwilio defnyddiau a rheoli technegau i fanteisio ar eu potensial creadigol. Gwneir cysylltiadau weithiau rhwng syniadau, dulliau gweithio a chanlyniadau sy'n cael eu hadolygu weithiau a'u mireinio i ryw raddau.	Peth gallu i gofnodi arsylwadau, syniadau a mewnwleidiadau sy'n berthnasol i'r bwriadau yng nghyd-destun ymchwilio ac ymholi rhesymol Dangosir peth myfyrion beirniadol ar y gwaith a'r cynnydd.	Peth gallu i gyflwyno ymatebion dychmygus, personol ac ystyrion, a gwireddir bwriadau mewn ffordd anghyson. Peth dystiolaeth o gysylltiadau perthnasol rhwng elfennau gweledol, ysgrifenedig, llafar ac eraill, lle bo'n briodol, wedi'u cyfleu mewn ffordd rannol argyhoeddiadol.

	AA1	AA2	AA3	AA4
2	9 - 16	9 - 16	9 - 16	9 - 16
	<p>Datblygu syniadau cyfyngedig trwy ymchwiliadau cyfyngedig.</p> <p>Gwneir ymdrechion cyfyngedig i ddadansoddi'n feirniadol a gwerthuso ffynonellau cyd-destunol a ffynonellau eraill.</p> <p>Mae ymatebion a dehongliadau'n dangos ymwybyddiaeth gyfyngedig o agweddau ar bwrpas, ystyr a chyd-destun.</p>	<p>Tystiolaeth gyfyngedig o ddewis adnoddau, cyfryngau a phrosesau, y mae nifer bach ohonynt yn briodol.</p> <p>Gwneir ymdrechion cyfyngedig i archwilio defnyddiau a rheoli technegau i fanteisio ar eu potensial creadigol.</p> <p>Gwneir cysylltiadau cyfyngedig rhwng syniadau, dulliau gweithio a chanlyniadau sy'n cael eu hadolygu weithiau a'u mireinio mewn ffordd gyfyngedig.</p>	<p>Gallu cyfyngedig i gofnodi arsylwadau, syniadau a mewnwleidiadau sy'n berthnasol i'r bwriadau yng nghyd-destun ymchwilio ac ymholi cyfyngedig.</p> <p>Dangosir myfyrio beirniadol cyfyngedig ar y gwaith a'r cynnydd.</p>	<p>Gallu cyfyngedig i gyflwyno ymatebion dychmygus, personol ac ystyrion, a gwireddir bwriadau mewn ffordd gyfyngedig.</p> <p>Tystiolaeth gyfyngedig o gysylltiadau perthnasol rhwng elfennau gweledol, ysgrifenedig, llafar ac eraill, lle bo'n briodol, wedi'u cyfleu mewn ffordd gyfyngedig.</p>
1	1 - 8	1 - 8	1 - 8	1 - 8
	<p>Datblygu syniadau eithriadol o gyfyngedig i'w weld yn achlysurol.</p> <p>Gwneir ymdrechion eithriadol o gyfyngedig i ddadansoddi'n feirniadol ac ystyried ffynonellau cyd-destunol a ffynonellau eraill.</p> <p>Mae ymatebion a dehongliadau'n dangos ymwybyddiaeth eithriadol o gyfyngedig o agweddau ar bwrpas, ystyr a chyd-destun.</p>	<p>Tystiolaeth eithriadol o gyfyngedig o ddewis adnoddau, cyfryngau a phrosesau, y mae ychydig neu ddim un ohonynt yn briodol.</p> <p>Gwneir ymdrechion eithriadol o gyfyngedig i archwilio defnyddiau a thechnegau.</p> <p>Gwneir cysylltiadau eithriadol o gyfyngedig rhwng syniadau, dulliau gweithio a chanlyniadau, ac ymdrechion eithriadol o gyfyngedig i adolygu a mireinio.</p>	<p>Gallu eithriadol o gyfyngedig i gofnodi arsylwadau, syniadau a mewnwleidiadau yng nghyd-destun ymchwilio ac ymholi eithriadol o gyfyngedig.</p> <p>Dangosir myfyrio beirniadol eithriadol o gyfyngedig ar y gwaith a'r cynnydd.</p>	<p>Gallu eithriadol o gyfyngedig i gyflwyno ymatebion dychmygus, personol ac ystyrion, a gwireddir bwriadau mewn ffordd eithriadol o gyfyngedig.</p> <p>Tystiolaeth eithriadol o gyfyngedig o gysylltiadau perthnasol rhwng elfennau gweledol, ysgrifenedig, llafar ac eraill, lle bo'n briodol, wedi'u cyfleu mewn ffordd eithriadol o gyfyngedig.</p>
0	0 Nid yw'r ymateb yn teilyngu marciau neu ni roddwyd cynnig arno.	0 Nid yw'r ymateb yn teilyngu marciau neu ni roddwyd cynnig arno.	0 Nid yw'r ymateb yn teilyngu marciau neu ni roddwyd cynnig arno.	0 Nid yw'r ymateb yn teilyngu marciau neu ni roddwyd cynnig arno.

UG Uned 1

ARWEINIAD: CYNNWYS A AWGRYMR AR GYFER CELF A DYLUNIO (CELF, CREFFT A DYLUNIO)

SYLWER: Nid oes angen glynu wrth y cynnwys hwn ond mae disgwyl i ddysgwyr roi ystyriaeth i'r agweddau y cyfeirir atynt isod. Caiff pob cyflwyniad ei asesu yn ôl ei deilyngdod yn unol â'r cynllun marcio generig sy'n seiliedig ar y pedwar amcan asesu. Mae'r cynnwys hwn yn cynnig arweiniad pellach i athrawon.

Mae modd gwahaniaethu rhwng Celf, Crefft a Dylunio ac opsiynau eraill gan ei fod yn galluogi dysgwyr i arddangos diddordebau a galluoedd personol ar draws cwrs astudio arbennig o eang. Dylent archwilio meysydd ymarferol a chyd-destunol o'u dewis o fyd celf, crefft a dylunio trwy gyfrwng amrediad o gyfryngau a phrosesau dau a/neu dri dimensiwn. Gall Celf, Crefft a Dylunio gynnwys y defnydd o amrywiaeth ddiderfyn bron o ddefnyddiau, technegau a phrosesau, ond dylid rhoi sylw dyledus i sicrhau dyfnder priodol yn ogystal ag ehangder y profiadau dysgu.

Dylai'r gwaith a gyflwynir ar gyfer Celf a Dylunio (Celf, Crefft a Dylunio) anelu at gynnwys tystiolaeth o'r canlynol er mwyn bodloni gofynion asesu.

AA1 Dealltwriaeth gyd-destunol

- Datblygu syniadau sy'n seiliedig ar astudiaeth ymchwiliol gyd-destunol o gelf, crefft a dylunio a ffynonellau eraill sy'n berthnasol i'r maes astudio a ddewiswyd.
- Ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth eang o waith sydd wedi'i gynhyrchu gan artistiaid, crefftwyr a dylunwyr a'r gwahaniaethau yn eu dulliau, ymagweddau, pwrpasau a bwriadau.
- Sgil dadansodol a dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol wrth gymharu a chyferbynnu gwaith artistiaid, crefftwyr a dylunwyr perthnasol a ffynonellau cyd-destunol eraill ac wrth werthuso gwaith personol.

AA2 Gwneud creadigol

- Dethol ac arbrofi gydag amrediad eang priodol a digonol o gyfryngau a phrosesau, gan arfer rheolaeth addas ar y rhain i uchafu potensial creadigol.
- Archwilio adnoddau ysgogol i gychwyn a datblygu syniadau arloesol, gyda sylw dyledus i elfennau ffurfiol perthnasol, yn enwedig cyfansoddiad. Perthnasoedd clir rhwng dulliau gweithio a chanlyniadau. Dylid dogfennu pob cam arwyddocaol yn y broses creadigol, gan gynnwys cam olaf ond un y datblygu er mwyn sicrhau nad yw'r canlyniadau terfynol yn ymddangos yn ddisymwth.
- Dylid dangos gwahaniaethu wrth adolygu a mireinio syniadau wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen. Rheolaeth fedrus o ran rhoi sylw i fanylder, er enghraifft, ailadeiladu rhannau o ddarnau crefft tri dimensiwn, er mwyn cynhyrchu canlyniadau gorffenedig o safon.

AA3 Cofnodi myfyriol

- Casglu, dewis, trefnu a chyfathrebu gwybodaeth berthnasol wrth ymgymryd ag ymchwil i ffynonellau cyfeirio gweledol a ffynonellau eraill. Rhoi sylw dyledus i ddewis ffynonellau ymholi priodol a dadansoddi'r rhain er mwyn cael manylion llawn gwybodaeth.
- Cofnodi, trwy luniadu a ffyrdd addas eraill, fel nodiadau lliw, tonyddol a gweadeddol, ffotograffau ac anodi mewn llyfrau braslunio ac ar daflenni astudio, syniadau, arsylwadau a mewnwleidiadau sydd yn unol â bwriadau personol.
- Myfyrio beirniadol ar gynnydd y gwaith er mwyn adolygu beth sydd wedi cael ei ddysgu, meithrin dealltwriaeth ac egluro pwrpasau ac ystyron. Lle bo'n briodol, gellir trosglwyddo dysgu i gyd-destunau newydd, er enghraifft, addasu ymateb haniaethol mynegiannol wedi'i beintio i drawstoriadau o ffrwythau er mwyn datblygu dyluniadau graffig ar gyfer marchnata iogyrtiau ffrwythau sydd wedi'u cynhyrchu'n lleol.

AA4 Cyflwyno personol

- Cyflwyno canlyniadau terfynol dychmygus personol sydd, ynghyd â thystiolaeth o'r prosesau a ddefnyddiwyd i'w cynhyrchu, yn gwireddu'r bwriadau a nodwyd.
- Gwneud cysylltiadau, lle bo'n briodol, rhwng gwahanol elfennau'r cyflwyniad, gan gynnwys ymatebion cyd-destunol, ymarferol ac ysgrifenedig, a chyflwyno gwaith sy'n ystyrlon ac mewn trefn sydd yn hawdd ei dilyn.
- Ystyriaeth wedi'i rhoi i ffurfiau gwahanol o gyflwyno a dewis yr un fwyaf priodol o'r rhain ar gyfer y cyflwyniad. Dylid rhoi sylw dyledus i bwrpas y gwaith a sut i wneud iddo edrych yn ddiddorol, er enghraifft, arddangos canlyniad celf, canlyniad crefft a chanlyniad dylunio sydd wedi'u datblygu o thema gyffredin, ynghyd â rhaglen yn seiliedig ar sgrin o ddeunydd gweledol a thestun.

UG Uned 1**ARWEINIAD: CYNNWYS A AWGRYMRIR AR GYFER CELF A DYLLUNIO (CELFYDDYD GAIN)**

SYLWER: Nid oes angen glynu wrth y cynnwys hwn ond mae disgwyl i ddysgwyr roi ystyriaeth i'r agweddau y cyfeirir atynt isod. Caiff pob cyflwyniad ei asesu yn ôl ei deilyngdod yn unol â'r cynllun marcio generig sy'n seiliedig ar y pedwar amcan asesu. Mae'r cynnwys hwn yn cynnig arweiniad pellach i athrawon.

Gall Celfyddyd Gain fod yn wahanol oherwydd y pwyslais mae'n ei roi ar bwrpasau esthetig a deallusol yn hytrach nag ar ystyriaethau ymarferol, swyddogaethol ac iwtilitaraidd. Mae'r opsiwn hwn yn cwmpasu maes eang o astudiaeth sy'n datblygu ac mae'n cynnwys peintio, lluniadu, cerameg, cerflunwaith, gosodwaith, celf perfformiad a chysyniadol ac agweddau ar wneud printiau, ffotograffiaeth a ffilm. Mae'n defnyddio cyfryngau a phrosesau traddodiadol, newydd a rhai sy'n datblygu ac yn cynnwys defnydd mynegiannol o amrediad arbennig o eang o ddefnyddiau, technegau a sgiliau.

Dylai'r gwaith a gyflwynir ar gyfer Celf a Dylunio (Celfyddyd Gain) anelu at gynnwys tystiolaeth o'r canlynol er mwyn bodloni gofynion asesu.

AA1 Dealltwriaeth gyd-destunol

- Datblygu syniadau sy'n seiliedig ar astudiaeth gyd-destunol o gelfyddyd gain a ffynonellau eraill fel pensaernïaeth, dylunio cynhyrchiad a lle celfyddyd gain yn y rhain.
- Ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth o brosesau a chanlyniadau celfyddyd gain a'r gwahaniaeth rhwng dulliau mynegiannol a dulliau swyddogaethol.
- Sgil dadansoddol a dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol wrth gymharu a chyferbynnu gwaith artistiaid cain perthnasol a ffynonellau cyd-destunol eraill ac wrth werthuso gwaith personol.

AA2 Gwneud creadigol

- Dethol ac arbrofi gydag amrediad eang o gyfryngau a phrosesau celfyddyd gain, gan arfer rheolaeth ar y rhain i uchafu potensial creadigol.
- Archwilio adnoddau ysgogol i gychwyn a datblygu syniadau gwreiddiol, gyda sylw dyledus i linell, tŵn, lliw, gwead ac elfennau gweledol eraill, yn enwedig cyfansoddiad. Perthnasoedd clir rhwng dulliau gweithio a chanlyniadau. Dylid dogfennu pob cam arwyddocaol yn y broses creadigol, gan gynnwys cam olaf ond un y datblygu er mwyn sicrhau nad yw'r canlyniadau terfynol yn ymddangos yn ddisymwth.
- Dylid dangos gwahaniaethu wrth adolygu a mireinio syniadau wrth i'r gwaith ddatblygu. Rheolaeth ofalus o ran rhoi sylw i fanylder, er enghraifft, darlunio adeiledd anatomegol wrth bortreadu'r ffurf ddynol, er mwyn cynhyrchu canlyniadau gorffenedig o safon.

AA3 Cofnodi myfyriol

- Casglu, dewis, trefnu a chyfathrebu gwybodaeth berthnasol wrth ymgymryd ag ymchwil i ffynonellau cyfeirio gweledol a chyffyrddol. Rhoi sylw dyledus i ddewis ffynonellau ymholi priodol a dadansoddi'r rhain er mwyn cael manylion llawn gwybodaeth.
- Cofnodi, trwy luniadu a ffyrdd addas eraill, fel nodiadau lliw, tonyddol a gweadeddol, ffotograffau ac anodi mewn llyfrau braslunio ac ar daflenni astudio, syniadau, arsylwadau a mewnwediadau sydd yn unol â bwriadau personol.
- Myfyrio beirniadol ar y gwaith a'r cynnydd er mwyn adolygu beth sydd wedi cael ei ddysgu, meithrin dealltwriaeth ac egluro pwrpasau ac ystyron.

AA4 Cyflwyno personol

- Cyflwyno ymatebion creadigol sydd yn bersonol ac yn gwireddu'r bwriadau a nodwyd, fel triptych yn cynnwys printiau arwyneb, ffotograffau arbrofol a phortreadau wedi'u peintio yn darlunio cyfnodau ym mywyd aelod o'r teulu.
- Gwneud cysylltiadau, lle bo'n briodol, rhwng gwahanol elfennau'r cyflwyniad, gan gynnwys ymatebion cyd-destunol, ymarferol ac ysgrifenedig, a chyflwyno gwaith sy'n ystyrlon ac mewn trefn sydd yn hawdd ei dilyn.
- Ystyriaeth wedi'i rhoi i ffurfiau gwahanol o gyflwyno a dewis yr un fwyaf priodol o'r rhain ar gyfer y cyflwyniad, gan roi sylw dyledus i bwrpas y gwaith a sut i wneud iddo edrych yn ddiddorol.

UG Uned 1

ARWEINIAD: CYNNWYS A AWGRYMR AR GYFER CELF A DYLUNIO (ASTUDIAETHAU BEIRNIADOL A CHYD-DESTUNOL)

SYLWER: Nid oes angen glynu wrth y cynnwys hwn ond mae disgwyl i ddysgwyr roi ystyriaeth i'r agweddau y cyfeirir atynt isod. Caiff pob cyflwyniad ei asesu yn ôl ei deilyngdod yn unol â'r cynllun marcio generig sy'n seiliedig ar y pedwar amcan asesu. Mae'r cynnwys hwn yn cynnig arweiniad pellach i athrawon.

Mae Astudiaethau Beirniadol a Chyd-destunol yn opsiwn unigryw gan ei fod yn galluogi dysgwyr i ddatblygu cyfleoedd arloesol i feithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau beirniadol, cyd-destunol a churadurol wrth werthfawrogi arteffactau, testunau a delweddau o fewn amgylcheddau diwylliannol penodol, ochr yn ochr ag ymchwiliadau ymarferol perthnasol. Mae'r opsiwn yn cynnig amrediad eang o brofiadau dysgu deallusol ac ymarferol trwy amrywiaeth o strategaethau bywiog a chreadigol ar gyfer datblygu a chyflwyno ymatebion personol, ymarferol, beirniadol a chyd-destunol. Gallai'r rhain gynnwys amrywiaeth eang o ganlyniadau ymarferol sy'n arddangos dealltwriaeth o, er enghraifft, waith artist, mudiad neu thema, drwy, er enghraifft, dyfeisio cyflwyniad clyweledol, datblygu arddangosfa addysgiadol wedi'i anodi, dylunio adnoddau dysgu, a thrwy amrywiaeth o destunau darluniadol wedi'u hysgrifennu mewn ffurfiau gwahanol at amrywiol bwrpasau. Gallai'r rhain fod ar ffurf arweinyfrau ar gyfer orielau, pamffledi arddangosfa, tudalennau cylchgrawn, erthyglau papur newydd, sgriptiau rhaglenni dogfen ar y teledu neu drafodaethau neu ddeialog ffeithiol neu ffuglennol rhwng artistiaid, crefftwyr neu ddylunwyr gan ddefnyddio amrywiaeth o dulliau cyfathrebu. Mae'n hanfodol pwysleisio bod yr opsiwn hwn yn wahanol i ddulliau traddodiadol o ymdrin â hanes celf, a bod gofyn i'r dysgwyr ddarparu tystiolaeth o gyflawniad ar draws y pedwar amcan asesu.

Dylai'r gwaith a gyflwynir ar gyfer Celf a Dylunio (Astudiaethau Beirniadol a Chyd-destunol) anelu at gynnwys tystiolaeth o'r canlynol er mwyn bodloni gofynion asesu.

AA1 Dealltwriaeth gyd-destunol

- Datblygu syniadau sy'n seiliedig ar astudiaeth gyd-destunol o gelf, crefft a dylunio a ffynonellau eraill, gan ddangos dealltwriaeth o sut mae arteffactau a delweddau yn adlewyrchu amser a lleoliad eu cynhyrchu.
- Ymwybyddiaeth o amrywiaeth eang o waith sydd wedi'i chynhyrchu gan artistiaid, crefftwyr a dylunwyr, y berthynas rhwng eu disgyblaethau a'r gwahaniaethau yn eu dulliau a'u hymagweddau.
- Sgil dadansoddol a dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol wrth gymharu a chyferbynnu gwaith artistiaid, crefftwyr a dylunwyr perthnasol a ffynonellau cyd-destunol eraill ac wrth werthuso canlyniadau personol.

AA2 Gwneud creadigol

- Dethol ac archwilio'n bwrpasol amrediad eang priodol o gyfryngau, defnyddiau a thechnegau, testunau beirniadol a chyd-destunol, themâu, cyfnodau, mudiadau ac arddulliau a'r ffyrdd mae syniadau a chredoau wedi dylanwadu ar gelf, crefft a dylunio.
- Ymchwilio i adnoddau ysgogol gan gynnwys ffynonellau gweledol a chyffyrddol, cyflwyniadau artistiaid, rhaglenni celf ar y radio a'r teledu, adolygiadau mewn papurau newydd, cyhoeddiadau a defnydd detholus o'r Rhyngwlad. Lle bo'n bosibl, dylid gweld enghreifftiau hanesyddol a chyfoes yn uniongyrchol ac artistiaid, crefftwyr a dylunwyr wrth eu gwaith.
- Dylid dangos gwahaniaethu wrth adolygu a mireinio syniadau wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen. Rheolaeth fedrus wrth ddehongli a chyfleu barnau am ddelweddau, gwrthrychau ac arteffactau er mwyn cynhyrchu canlyniadau o safon.

AA3 Cofnodi myfyriol

- Casglu, dewis, trefnu a chyfathrebu gwybodaeth berthnasol wrth ymgymryd ag ymchwil i ffynonellau cyfeirio priodol, gan ddangos chwilfrydedd a diddordebau a barnau personol. Rhoi sylw dyledus i ddewis ffynonellau ymholi priodol a dadansoddi'r rhain er mwyn cael manylion llawn gwybodaeth.
- Cofnodi, trwy amrywiaeth o ffyrdd addas, fel nodiadau ysgrifenedig, brasluniau, nodiadau lliw, tonyddol a gwadeddol, ffotograffau ac anodi mewn llyfrau gwaith a llyfrau braslunio ac ar daflenni astudio, syniadau, arsylwadau a mewnwelediadau sydd yn unol â bwriadau personol.
- Myfyrio beirniadol ar gynydd y gwaith er mwyn adolygu beth sydd wedi cael ei ddysgu, gan ddangos dealltwriaeth ddyfnach ac egluro pwrpasau. Y gallu i drosglwyddo dysgu i gyd-destun newydd, er enghraifft, addasu disgrifiad ysgrifenedig a darluniadol o fywyd a gwaith artist lleol i lunio sgript rhaglen ddogfen ar gyfer y teledu.

AA4 Cyflwyno personol

- Cyflwyno ymatebion gwreiddiol sydd yn eu hanfod yn bersonol ac yn gwireddu'r bwriadau a nodwyd, er enghraifft, cyfres o lythyrau dychmygol rhwng arlunydd tirluniau a ffotograffydd tirwedd lle maent yn cymharu'r gwahaniaethau yn eu dulliau, mewn geiriau a delweddau.
- Gwneud cysylltiadau clir, lle bo'n briodol, rhwng gwahanol elfennau'r cyflwyniad, gan gynnwys ymatebion cyd-destunol, ymarferol ac ysgrifenedig, a chyflwyno gwaith sy'n ystyrlon ac mewn trefn sydd yn hawdd ei dilyn.
- Ystyriaeth wedi'i rhoi i ffurfiau gwahanol o gyflwyno a dewis yr un fwyaf priodol o'r rhain ar gyfer y cyflwyniad, gan roi sylw dyledus i bwrpas y gwaith a sut i wneud iddo edrych yn ddiddorol ar gyfer cynulleidfa, er enghraifft, cynhyrchu pecyn adnoddau oriel ar gyfer dysgwyr CA3.

UG Uned 1**ARWEINIAD: CYNNWYS A AWGRYMRIR AR GYFER CELF A DYLUNIO (DYLUNIO TECSTILAU)**

SYLWER: Nid oes angen glynw wrth y cynnwys hwn ond mae disgwyl i ddysgwyr roi ystyriaeth i'r agweddau y cyfeirir atynt isod. Caiff pob cyflwyniad ei asesu yn ôl ei deilyngdod yn unol â'r cynllun marcio generig sy'n seiliedig ar y pedwar amcan asesu.

Mae'r cynnwys hwn yn cynnig arweiniad pellach i athrawon.

Mae Dylunio Tecstilau yn cwmpasu amrediad eang iawn o ddefnyddiau, technegau a phrosesau, gan gynnwys nifer cynyddol o ddulliau rhyngddisgyblaethol. Mae'r rhain yn cynnwys dulliau wedi'u gwehyddu, wedi'u brodio, wedi'u gwau, wedi'u printio, wedi'u peintio, wedi'u llifo, wedi'u trin ac wedi'u haddurno a dulliau saerïol a ddefnyddir i gynhyrchu amrywiaeth fawr o ganlyniadau tecstilau sy'n cynnwys dylunio costiwrm a ffasiwm, cyfwisgoedd ac addurniadau corff. Mae'r amrediad yn cynyddu wrth i ddefnyddiau a thechnolegau newydd ddatblygu.

Dylai'r gwaith a gyflwynir ar gyfer Celf a Dylunio (Dylunio Tecstilau) anelu at gynnwys tystiolaeth o'r canlynol er mwyn bodloni gofynion asesu.**AA1 Dealltwriaeth gyd-destunol**

- Datblygu syniadau sy'n seiliedig ar astudiaeth gyd-destunol o ddylunio tecstilau hanesyddol a chyfoes yn ein diwylliant ein hunain ac mewn diwylliannau eraill, yn ogystal â ffynonellau eraill fel celfyddyd gain, ffotograffiaeth a dylunio cynhyrchiad.
- Ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth o brosesau a chanlyniadau tecstil creadigol a dealltwriaeth o'r berthynas rhwng ystyriaethau swyddogaethol ac esthetig. Ymateb sensitif i faterion fel traddodiadau diwylliannol ac ailgylchu.
- Sgil dadansoddol a dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol wrth gymharu a chyferbynnu gwaith dylunwyr tecstilau perthnasol a ffynonellau cyd-destunol eraill ac wrth werthuso canlyniadau tecstil personol.

AA2 Gwneud creadigol

- Dethol ac arbrofi'n bwrpasol gydag amrediad o ddefnyddiau, prosesau a thechnegau tecstil, gan arfer rheolaeth addas ar y rhain i uchafu potensial creadigol. Gellir cynnwys manylion technegol, ond dylent gael eu dethol yn ofalus a bod yn gryno. Ni ddylai ymddiddori mewn prosesau technegol neu brosesau crefft fod yn bwysicach na datblygu syniadau creadigol.
- Archwilio adnoddau ysgogol a ffynonellau gweledol a chyffyrddol cyfoethog i gychwyn a datblygu syniadau gwreiddiol, gyda sylw dyledus i linell, lliw, patrwm, gwead ac elfennau gweledol eraill, yn enwedig ffurf. Sefydli'r perthnasoedd clir rhwng dulliau gweithio a chanlyniadau. Dylid dogfennu pob cam arwyddocaol yn y broses creadigol, a rhoi sylw dyledus i gam olaf ond un y datblygu er mwyn sicrhau nad yw'r canlyniadau terfynol yn ymddangos yn ddisymwth.
- Dylid dangos gwahaniaethu wrth adolygu syniadau wrth i'r gwaith ddatblygu. Arferir rheolaeth ofalus wrth fireinio manylion, er enghraifft, dylunio a chynhyrchu nodweddion addurniadol, er mwyn cynhyrchu canlyniadau gorffenedig o safon.

AA3 Cofnodi myfyriol

- Casglu, dewis, trefnu a chyfathrebu gwybodaeth berthnasol wrth astudio ffynonellau cyfeirio gweledol a chyffyrddol, gan ddangos diddordebau a barnau personol. Rhoi sylw dyledus i ddewis ffynonellau ymholi priodol a dadansoddi'r rhain er mwyn cael manylion llawn gwybodaeth.
- Cofnodi mewn llyfrau braslunio, llyfrau gwaith ac ar daflenni astudio arsylwadau a mewnwelediadau sydd yn unol â bwriadau personol, fel nodiadau lliw, patrwm a gweadeddol. Gellir gwneud hyn trwy luniadau, gwneud marciau a dulliau addas eraill fel ffotograffau a sylwebaeth ddadansoddol.
- Myfyrio beirniadol ar y gwaith a'r cynnydd er mwyn adolygu'n effeithiol beth sydd wedi cael ei ddysgu, meithrin dealltwriaeth ddyfnach ac egluro pwrpasau ac ystyron.

AA4 Cyflwyno personol

- Cyflwyno ymatebion gwreiddiol sydd yn eu hanfod yn bersonol ac yn gwireddu'r bwriadau a nodwyd, fel paneli appliqué wedi'u brodio â pheiriant ar gyfer tŷ newydd ffrind agos.
- Gwneud cysylltiadau, lle bo'n briodol, rhwng gwahanol elfennau'r cyflwyniad, gan gynnwys ymatebion cyd-destunol, ymarferol ac ysgrifenedig, a chyflwyno gwaith sy'n ystyrlon, gwybodus ac mewn trefn sydd yn hawdd ei dilyn.
- Ystyriaeth wedi'i rhoi i ffurfiau gwahanol o gyflwyno, er enghraifft, trwy sesiwn tynnu lluniau mewn stiwdio o gostiwrm theatrig, neu frasluniau o'r cynnyrch tecstil mewn sefyllfa addas. Dewis yr un fwyaf priodol o'r rhain ar gyfer y cyflwyniad, gan roi sylw dyledus i bwrpas y gwaith a sut i wneud iddo edrych yn ddiddorol ar gyfer cynulleidfa. Nid yw bob amser yn angenrheidiol i gynhyrchu eitemau neu ddiillad gorffenedig ond dylent fod yn ddigon cyflawn i ddangos y gellid dod â hwy i ddatrysiaid terfynol.

UG Uned 1**ARWEINIAD: CYNNWYS A AWGRYMR AR GYFER CELF A DYLUNIO (CYFATHREBU GRAFFIG)**

SYLWER: Nid oes angen glynu wrth y cynnwys hwn ond mae disgwyl i ddysgwyr roi ystyriaeth i'r agweddau y cyfeirir atynt isod. Caiff pob cyflwyniad ei asesu yn ôl ei deilyngdod yn unol â'r cynllun marcio generig sy'n seiliedig ar y pedwar amcan asesu.

Mae'r cynnwys hwn yn cynnig arweiniad pellach i athrawon.

Gellir diffinio Cyfathrebu Graffig fel y broses lle mae syniadau'n cael eu mynegi trwy'r defnydd o symbolau, lluniadau, ffotograffau a theipograffeg i gyfleu cysyniadau a/neu emosiynau. Mae'r opsiwn hwn yn cwmpasu maes astudiaeth eang sy'n datblygu, gan ymgorffori amrywiaeth o ddisgyblaethau perthnasol a defnyddio sgiliau traddodiadol, fel caligraffi a llythrennu wedi'i greu â llaw, ochr yn ochr â thechnolegau digidol arloesol. Mae'r ffiniau rhwng prosesau graffigol perthynol yn mynd yn fwyfwy aneglur ond mae agweddau fel hysbysebu, dylunio pecynnau, gemau cyfrifiadurol, dylunio gwe ac amlgyfrwng, darlunio a theipograffeg yn rhoi amcan o beth y gellid ymdrin ag ef yn yr opsiwn. Gall Cyfathrebu Graffig hefyd gael ei gysylltu'n agos ag animeiddio, pensaernïaeth, ffotograffiaeth a dylunio ar gyfer print. Gall canlyniadau fod yn ddau ddimensiwn neu'n dri dimensiwn, a gallant fod ar ffurf posteri, taflenni, crysau T, cloriau CD/DVD, cloriau llyfrau, tudalennau cylchgrawn, calendrau, stampiau, pecynnu, deunydd cyhoeddusrwydd, lifrai cerbyd, byrddau poster, hysbysebu, logos, brandio, hunaniaeth gorfforaethol, a dylunio arddangosfeydd a phwyntiau talu tri dimensiwn.

Dylai'r gwaith a gyflwynir ar gyfer Celf a Dylunio (Cyfathrebu Graffig) anelu at gynnwys tystiolaeth o'r canlynol er mwyn bodloni gofynion asesu.

AA1 Dealltwriaeth gyd-destunol

- Datblygu syniadau sy'n seiliedig ar astudiaeth gyd-destunol o ddylunio graffig ddoe a heddiw yn ogystal â ffynonellau eraill fel celfyddyd gain, dylunio cynnyrch a chyfryngau wedi'u cyhoeddi.
- Ymwybyddiaeth o'r materion sy'n dylanwadu ar bwrsasau, ystyron a chyd-destunau dylunio graffig, fel ystyriaethau moesegol a chadwraethol, prosesau reprograffig a chynhyrchu cylchgronau.
- Sgîl dadansoddiol a dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol wrth gymharu a chyferbynnu gwaith dylunwyr graffig perthnasol a ffynonellau cyd-destunol eraill ac wrth werthuso prosesau a chanlyniadau dylunio personol.

AA2 Gwneud creadigol

- Dethol ac arbrofi'n bwrsasol gyda chyfryngau a phrosesau dylunio graffig priodol, a defnydd dan reolaeth o deipograffeg a delweddau o ffynonellau cynradd ac eilaidd, gan gynnwys trin bwrsasol gan ddefnyddio meddalwedd ddigidol. Gellir cynnwys manylion technegol, ond dylent gael eu dethol yn ofalus a bod yn gryno. Ni ddylai ymddiddori mewn prosesau technegol fod yn bwysicach na datblygu syniadau creadigol.
- Archwilio adnoddau a ffynonellau stiwdio ac amgylcheddol i ddatblygu syniadau gwreiddiol, gan roi sylw dyledus i gyfansoddiad a gosodiad, cyfrannedd, llinell, tön, lliw, gwriad ac elfennau gweledol eraill. Dylid archwilio potensial cyfathrebu graffig drwy arbrofi gyda thechnolegau sydd wedi'u sefydlu'n barod a thechnolegau sy'n datblygu. Dylid dogfennu pob cam arwyddocaol yn y broses creadigol, a rhoi sylw dyledus i gam olaf ond un y datblygu er mwyn sicrhau nad yw'r canlyniadau terfynol yn ymddangos yn ddisymwth.
- Dylid dangos gwahaniaethu wrth adolygu syniadau wrth i'r gwaith ddatblygu. Arferir rheolaeth ofalus wrth fireinio manylion, fel dewis ffontiau, y berthynas rhwng teipograffeg a delweddau, a dewis proses reprograffig addas, er mwyn cynhyrchu canlyniadau o safon.

AA3 Cofnodi myfyriol

© WJEC CBAC Cyf.

- Casglu, dewis, trefnu a chyfathrebu gwybodaeth berthnasol wrth ymgymryd ag ymchwil i ffynonellau cyfeirio gweledol a ffynonellau eraill. Rhoi sylw dyledus i ddewis y delweddau mwyaf addas, a dadansoddi ac anodi'r rhain, yn hytrach, er enghraifft, na chynnwys llawer o brintiau bawd heb unrhyw sylwadau gwerthusol.
- Cofnodi, trwy luniadu, ffotograffau a ffyrdd eraill, fel brasluniau gosod, byrddau stori a nodiadau ysgrifenedig, syniadau, arsylwadau a mewnwlediadau sydd yn berthnasol i fwriadau personol.
- Myfyrio beirniadol ar y gwaith a'r cynnydd er mwyn adolygu beth sydd wedi cael ei ddysgu, meithrin dealltwriaeth ddyfnach ac egluro pwrpas ac ystyr.

AA4 Cyflwyno personol

- Cyflwyno ymatebion creadigol sydd yn eu hanfod yn bersonol, yn gwireddu'r bwriadau a nodwyd yn effeithiol ac yn cyflawni'r gofynion dylunio.
- Gwneud cysylltiadau pendant, lle bo'n briodol, rhwng gwahanol elfennau'r cyflwyniad, gan gynnwys ymatebion cyd-destunol, ymarferol ac ysgrifenedig, a chyflwyno gwaith sy'n ystyrlon, gwybodus ac mewn trefn sydd yn hawdd ei dilyn.
- Ystyriaeth wedi'i rhoi i ffurfiau gwahanol o gyflwyno, fel hysbysebu ar gludiant cyhoeddus neu bosteri mewn llochesi bysiau, a dewis yr un fwyaf priodol o'r rhain ar gyfer y cyflwyniad, gan roi sylw dyledus i bwrsas y gwaith a sut i wneud iddo edrych yn ddiddorol. Os yw maint print neu gost printio fformat ffafriedig yn gyfyngiad, yna gellir ei luniadu, ei ddisgrifio a/neu ei gyflwyno fel model wrth raddfa.

UG Uned 1

ARWEINIAD: CYNNWYS A AWGRYMR AR GYFER CELF A DYLUONIO (DYLUONIO TRI DIMENSIWN)

SYLWER: Nid oes angen glynu wrth y cynnwys hwn ond mae disgwyl i ddysgwyr roi ystyriaeth i'r agweddau y cyfeirir atynt isod. Caiff pob cyflwyniad ei asesu yn ôl ei deilyngdod yn unol â'r cynllun marcio generig sy'n seiliedig ar y pedwar amcan asesu.

Mae'r cynnwys hwn yn cynnig arweiniad pellach i athrawon.

Mae Dylunio Tri Dimensiwn yn wahanol yn yr opsiwn hwn oherwydd y pwyslais sydd yn cael ei roi ar ystyriaethau swyddogaethol ac iwtilitaraidd o'i gymharu â'r canlyniadau tri dimensiwn sy'n cael eu cynhyrchu mewn disgyblaethau eraill, fel cerflunwaith mewn Celfyddyd Gain, lle mae'n debyg y byddai'r bwriadau'n seiliedig ar briodweddau esthetig ffurf fynegiannol. Mae Dylunio Tri Dimensiwn yn cwmpasu amrediad o weithgareddau arbennig o eang, o emwaith ac addurniadau corff i ddylunio pensaernïol ac amgylcheddol. Mae agweddau eraill yn cynnwys cerameg swyddogaethol, dylunio cynhyrchu, dylunio mewnol ac arddangosfeydd, dylunio theatr a dylunio cynhyrchiad gan gynnwys ffilm a theledu. Gellir cynnwys agweddau ar grefft hefyd, fel dylunio ac adeiladu pypedau, gwneud teganau, ac eitemau unigol o ddodrefn sy'n ymwneud ag ymarferoldeb a sgiliau llaw yn ogystal â phriodweddau esthetig.

Dylai'r gwaith a gyflwynir ar gyfer Celf a Dylunio (Dylunio Tri Dimensiwn) anelu at gynnwys tystiolaeth o'r canlynol er mwyn bodloni gofynion asesu.

AA1 Dealltwriaeth gyd-destunol

- Datblygu syniadau sy'n seiliedig ar astudiaeth gyd-destunol o ddylunio tri dimensiwn ddoe a heddiw yn ein diwylliant ein hunain ac mewn diwylliannau eraill, yn ogystal â ffynonellau fel celfyddyd gain, ffilm a theledu, a thecstilau.
- Ymwbyddiaeth o'r amrywiaeth o ffactorau sy'n dylanwadu ar bwrpasau, ystyron a chyd-destunau dylunio tri dimensiwn fel ffactorau ergonomig, ystyriaethau economaidd, dulliau cynhyrchu a'r meini prawf ymarferol ar gyfer lle penodol. Gwybodaeth berthnasol o drefniadau gweithio lle mae canlyniadau tri dimensiwn penodol yn cael eu cynhyrchu, fel cynhyrchu set ar gyfer drama. Dealltwriaeth bod y rhan fwyaf o ddylunwyr yn y bôn yn ymatebol ac yn barod i gydweithio.
- Sgîl dadansodol a dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol wrth gymharu a chyferbynnu gwaith dylunwyr tri dimensiwn perthnasol a ffynonellau cyd-destunol eraill ac wrth werthuso'n ffurfiannol a chrynodol brosesau a chanlyniadau dylunio personol. Ymatebion personol i ddelweddau ysbrydoledig yn hytrach na chynhyrchu byrddau hwyliu wedi'u copïo a'u gludo.

AA2 Gwneud creadigol

- Dethol ac arbrofi gyda phrosesau a defnyddiau dylunio tri dimensiwn priodol, fel pren, clai, plastig, metel, cerdyn a phapur, gan ddefnyddio offer a chyfarpar addas yn ofalus a diogel. Gellir cynnwys manylion technegol, ond dylent gael eu dethol yn ofalus a bod yn gryno. Ni ddylai ymddiddori mewn prosesau technegol fod yn bwysicach na datblygu syniadau creadigol.
- Archwilio adnoddau ysgogol a ffynonellau gweithdy ac amgylcheddol i ddatblygu syniadau gwreiddiol, gan roi sylw dyledus i'r defnydd sydd i gael ei wneud o'r canlyniad arfaethedig, ei arwynebedd, adeiladwaith, gwead, lliw, ffurf, graddfa a chryfder ac elfennau tri dimensiwn eraill. Dylid archwilio potensial agweddau penodol ar ddylunio tri dimensiwn trwy arbrofi gyda thechnolegau sydd wedi'u sefydlu'n barod a thechnolegau sy'n datblygu. Dylid dogfennu pob cam arwyddocaol yn y broses creadigol, a rhoi sylw arbennig i'r cam olaf ond un, er mwyn sicrhau nad yw'r canlyniadau terfynol yn ymddangos yn ddisymwth.
- Dylid dangos gwahaniaethu wrth adolygu a mireinio syniadau wrth i'r gwaith ddatblygu. Arferir rheolaeth ofalus o ran rhoi sylw i fanylder, fel cysylltiadau cydrannau wedi'u ffurfio'n dda, rhannau gweithio sydd yn gweithio, gorffeniad arwyneb ac ymddangosiad esthetig, er mwyn cynhyrchu canlyniadau o safon.

AA3 Cofnodi myfyriol

- Casglu, dewis, trefnu a chyfathrebu gwybodaeth berthnasol wrth astudio ffynonellau cyfeirio tri dimensiwn, gweledol a chyffwrddol a ffynonellau eraill. Sylw dyledus wedi'i roi i ddadansoddi'r posibilïadau dylunio mwyaf priodol a'r datrysiadau mwyaf priodol i broblemau.
- Cofnodi, trwy frasluniau, lluniadau persbectif, lluniadau technegol â llaw a CAD, ffotograffau, nodiadau ysgrifenedig a ffyrdd eraill, syniadau, arsylwadau a mewnwelediadau sydd yn berthnasol i fwradau personol.
- Myfyrio beirniadol ar y gwaith a'r cynnydd er mwyn adolygu beth sydd wedi cael ei ddysgu, meithrin dealltwriaeth ddyfnach, egluro pwrpas a, lle bo'n briodol, trosglwyddo dysgu i gyd-destun newydd, er enghraifft, o'r llwyfan i'r sgrin.

AA4 Cyflwyno personol

- Cyflwyno ymatebion creadigol sydd yn eu hanfod yn ddatrysiadau personol i ofynion dylunio ac sydd yn gwireddu'r bwriadau a nodwyd yn effeithiol gyda thystiolaeth o chwilyrdded ac ymrwymiad personol.
- Gwneud cysylltiadau pendant, lle bo'n briodol, rhwng gwahanol elfennau'r cyflwyniad, gan gynnwys ymatebion cyd-destunol, ymarferol ac ysgrifenedig, gan gyflwyno gwaith mewn trefn sydd yn hawdd ei dilyn.
- Ystyriaeth wedi'i rhoi i ffurfiau gwahanol o gyflwyno, fel taflenni dylunio a rhaglen glyweledol, a dewis yr un fwyaf priodol o'r rhain ar gyfer y cyflwyniad. Dylid rhoi sylw dyledus i bwrpas y gwaith a sut i wneud iddo edrych yn ddiddorol. Os yw cost y ffurf fwyaf addas yn gyfyngiad, yna gellir ei lluniadu, ei disgrifio a/neu ei chyflwyno gan ddefnyddio defnyddiau rhatach. Gall canlyniadau fod ar ffurf darnau terfynol, prototeipiau, a modelau maint llawn neu wrth raddfa. Gallant fod yn ddarnau unigryw neu'n addas ar gyfer cynhyrchu swp bach neu fasgynhyrchu.

UG Uned 1

ARWEINIAD: CYNNWYS A AWGRYMR AR GYFER CELF A DYLUNIO (FFOTOGRAFFIAETH)

SYLWER: Nid oes angen glynu wrth y cynnwys hwn ond mae disgwyl i ddysgwyr roi ystyriaeth i'r agweddau y cyfeirir atynt isod. Caiff pob cyflwyniad ei asesu yn ôl ei deilyngdod yn unol â'r cynllun marcio generig sy'n seiliedig ar y pedwar amcan asesu. Mae'r cynnwys hwn yn cynnig arweiniad pellach i athrawon.

Mae'r opsiwn hwn yn cwmpasu maes astudiaeth eang sydd yn newid o hyd, gan edrych ar ddelweddau yn seiliedig ar olau dros gyfnod o ddwy ganrif bron. Gallai dysgwyr edrych ar ddelweddau cynnar yn seiliedig ar olau a thechnoleg elfennol, fel camera twll pin, yn ogystal â'r rhai mwyaf cyfoes, a allai gynnwys y defnydd o gamerâu digidol, camcorders fideo, llungopiŵyr, sganwyr a ffonau symudol. Gallant hefyd weithio'n unig gyda thechnoleg yn seiliedig ar ffilm neu dechnoleg ddigidol, neu weithio gyda'r ddwy. Gall canlyniadau fod yn seiliedig ar sgrin neu ar brint, a chynnwys delweddau llonydd neu symudol, a gallant fod yn arwahanol i'r maes pwnc, neu wedi'u cyfuno â ffurfiau eraill ar gelf.

Dylai'r gwaith a gyflwynir ar gyfer Celf a Dylunio (Ffotograffiaeth) anelu at gynnwys tystiolaeth o'r canlynol er mwyn bodloni gofynion asesu.

AA1 Dealltwriaeth gyd-destunol

- Datblygu syniadau sy'n seiliedig ar astudiaeth gyd-destunol o ffynonellau ffotograffig ddoe a heddiw, yn ogystal â ffynonellau eraill fel ffilm, celfyddyd gain, dylunio graffig a chyfryngau wedi'u cyhoeddi, a lle ffotograffiaeth yn y rhain.
- Ymwbyddiaeth o'r materion sy'n dylanwadu ar bwrpasau, ystyron a chyd-destunau ffotograffiaeth ac o'r amrywiaeth o genres ffotograffig a ffilm a, lle bo'n briodol, cysylltu gwaith personol â genre penodol.
- Sgïl dadansoddol a dealltwriaeth feirmiadol a chyd-destunol wrth gymharu a chyferbynnu gwaith ffotograffwyr perthnasol a ffynonellau cyd-destunol eraill ac wrth werthuso'n ffurfiannol a chrynodol ganlyniadau ffotograffig personol.

AA2 Gwneud creadigol

- Dethol ac arbrofi gyda chyfryngau a phrosesau ffotograffig priodol, cyfryngau eraill a chyfuniadau o gyfryngau, gyda defnydd dan reolaeth o oleuo, cyflymder caead, agorfa, lensiau, hidlyddion a meddalwedd ddigidol. Gellir cynnwys manylion technegol, ond dylent gael eu dethol yn ofalus a bod yn gryno. Ni ddylai ymddiddori mewn prosesau technegol fod yn bwysicach na datblygu syniadau creadigol.
- Archwilio adnoddau ysgogol a ffynonellau stiwdio ac amgylcheddol i gychwyn a datblygu syniadau arloesol, gyda sylw dyledus i safbwynt, cyfansoddiad, llinell, tŵn, lliw, gwead, graddfa ac elfennau gweledol eraill. Dylid dogfennu pob cam arwyddocaol yn y broses creadigol. Dylid archwilio potensial llawn ffotograffiaeth trwy arbrofi gyda chyfryngau traddodiadol a digidol.
- Dylid dangos gwahaniaethu wrth adolygu syniadau wrth i'r gwaith ddatblygu. Arferir rheolaeth ofalus o ran rhoi sylw i fanylder, fel golygu, trin delwedd a chydrianiad print er mwyn cynhyrchu canlyniadau o safon.

AA3 Cofnodi myfyriol

- Casglu, dewis, trefnu a chyfathrebu gwybodaeth berthnasol wrth astudio ffynonellau cyfeirio gweledol a chyffyrddol. Rhoi sylw dyledus i ddewis y delweddau mwyaf arwyddocaol yn unig, a dadansoddi ac anodi'r rhain, yn hytrach na chynnwys llawer o brintiau bawd/printiau cyswllt heb unrhyw sylwadau gwerthusol.
- Cofnodi, trwy ffotograffiaeth a ffyrdd eraill, fel brasluniau, byrddau stori a nodiadau ysgrifenedig, syniadau, arsylwadau a mewnwediadau sydd yn berthnasol i fwriadau personol.
- Myfyrio beirmiadol ar y gwaith a'r cynnydd er mwyn adolygu beth sydd wedi cael ei ddysgu, meithrin dealltwriaeth ddyfnach ac egluro pwrpas ac ystyr.

AA4 Cyflwyno personol

- Cyflwyno ymatebion creadigol sydd yn eu hanfod yn bersonol ac sydd yn gwireddu'r bwriadau a nodwyd yn effeithiol, fel poster ffotograffig i gefnogi barn gadarn neu ddelweddau o adeiladweithiau pensaernïol wedi'u taflunio ar adeilad tri dimensiwn.
- Gwneud cysylltiadau pendant, lle bo'n briodol, rhwng gwahanol elfennau'r cyflwyniad, gan gynnwys ymatebion cyd-destunol, ymarferol ac ysgrifenedig, gan gyflwyno gwaith mewn trefn sydd yn hawdd ei dilyn.
- Ystyriaeth wedi'i rhoi i ffurfiau gwahanol o gyflwyno, fel dilyniannau wedi'u hanimeiddio a'r defnydd o gyfryngau cymysg, a dewis yr un fwyaf priodol o'r rhain ar gyfer y cyflwyniad, gan roi sylw dyledus i bwrpas y gwaith a sut i wneud iddo edrych yn ddiddorol. Os yw maint print neu gost printio fformat ffafriedig yn gyfyngiad, yna gellir ei luniadu, ei ddisgrifio a/neu ei gyflwyno fel model wrth raddfa.

ATODIAD CH - CYNLLUNIAU MARCIO A CHYNNWYS A AWGRYMIR U2

Cynllun Marcio ar gyfer CELF A DYLUNIO Safon Uwch		UNED 2: Ymchwiliad Personol = Cyfanswm o 160 Marc	
AA1	AA2	AA3	AA4
<i>Datblygu syniadau trwy ymchwiliadau dwys a manwl wedi'u cyfoethogi gan ffynonellau cyd-destunol a ffynonellau eraill, gan amlygu dealltwriaeth ddadansoddol a beirniadol.</i>	<i>Archwilio a dewis adnoddau, cyfryngau, defnyddiau, technegau a phrosesau priodol, gan adolygu a mireinio syniadau wrth i'r gwaith ddatblygu.</i>	<i>Cofnodi syniadau, arsylwadau a mewnwleidiadau sy'n berthnasol i'r bwriadau, gan fyfyrion feirniadol ar y gwaith a'r cynnydd.</i>	<i>Cyflwyno ymateb personol ac ystyrion sy'n gwireddu bwriadau a, lle bo'n briodol, yn gwneud cysylltiadau rhwng elfennau gweledol ac elfennau eraill.</i>
5	33 - 40	33 - 40	33 - 40
<p>Datblygu syniadau mewn ffordd soffistigedig a thrylwyr trwy ymchwiliadau dwys, manwl a chynhwysfawr cydlynol.</p> <p>Mae dadansoddi a gwerthuso beirniadol gweledol ac ysgrifenedig trylwyr a chraff yn cael ei gymhwyso at ffynonellau cyd-destunol a ffynonellau eraill hynod o berthnasol, gan gynnwys defnydd craff a thrwyadl o eirfa arbenigol briodol.</p> <p>Ymatebion a dehongliadau aeddfed a chynhwysfawr wedi'u cyfoethogi'n gyson gan ddealltwriaeth dda iawn o bwrpasau, ystyrion a chyd-destunau cysylltiedig.</p>	<p>Tystiolaeth soffistigedig o ddewis adnoddau, cyfryngau a phrosesau priodol.</p> <p>Caiff defnyddiau eu harchwilio'n drylwyr a hyderus a thechnegau eu rheoli'n hynod o fedrus i fanteisio'n llawn ar eu potensial creadigol.</p> <p>Sefydli'r perthnasoedd pwysig a chraff rhwng dulliau gweithio a chanlyniadau sy'n cael eu hadolygu'n barhaus a'u mireinio'n sensitif.</p>	<p>Gallu soffistigedig i gofnodi arsylwadau, profiadau, syniadau a mewnwleidiadau sy'n berthnasol i'r bwriadau yng nghyd-destun ymchwilio ac ymholi trylwyr a chydlynol.</p> <p>Dangosir myfyrio beirniadol craff, trylwyr ac effeithiol ar y gwaith a'r cynnydd.</p>	<p>Cyflwynir ymatebion hynod o ddychmygus, personol ac ystyrion, a gwireddir bwriadau mewn ffordd graff a chydlynol.</p> <p>Cysylltiadau pwysig a chraff rhwng elfennau gweledol, ysgrifenedig, llafar ac eraill, lle bo'n briodol, wedi'u cyfleu mewn ffordd hynod o argyhoeddiadol.</p>
4	25 - 32	25 - 32	25 - 32
<p>Datblygu syniadau'n drylwyr trwy ymchwiliadau dwys a manwl.</p> <p>Mae dadansoddi a gwerthuso beirniadol gweledol ac ysgrifenedig yn cael ei gymhwyso at ffynonellau cyd-destunol a ffynonellau eraill hynod o berthnasol, gan gynnwys defnydd trwyadl o eirfa arbenigol briodol.</p> <p>Mae ymatebion a dehongliadau cynhwysfawr wedi'u cyfoethogi gan ddealltwriaeth dda o bwrpasau, ystyrion a chyd-destunau.</p>	<p>Tystiolaeth dda o ddewis adnoddau, cyfryngau a phrosesau priodol.</p> <p>Archwilio defnyddiau'n hyderus a rheoli technegau'n fedrus i fanteisio ar eu potensial creadigol.</p> <p>Sefydli'r perthnasoedd o bwys rhwng syniadau, dulliau gweithio a chanlyniadau sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u mireinio'n briodol.</p>	<p>Gallu da i gofnodi arsylwadau, profiadau, syniadau a mewnwleidiadau sy'n berthnasol i'r bwriadau yng nghyd-destun ymchwilio ac ymholi trylwyr.</p> <p>Dangosir myfyrio beirniadol trylwyr ac effeithiol ar y gwaith a'r cynnydd.</p>	<p>Cyflwynir ymatebion dychmygus, personol ac ystyrion iawn, a gwireddir bwriadau mewn ffordd gymwys ac eglur iawn.</p> <p>Cysylltiadau o bwys rhwng elfennau gweledol, ysgrifenedig, llafar ac eraill, lle bo'n briodol, wedi'u cyfleu mewn ffordd argyhoeddiadol.</p>

	AA1	AA2	AA3	AA4
3	17 - 24	17 - 24	17 - 24	17 - 24
	<p>Datblygu syniadau'n weddol trwy ymchwiliadau sy'n ddwys ar y cyfan.</p> <p>Dadansoddi a gwerthuso beirniadol gweledol ac ysgrifenedig o ffynonellau cyd-destunol a ffynonellau eraill sy'n berthnasol ar y cyfan, gan gynnwys defnydd rhesymol o eirfa arbenigol.</p> <p>Ymatebion a dehongliadau wedi'u cyfoethogi ar y cyfan gan ddealltwriaeth o bwrpasau, ystyron a chyd-destunau.</p>	<p>Tystiolaeth resymol o ddewis adnoddau, cyfryngau a phrosesau priodol.</p> <p>Archwilir defnyddiau a rheolir technegau yn rhesymol i fanteisio ar eu potensial creadigol.</p> <p>Sefydli'r perthnasoedd rhwng dulliau gweithio a chanlyniadau sy'n cael eu hadolygu a'u mireinio'n rhesymol.</p>	<p>Peth gallu i gofnodi arsylwadau, profiadau, syniadau a mewnwleidiadau sy'n berthnasol i'r bwriadau yng nghyd-destun peth ymchwilio ac ymholi.</p> <p>Dangosir myfyrio beirniadol gweddol effeithiol ar y gwaith a'r cynnydd.</p>	<p>Cyflwynir ymatebion gweddol ddychmygus, personol ac ystyrion, a gwiredir bwriadau mewn ffordd foddhaol.</p> <p>Cysylltiadau perthnasol rhwng elfennau gweledol, ysgrifenedig, llafar ac eraill, lle bo'n briodol, wedi'u cyfleu mewn ffordd weddol argyhoeddiadol.</p>
2	9 - 16	9 - 16	9 - 16	9 - 16
	<p>Peth datblygu syniadau trwy ymchwiliadau, y mae rhai ohonynt yn ddwys.</p> <p>Peth dadansoddi a gwerthuso beirniadol gweledol ac ysgrifenedig o rai ffynonellau cyd-destunol perthnasol a ffynonellau perthnasol eraill, gan gynnwys peth defnydd o eirfa arbenigol.</p> <p>Mae ymatebion a dehongliadau weithiau wedi'u cyfoethogi gan ddealltwriaeth o bwrpasau, ystyron a chyd-destunau.</p>	<p>Peth dystiolaeth o ddewis adnoddau, cyfryngau a phrosesau, y mae rhai ohonynt yn briodol.</p> <p>Peth archwilio defnyddiau a rheolir technegau i fanteisio ar eu potensial creadigol.</p> <p>Gwneir cysylltiadau weithiau rhwng dulliau gweithio a chanlyniadau sy'n cael eu hadolygu weithiau a'u mireinio i ryw raddau.</p>	<p>Peth gallu i gofnodi arsylwadau, profiadau, syniadau a mewnwleidiadau sy'n berthnasol i'r bwriadau yng nghyd-destun peth ymchwilio ac ymholi.</p> <p>Dangosir peth myfyrio beirniadol ar y gwaith a'r cynnydd.</p>	<p>Peth gallu i gyflwyno ymatebion dychmygus, personol ac ystyrion, a gwiredir bwriadau mewn ffordd anghyson.</p> <p>Rhai cysylltiadau perthnasol rhwng elfennau gweledol, ysgrifenedig, llafar ac eraill, lle bo'n briodol, wedi'u cyfleu mewn ffordd rannol argyhoeddiadol.</p>
1	1 - 8	1 - 8	1 - 8	1 - 8
	<p>Datblygu syniadau cyfyngedig trwy ymchwiliadau.</p> <p>Dadansoddi a gwerthuso beirniadol gweledol ac ysgrifenedig cyfyngedig; defnydd cyfyngedig o eirfa arbenigol; prin iawn yw'r cyfeiriadau at ffynonellau cyd-destunol a ffynonellau eraill;</p> <p>Ymatebion a dehongliadau cyfyngedig wedi'u cyfoethogi'n rhannol gan ddealltwriaeth gyfyngedig o agweddau ar bwrpas, ystyr a chyd-destun.</p>	<p>Tystiolaeth gyfyngedig o ddewis adnoddau, cyfryngau a phrosesau, y mae nifer bach ohonynt yn briodol.</p> <p>Gwneir ymdrechion cyfyngedig i archwilio defnyddiau a rheolir technegau i fanteisio ar eu potensial creadigol.</p> <p>Gwneir cysylltiadau cyfyngedig rhwng dulliau gweithio a chanlyniadau sy'n cael eu hadolygu i ryw raddau a'u mireinio mewn ffordd gyfyngedig.</p>	<p>Gallu cyfyngedig i gofnodi arsylwadau, profiadau, syniadau a mewnwleidiadau sy'n berthnasol i'r bwriadau yng nghyd-destun ymchwilio ac ymholi cyfyngedig.</p> <p>Dangosir myfyrio beirniadol cyfyngedig ar y gwaith a'r cynnydd.</p>	<p>Gallu cyfyngedig i gyflwyno ymatebion dychmygus, personol ac ystyrion, a gwiredir bwriadau mewn ffordd gyfyngedig.</p> <p>Tystiolaeth gyfyngedig o gysylltiadau rhwng elfennau gweledol, ysgrifenedig, llafar ac eraill, lle bo'n briodol, wedi'u cyfleu mewn ffordd gyfyngedig.</p>
0	0 Nid yw'r ymateb yn teilyngu marciau neu ni roddwyd cynnig arno.	0 Nid yw'r ymateb yn teilyngu marciau neu ni roddwyd cynnig arno.	0 Nid yw'r ymateb yn teilyngu marciau neu ni roddwyd cynnig arno.	0 Nid yw'r ymateb yn teilyngu marciau neu ni roddwyd cynnig arno.
<p>Aseu ysgrifennu estynedig: rhaid cynnwys lleiafswm o 400 gair o ysgrifennu estynedig yn dystiolaeth ar gyfer AA1. <i>Gan ddibynnu ar natur yr ymchwiliad, gall dysgwyr ddewis defnyddio ysgrifennu estynedig wrth drafod AA2, AA3 a/neu AA4 (fel y bo'n briodol). Ar gyfer AA2, AA3 a/neu AA4, rhaid cyflwyno'r ysgrifennu estynedig mewn adrannau o leiafswm o 200 gair.</i> Pa bynnag ffurf a ddefnyddir ar gyfer ymatebion ysgrifenedig, mae'n ofynnol cael lleiafswm o 1000 gair ym mhob achos.</p>				

Cynllun Marcio ar gyfer CELF A DYLUNIO Safon Uwch		UNED 3 : Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol = Cyfanswm o 100 Marc		
	AA1	AA2	AA3	AA4
	<i>Datblygu syniadau trwy ymchwiliadau dwys a manwl wedi'u cyfoethogi gan ffynonellau cyd-destunol a ffynonellau eraill, gan amlygu dealltwriaeth ddadansodol a beirniadol.</i>	<i>Archwilio a dewis adnoddau, cyfryngau, defnyddiau, technegau a phrosesau priodol, gan adolygu a mireinio syniadau wrth i'r gwaith ddatblygu.</i>	<i>Cofnodi syniadau, arsylwadau a mewnwleidiadau sy'n berthnasol i'r bwriadau, gan fyfyrion feirniadol ar y gwaith a'r cynnydd.</i>	<i>Cyflwyno ymateb personol ac ystyrion sy'n gwireddu bwriadau a, lle bo'n briodol, yn gwneud cysylltiadau rhwng elfennau gweledol ac elfennau eraill.</i>
5	21 - 25	21 - 25	21 - 25	21 - 25
	Datblygu syniadau mewn ffordd soffistigedig a thrylwyr trwy ymchwiliadau dwys, manwl a chynhwysfawr cydlynol. Mae dadansoddi a gwerthuso beirniadol craff a thrylwyr yn cael ei gymhwyso at ffynonellau cyd-destunol a ffynonellau eraill hynod o berthnasol. Ymatebion a dehongliadau aeddfed a chynhwysfawr wedi'u cyfoethogi'n gyson gan ddealltwriaeth dda iawn o bwrpasau, ystyrion a chyd-destunau cysylltiedig.	Tystiolaeth soffistigedig o ddewis adnoddau, cyfryngau a phrosesau priodol. Caiff defnyddiau eu harchwilio'n drylwyr a hyderus a thechnegau eu rheoli'n hynod o fedrus i fanteisio'n llawn ar eu potensial creadigol. Sefydli'r perthnasoedd pwysig a chraff rhwng dulliau gweithio a chanlyniadau sy'n cael eu hadolygu'n barhaus a'u mireinio'n sensitif.	Gallu soffistigedig i gofnodi arsylwadau, profiadau, syniadau a mewnwleidiadau sy'n berthnasol i'r bwriadau yng nghyd-destun ymchwilio ac ymholi trylwyr a chydlynol. Dangosir myfyrion beirniadol craff, trylwyr ac effeithiol ar y gwaith a'r cynnydd.	Cyflwynir ymatebion hynod o ddychmygus, personol ac ystyrion, a gwireddir bwriadau mewn ffordd graff a chydlynol. Cysylltiadau pwysig a chraff rhwng elfennau gweledol, ysgrifenedig, llafar ac eraill, lle bo'n briodol, wedi'u cyfleu mewn ffordd hynod o argyhoeddiadol.
4	16 - 20	16 - 20	16 - 20	16 - 20
	Datblygu syniadau'n drylwyr trwy ymchwiliadau dwys a manwl. Mae dadansoddi a gwerthuso beirniadol trylwyr yn cael ei gymhwyso at ffynonellau cyd-destunol priodol a ffynonellau priodol eraill. Mae ymatebion a dehongliadau cynhwysfawr wedi'u cyfoethogi gan ddealltwriaeth dda o bwrpasau, ystyrion a chyd-destunau.	Tystiolaeth dda o ddewis adnoddau, cyfryngau a phrosesau priodol. Archwilio defnyddiau'n hyderus a rheoli technegau'n fedrus i fanteisio ar eu potensial creadigol. Sefydli'r perthnasoedd o bwys rhwng syniadau, dulliau gweithio a chanlyniadau sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u mireinio'n briodol.	Gallu da i gofnodi arsylwadau, profiadau, syniadau a mewnwleidiadau sy'n berthnasol i'r bwriadau yng nghyd-destun ymchwilio ac ymholi trylwyr. Dangosir myfyrion beirniadol trylwyr ac effeithiol ar y gwaith a'r cynnydd.	Cyflwynir ymatebion dychmygus, personol ac ystyrion iawn, a gwireddir bwriadau mewn ffordd gymwys ac eglur iawn. Cysylltiadau o bwys rhwng elfennau gweledol, ysgrifenedig, llafar ac eraill, lle bo'n briodol, wedi'u cyfleu mewn ffordd argyhoeddiadol.

	AA1	AA2	AA3	AA4
3	11 - 15	11 - 15	11 - 15	11 - 15
	<p>Datblygu syniadau'n weddol trwy ymchwiliadau sy'n ddwys ar y cyfan.</p> <p>Dadansoddi a gwerthuso beirniadol rhesymol o ffynonellau cyd-destunol a ffynonellau eraill sy'n berthnasol ar y cyfan.</p> <p>Ymatebion a dehongliadau wedi'u cyfoethogi ar y cyfan gan ddealltwriaeth o bwrpasau, ystyron a chyd-destunau.</p>	<p>Tystiolaeth resymol o ddewis adnoddau, cyfryngau a phrosesau priodol.</p> <p>Archwilir defnyddiau a rheolir technegau yn rhesymol i fanteisio ar eu potensial creadigol.</p> <p>Sefydlir perthnasoedd rhwng dulliau gweithio a chanlyniadau sy'n cael eu hadolygu a'u mireinio'n rhesymol.</p>	<p>Peth gallu i gofnodi arsylwadau, profiadau, syniadau a mewnwediadau sy'n berthnasol i'r bwriadau yng nghyd-destun peth ymchwilio ac ymholi.</p> <p>Dangosir myfyrio beirniadol gweddol effeithiol ar y gwaith a'r cynnydd.</p>	<p>Cyflwynir ymatebion gweddol ddychmygus, personol ac ystyrlon, a gwireddir bwriadau mewn ffordd foddhaol.</p> <p>Cysylltiadau perthnasol rhwng elfennau gweledol, ysgrifenedig, llafar ac eraill, lle bo'n briodol, wedi'u cyfleu mewn ffordd weddol argyhoeddiadol.</p>
2	6 - 10	6 - 10	6 - 10	6 - 10
	<p>Peth datblygu syniadau trwy ymchwiliadau, y mae rhai ohonynt yn ddwys.</p> <p>Peth dadansoddi a gwerthuso beirniadol o rai ffynonellau cyd-destunol perthnasol a ffynonellau perthnasol eraill.</p> <p>Mae ymatebion a dehongliadau weithiau wedi'u cyfoethogi gan ddealltwriaeth o bwrpasau, ystyron a chyd-destunau.</p>	<p>Peth dystiolaeth o ddewis adnoddau, cyfryngau a phrosesau, y mae rhai ohonynt yn briodol.</p> <p>Peth archwilio defnyddiau a rheoli technegau i fanteisio ar eu potensial creadigol.</p> <p>Gwneir cysylltiadau weithiau rhwng dulliau gweithio a chanlyniadau sy'n cael eu hadolygu weithiau a'u mireinio i ryw raddau.</p>	<p>Peth gallu i gofnodi arsylwadau, profiadau, syniadau a mewnwediadau sy'n berthnasol i'r bwriadau yng nghyd-destun peth ymchwilio ac ymholi.</p> <p>Dangosir peth myfyrio beirniadol ar y gwaith a'r cynnydd.</p>	<p>Peth gallu i gyflwyno ymatebion dychmygus, personol ac ystyrlon, a gwireddir bwriadau mewn ffordd anghyson.</p> <p>Rhai cysylltiadau perthnasol rhwng elfennau gweledol, ysgrifenedig, llafar ac eraill, lle bo'n briodol, wedi'u cyfleu mewn ffordd rannol argyhoeddiadol.</p>
1	1 - 5	1 - 5	1 - 5	1 - 5
	<p>Datblygu syniadau cyfyngedig trwy ymchwiliadau.</p> <p>Dadansoddi a gwerthuso beirniadol cyfyngedig; prin iawn yw'r cyfeiriadau at ffynonellau cyd-destunol a ffynonellau eraill.</p> <p>Ymatebion a dehongliadau cyfyngedig wedi'u cyfoethogi'n rhannol gan ddealltwriaeth gyfyngedig o agweddau ar bwrpas, ystyr a chyd-destun.</p>	<p>Tystiolaeth gyfyngedig o ddewis adnoddau, cyfryngau a phrosesau, y mae nifer bach ohonynt yn briodol.</p> <p>Gwneir ymdrechion cyfyngedig i archwilio defnyddiau a rheoli technegau i fanteisio ar eu potensial creadigol.</p> <p>Gwneir cysylltiadau cyfyngedig rhwng dulliau gweithio a chanlyniadau sy'n cael eu hadolygu i ryw raddau a'u mireinio mewn ffordd gyfyngedig.</p>	<p>Gallu cyfyngedig i gofnodi arsylwadau, profiadau, syniadau a mewnwediadau sy'n berthnasol i'r bwriadau yng nghyd-destun ymchwilio ac ymholi cyfyngedig.</p> <p>Dangosir myfyrio beirniadol cyfyngedig ar y gwaith a'r cynnydd.</p>	<p>Gallu cyfyngedig i gyflwyno ymatebion dychmygus, personol ac ystyrlon, a gwireddir bwriadau mewn ffordd gyfyngedig.</p> <p>Tystiolaeth gyfyngedig o gysylltiadau rhwng elfennau gweledol, ysgrifenedig, llafar ac eraill, lle bo'n briodol, wedi'u cyfleu mewn ffordd gyfyngedig.</p>
0	0 Nid yw'r ymateb yn teilyngu marciau neu ni roddwyd cynnig arno.	0 Nid yw'r ymateb yn teilyngu marciau neu ni roddwyd cynnig arno.	0 Nid yw'r ymateb yn teilyngu marciau neu ni roddwyd cynnig arno.	0 Nid yw'r ymateb yn teilyngu marciau neu ni roddwyd cynnig arno.

U2 Unedau 2 a 3

ARWEINIAD: CYNNWYS A AWGRYMR AR GYFER CELF A DYLUNIO (CELF, CREFFT A DYLUNIO)

SYLWER: Nid oes angen glynu wrth y cynnwys hwn ond mae disgwyl i ddysgwyr roi ystyriaeth i'r agweddau y cyfeirir atynt isod. Caiff pob cyflwyniad ei asesu yn ôl ei deilyngdod yn unol â'r cynllun marcio generig sy'n seiliedig ar y pedwar amcan asesu. Mae'r cynnwys hwn yn cynnig arweiniad pellach i athrawon.

Mae modd gwahaniaethu rhwng Celf, Crefft a Dylunio ac opsiynau eraill gan ei fod yn galluogi dysgwyr i arddangos diddordebau a galluoedd personol ar draws cwrs astudio arbennig o eang. Dylent archwilio meysydd ymarferol a chyd-destunol o'u dewis o fyd celf, crefft a dylunio trwy gyfrwng amrediad o gyfryngau a phrosesau dau a/neu dri dimensiwn. Gall Celf, Crefft a Dylunio gynnwys y defnydd o amrywiaeth ddiderfyn bron o ddefnyddiau, technegau a phrosesau, ond dylid rhoi sylw dyledus i sicrhau dyfnder priodol yn ogystal ag ehangder y profiadau dysgu.

Dylai'r gwaith a gyflwynir ar gyfer Celf a Dylunio (Celf, Crefft a Dylunio) anelu at gynnwys tystiolaeth o'r canlynol er mwyn bodloni gofynion asesu.

AA1 Dealltwriaeth gyd-destunol

- Datblygu syniadau sy'n seiliedig ar astudiaeth ymchwilol gyd-destunol o gelf, crefft a dylunio hanesyddol a chyfoes yn ogystal â ffynonellau eraill sy'n berthnasol i'r maes astudio a ddewiswyd.
- Ymwbyddiaeth o'r amrywiaeth eang o waith sydd wedi'i gynhyrchu gan artistiaid, crefftwyr a dylunwyr a'r gwahaniaethau yn eu dulliau, ymagweddau, pwrpasau a bwriadau.
- Sgîl dadansoddol a dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol wrth gloriannu, cymharu a chyferbynnu gwaith artistiaid, crefftwyr a dylunwyr perthnasol a ffynonellau cyd-destunol eraill ac wrth werthuso'n ffurfiannol a chrynodol ganlyniadau personol.

AA2 Gwneud creadigol

- Dethol ac arbrogfi'n bwrpasol gydag amrediad eang priodol a digonol o gyfryngau a phrosesau, cyfryngau cymysg a chyfuniadau o gyfryngau, gan arfer rheolaeth addas ar y rhain i uchafu potensial creadigol, a dangos tystiolaeth o astudiaeth briodol o ddwfn ac eang.
- Archwilio adnoddau ysgogol a ffynonellau gweledol a chyffyrddol cyfoethog i gychwyn a datblygu syniadau arloesol, gyda sylw dyledus i elfennau ffurfiol perthnasol, yn enwedig cyfansoddiad. Dylid sefydlu perthnasoedd clir rhwng dulliau gweithio a chanlyniadau. Dylid dogfennu pob cam arwyddocaol yn y broses creadigol, gan roi sylw dyledus i gam olaf ond un y datblygu er mwyn sicrhau nad yw'r canlyniadau terfynol yn ymddangos yn ddisymwth.
- Dylid dangos gwahaniaethu wrth adolygu a mireinio syniadau wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen. Rheolaeth fedrus o ran rhoi sylw i fanylder, er enghraifft, ailadeiladu rhannau o ddarnau crefft tri dimensiwn, er mwyn cynhyrchu canlyniadau gorffenedig o safon.

AA3 Cofnodi myfyriol

- Casglu, dewis, trefnu a chyfathrebu gwybodaeth berthnasol wrth ymgymryd ag ymchwil i ffynonellau cyfeirio gweledol a ffynonellau eraill, gan ddangos diddordebau a barnau personol. Rhoi sylw dyledus i ddevis ffynonellau ymholi priodol a dadansoddi'r rhain yn drylwyr er mwyn cael manylion llawn gwybodaeth.
- Cofnodi, trwy luniadu a ffyrdd addas eraill, fel nodiadau lliw, tonyddol a gweadeddol, ffotograffau ac anodi mewn llyfrau braslunio ac ar daflenni astudio, syniadau, arsylwadau a mewnwleidiadau sydd yn unol â bwriadau personol.
- Myfyrio beirniadol ar gynnydd y gwaith er mwyn adolygu'n effeithiol beth sydd wedi cael ei ddysgu, meithrin dealltwriaeth ddyfnach ac egluro pwrpasau ac ystyron. Lle bo'n briodol, gellir trosglwyddo dysgu i gyd-destunau newydd, er enghraifft, addasu ymateb haniaethol, mynegiannol wedi'i beintio i drawstoriadau o ffrwythau er mwyn datblygu dyluniadau graffig ar gyfer iogyrtiau ffrwythau newydd sydd wedi'u cynhyrchu'n lleol.

AA4 Cyflwyno personol

- Cyflwyno canlyniadau terfynol dychmygus gwirioneddol bersonol sydd, ynghyd â thystiolaeth ddetolus o'r prosesau a ddefnyddiwyd i'w cynhyrchu, yn gwireddu'r bwriadau a nodwyd yn effeithiol.
- Gwneud cysylltiadau pendant, lle bo'n briodol, rhwng gwahanol elfennau'r cyflwyniad, gan gynnwys ymatebion cyd-destunol, ymarferol ac ysgrifenedig, a chyflwyno gwaith sy'n ystyron, gwybodus ac mewn trefn sydd yn hawdd ei dilyn.
- Ystyriaeth wedi'i rhoi i ffurfiau gwahanol o gyflwyno a dewis yr un fwyaf priodol o'r rhain ar gyfer y cyflwyniad. Dylid rhoi sylw dyledus i bwrpas y gwaith a sut y gallai ennyn diddordeb cynulleidfya, er enghraifft, arddangos canlyniad celf, canlyniad crefft a chanlyniad dylunio sydd wedi'u datblygu o thema gyffredin, ynghyd â rhaglen yn seiliedig ar sgrin o ddeunydd gweledol a thestun.

U2 Unedau 2 a 3**ARWEINIAD: CYNNWYS A AWGRYMR AR GYFER CELF A DYLUNIO (CELFYDDYD GAIN)**

SYLWER: Nid oes angen glynu wrth y cynnwys hwn ond mae disgwyl i ddysgwyr roi ystyriaeth i'r agweddau y cyfeirir atynt isod. Caiff pob cyflwyniad ei asesu yn ôl ei deilyngdod yn unol â'r cynllun marcio generig sy'n seiliedig ar y pedwar amcan asesu. Mae'r cynnwys hwn yn cynnig arweiniad pellach i athrawon.

Gall Celfyddyd Gain fod yn wahanol oherwydd y pwyslais mae'n ei roi ar bwrpasau esthetig a deallusol yn hytrach nag ar ystyriaethau ymarferol, swyddogaethol ac iwtilitaraidd. Mae'r opsiwn hwn yn cwmpasu maes eang o astudiaeth sy'n datblygu ac mae'n cynnwys peintio, lluniadu, cerameg, cerflunwaith, gosodwaith, celf perfformiad a chysyniadol ac agweddau ar wneud printiau, ffotograffiaeth a ffilm. Mae'n defnyddio cyfryngau a phrosesau traddodiadol, newydd a rhai sy'n datblygu ac yn cynnwys defnydd mynegiannol o amrediad arbennig o eang o ddefnyddiau, technegau a sgiliau.

Dylai'r gwaith a gyflwynir ar gyfer Celf a Dylunio (Celfyddyd Gain) anelu at gynnwys tystiolaeth o'r canlynol er mwyn bodloni gofynion asesu.

AA1 Dealltwriaeth gyd-destunol

- Datblygu syniadau sy'n seiliedig ar astudiaeth gyd-destunol o gelfyddyd gain hanesyddol a chyfoes yn ogystal â ffynonellau eraill fel pensaernïaeth, cerddoriaeth, dawn, drama, dylunio cynhyrchiad a chyfryngau wedi'u cyhoeddi, a lle celfyddyd gain yn y rhain.
- Ymwbyddiaeth o'r amrywiaeth eang o brosesau a chanlyniadau celfyddyd gain a'r gwahaniaethau rhwng cerflunwaith, cerameg, gwneud printiau a ffotograffiaeth celfyddyd gain a chymhwysol'r ffurfiau celf hyn yn iwtilitaraidd. Lle bo'n briodol, dylai dehongliadau personol arddangos y gwahaniaeth rhwng dulliau mynegiannol a dulliau swyddogaethol.
- Sgil dadansoddol a dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol wrth gloriannu, cymharu a chyferbynnu gwaith artistiaid cain perthnasol a ffynonellau cyd-destunol eraill ac wrth werthuso'n ffurfiannol a chrynodol ganlyniadau personol.

AA2 Gwneud creadigol

- Dethol ac arbrofi gydag amrediad eang priodol a digonol o gyfryngau a phrosesau celfyddyd gain, cyfryngau cymysg a chyfuniadau o gyfryngau, gan arfer rheolaeth addas ar y rhain i uchafu potensial creadigol.
- Archwilio adnoddau ysgogol a ffynonellau gweledol a chyffyrddol cyfoethog i gychwyn a datblygu syniadau gwreiddiol, gyda sylw dyledus i linell, tŷn, lliw, gwead ac elfennau gweledol eraill, yn enwedig cyfansoddiad. Dylid sefydlu perthnasoedd clir rhwng dulliau gweithio a chanlyniadau. Dylid dogfennu pob cam arwyddocaol yn y broses creadigol, gan roi sylw dyledus i gam olaf ond un y datblygu er mwyn sicrhau nad yw'r canlyniadau terfynol yn ymddangos yn ddisymwth.
- Dylid dangos gwahaniaethu wrth adolygu syniadau wrth i'r gwaith ddatblygu. Arferir rheolaeth ofalus o ran rhoi sylw i fanylder, fel darluniad o adeiledd anatomegol wrth bortreadu'r ffurf ddynol, er mwyn cynhyrchu canlyniadau cydrannol o safon.

AA3 Cofnodi myfyriol

- Casglu, dewis, trefnu a chyfathrebu gwybodaeth berthnasol wrth ymgymryd ag ymchwil i ffynonellau cyfeirio gweledol a chyffyrddol, gan ddangos diddordebau a barnau personol. Rhoi sylw dyledus i ddewis ffynonellau ymholi priodol a dadansoddi'r rhain yn drylwyr er mwyn cael manylion llawn gwybodaeth.
- Cofnodi, trwy luniadu a ffyrdd addas eraill, fel nodiadau lliw, tonyddol a gweadeddol, ffotograffau ac anodi mewn llyfrau braslunio ac ar daflenni astudio, syniadau, arsylwadau a mewnwelediadau sydd yn unol â bwriadau personol.
- Myfyrio beirniadol ar y gwaith a'r cynnydd er mwyn adolygu'n effeithiol beth sydd wedi cael ei ddysgu, meithrin dealltwriaeth ddyfnach ac egluro pwrpasau ac ystyron.

AA4 Cyflwyno personol

- Cyflwyno ymatebion creadigol sydd yn eu hanfod yn bersonol ac yn gwireddu'r bwriadau a nodwyd yn effeithiol, er enghraifft, triptych yn cynnwys printiau arwyneb, ffotograffau arbrolol a phortreadau wedi'u peintio yn darlunio'r cyfnodau ym mywyd aelod o'r teulu.
- Gwneud cysylltiadau pendant, lle bo'n briodol, rhwng gwahanol elfennau'r cyflwyniad, gan gynnwys ymatebion cyd-destunol, ymarferol ac ysgrifenedig, a chyflwyno gwaith sy'n ystyrlon, gwybodus ac mewn trefn sydd yn hawdd ei dilyn.
- Ystyriaeth wedi'i rhoi i ffurfiau gwahanol o gyflwyno a dewis yr un fwyaf priodol o'r rhain ar gyfer y cyflwyniad, gan roi sylw dyledus i bwrpas y gwaith a sut y gallai ennyn diddordeb cynulleidfa.

U2 Unedau 2 a 3

ARWEINIAD: CYNNWYS A AWGRYMR AR GYFER CELF A DYLUNIO (ASTUDIAETHAU BEIRNIADOL A CHYD-DESTUNOL)

SYLWER: Nid oes angen glynu wrth y cynnwys hwn ond mae disgwyl i ddsygwyr roi ystyriaeth i'r agweddau y cyfeirir atynt isod. Caiff pob cyflwyniad ei asesu yn ôl ei deilyngdod yn unol â'r cynllun marcio generig sy'n seiliedig ar y pedwar amcan asesu. Mae'r cynnwys hwn yn cynnig arweiniad pellach i athrawon.

Mae Astudiaethau Beirniadol a Chyd-destunol yn opsiwn unigryw gan ei fod yn galluogi dysgwyr i ddatblygu cyfleoedd arloesol i feithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau beirniadol, cyd-destunol a churadurol wrth werthfawrogi arteffactau, testunau a delweddau o fewn amgylcheddau diwylliannol penodol, ochr yn ochr ag ymchwiliadau ymarferol perthnasol. Mae'r opsiwn yn cynnig amrediad eang o brofiadau dysgu deallusol ac ymarferol trwy amrywiaeth o strategaethau bywiog a chreadigol ar gyfer datblygu a chyflwyno ymatebion personol, ymarferol, beirniadol a chyd-destunol. Gallai'r rhain gynnwys amrywiaeth eang o ganlyniadau ymarferol sy'n arddangos dealltwriaeth o, er enghraifft, waith artist, mudiad neu thema, drwy, er enghraifft, dyfeisio cyflwyniad clyweledol, datblygu arddangosfa addysgiadol wedi'i anodi, dylunio adnoddau dysgu, a thrwy amrywiaeth o destunau darluniadol wedi'u hysgrifennu mewn ffurfiau gwahanol at amrywiol bwrpasau. Gallai'r rhain fod ar ffurf arweinyfrau ar gyfer orielau, pamffledi arddangosfa, tudalennau cylchgrawn, erthyglau papur newydd, sgriptiau rhaglenni dogfen ar y teledu neu drafodaethau neu ddeialog ffeithiol neu ffuglennol rhwng artistiaid, crefftwyr neu ddylunwyr gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu. Mae'n hanfodol pwysleisio bod yr opsiwn hwn yn wahanol i ddulliau traddodiadol o ymdrin â hanes celf, a bod gofyn i'r dysgwyr ddarparu tystiolaeth o gyflawniad ar draws y pedwar amcan asesu.

Dylai'r gwaith a gyflwynir ar gyfer Celf a Dylunio (Astudiaethau Beirniadol a Chyd-destunol) anelu at gynnwys tystiolaeth o'r canlynol er mwyn bodloni gofynion asesu.

AA1 Dealltwriaeth gyd-destunol

- Datblygu syniadau sy'n seiliedig ar astudiaeth ymchwiliol gyd-destunol o gelf, crefft a dylunio hanesyddol a chyfoes yn ogystal â ffynonellau eraill, gan ddangos dealltwriaeth o sut mae arteffactau a delweddau yn adlewyrchu amser, lleoliad a chyd-destunau eraill eu cynhyrchu.
- Ymwbyddiaeth o'r amrywiaeth eang o waith sydd wedi'i chynhyrchu gan artistiaid, crefftwyr a dylunwyr, y berthynas rhwng eu disgyblaethau a'r gwahaniaethau yn eu dulliau, ymagweddau, pwrpasau a bwriadau.
- Sgil ymchwiliol, dadansodol a dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol wrth gloriannu, cymharu a chyferbynnu gwaith artistiaid, crefftwyr a dylunwyr perthnasol a ffynonellau cyd-destunol eraill ac wrth werthuso'n ffurfiannol a chrynodol ganlyniadau personol.

AA2 Gwneud creadigol

- Dethol yn ddoeth ac archwilio'n bwrpasol amrediad eang priodol a digonol o gyfryngau, defnyddiau, technegau a phrosesau, testunau beirniadol a chyd-destunol, themâu, cyfnodau, mudiadau ac arddulliau a'r ffyrdd mae syniadau, agweddau a chredoau wedi dylanwadu ar gelf, crefft a dylunio.
- Ymchwilio i adnoddau ysgogol gan gynnwys ffynonellau gwledol a chyffyrddol cyfoethog, cyflwyniadau byw ac wedi'u recordio gan artistiaid, rhaglenni celf ar y radio a'r teledu, adolygiadau o arddangosfeydd mewn papurau newydd a chylchgronau, cyhoeddiadau a defnydd detholus o'r Rhyngryd. Lle bo'n bosibl, dylid ymgymryd ag ymweliadau â ffynonellau cynradd fel orielau, amgueddfeydd, stiwdios a gweithdai artistiaid, crefftwyr a dylunwyr i ymgysylltu â'r canlyniadau creadigol a'u gwneuthurwyr yn uniongyrchol.
- Dylid dangos gwahaniaethu wrth adolygu a mireinio syniadau wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen. Rheolaeth fedrus o ran rhoi sylw i fanylder wrth ddehongli, gwerthuso a chyfleu barnau am ddelweddau, gwrthrychau ac arteffactau er mwyn cynhyrchu canlyniadau gorffenedig o safon.

AA3 Cofnodi myfyriol

- © WJEC CBAC 2018
- Casglu, dewis, trefnu a chyfathrebu gwybodaeth berthnasol wrth ymgymryd ag ymchwil i ffynonellau cyfeirio priodol, gan ddangos chwilyfrydedd a diddordebau a barnau personol. Rhoi sylw dyledus i ddewis ffynonellau ymholi priodol a dadansoddi'r rhain yn drylwyr er mwyn cael manylion llawn gwybodaeth.
- Cofnodi, trwy amrywiaeth o ffyrdd addas, fel nodiadau ysgrifenedig, brasluniau, nodiadau lliw, tonyddol a gwadeddod, ffotograffau, anodi mewn llyfrau gwaith a llyfrau braslunio ac ar daflenni astudio, syniadau, arsylwadau a mewnwelediadau sydd yn unol â bwriadau personol.
 - Myfyrio beirniadol ar gynnydd y gwaith er mwyn adolygu'n effeithiol beth sydd wedi cael ei ddsygu, gan ddangos dealltwriaeth ddyfnach ac egluro pwrpasau ac ystyron. Y gallu i drosglwyddo dysgu i gyd-destun newydd, er enghraifft, addasu disgrifiad ysgrifenedig a darluniadol o fywyd a gwaith artist lleol i lunio sgript rhaglen ddogfen ar gyfer y teledu.

AA4 Cyflwyno personol

- Cyflwyno ymatebion gwreiddiol sydd yn eu hanfod yn bersonol ac yn gwireddu'r bwriadau a nodwyd yn effeithiol, er enghraifft, cyfres o lythrau dychmygol rhwng arlunydd tirluniau a ffotograffydd tirwedd lle maent yn cymharu'r gwahaniaethau yn eu dulliau, mewn geiriau a delweddau.
- Gwneud cysylltiadau pendant, lle bo'n briodol, rhwng gwahanol elfennau'r cyflwyniad, gan gynnwys ymatebion cyd-destunol, ymarferol ac ysgrifenedig, a chyflwyno gwaith sy'n ystyrlon, gwybodus ac mewn trefn sydd yn hawdd ei dilyn.
- Ystyriaeth wedi'i rhoi i ffurfiau gwahanol o gyflwyno a dewis yr un fwyaf priodol o'r rhain ar gyfer y cyflwyniad, gan roi sylw dyledus i bwrpas y gwaith a sut y gallai ennyn diddordeb cynulleidfa neu olygydd, er enghraifft, cynhyrchu pecyn adnoddau oriel ar gyfer dysgwyr CA3.

U2 Unedau 2 a 3**ARWEINIAD: CYNNWYS A AWGRYMR AR GYFER CELF A DYLUNIO (DYLUNIO TECSTILAU)**

SYLWER: Nid oes angen glynu wrth y cynnwys hwn ond mae disgwyl i ddysgwyr roi ystyriaeth i'r agweddau y cyfeirir atynt isod. Caiff pob cyflwyniad ei asesu yn ôl ei deilyngdod yn unol â'r cynllun marcio generig sy'n seiliedig ar y pedwar amcan asesu. Mae'r cynnwys hwn yn cynnig arweiniad pellach i athrawon.

Mae Dylunio Tecstilau yn cwmpasu amrediad eang iawn o ddefnyddiau, technegau a phrosesau, gan gynnwys nifer cynyddol o ddulliau rhyngddisgyblaethol. Mae'r rhain yn cynnwys dulliau wedi'u gwehyddu, wedi'u brodio, wedi'u gwau, wedi'u printio, wedi'u peintio, wedi'u llifo, wedi'u trin ac wedi'u haddurno a dulliau saerïol a ddefnyddir i gynhyrchu amrywiaeth fawr o ganlyniadau tecstilau sy'n cynnwys dylunio costiw a ffasïwn, cyfwisgoedd ac addurniadau corff. Mae'r amrediad yn cynyddu wrth i ddefnyddiau a thechnolegau newydd ddatblygu.

Dylai'r gwaith a gyflwynir ar gyfer Celf a Dylunio (Dylunio Tecstilau) anelu at gynnwys tystiolaeth o'r canlynol er mwyn bodloni gofynion asesu.

AA1 Dealltwriaeth gyd-destunol

- Datblygu syniadau sy'n seiliedig ar astudiaeth gyd-destunol o ddylunio tecstilau hanesyddol a chyfoes yn ein diwylliant ein hunain ac mewn diwylliannau eraill, yn ogystal â ffynonellau eraill fel celfyddyd gain, pensaernïaeth, ffotograffiaeth, cyfryngau wedi'u cyhoeddi a dylunio cynhyrchiad.
- Ymwbyddiaeth o'r amrywiaeth eang o brosesau a chanlyniadau tecstil creadigol a'r berthynas rhwng ystyriaethau swyddogaethol ac esthetig, gan ddangos dealltwriaeth o sut mae'r rhain yn cael eu cymhwyso a'u haddasu i fodloni anghenion penodol. Ymateb sensitif i faterion fel traddodiadau diwylliannol, anabled, ailgylchu, ac uwchgylchu.
- Sgîl dadansoddol a dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol wrth gloriannu, cymharu a chyferbynnu gwaith dylunwyr tecstilau perthnasol a ffynonellau cyd-destunol eraill ac wrth werthuso'n ffurfiannol a chrynodol ganlyniadau tecstil personol.

AA2 Gwneud creadigol

- Dethol ac arbrofi'n bwrpasol gydag amrediad eang priodol a digonol o ddefnyddiau a phrosesau tecstil, cyfryngau cymysg a chyfuniadau o dechnegau, gan arfer rheolaeth addas ar y rhain i uchafu potensial creadigol. Gellir cynnwys manylion technegol, ond dylent gael eu dethol yn ofalus a bod yn gryno. Ni ddylai ymddiddori mewn prosesau technegol neu brosesau crefft fod yn bwysicach na datblygu syniadau creadigol.
- Archwilio adnoddau ysgogol a ffynonellau gweledol a chyffyrddol cyfoethog i gychwyn a datblygu syniadau gwreiddiol, gyda sylw dyledus i linell, lliw, patrwm, gwead ac elfennau gweledol eraill, yn enwedig ffurf. Sefydlir perthnasoedd clir rhwng dulliau gweithio a chanlyniadau. Dylid dogfennu pob cam arwyddocaol yn y broses creadigol, a rhoi sylw dyledus i gam olaf ond un y datblygu er mwyn sicrhau nad yw'r canlyniadau terfynol yn ymddangos yn ddisymwth.
- Dylid dangos gwahaniaethu wrth adolygu syniadau wrth i'r gwaith ddatblygu. Arferir rheolaeth ofalus wrth fireinio manylion, er enghraifft, dylunio a chynhyrchu nodweddion addurniadol, er mwyn cynhyrchu canlyniadau gorffenedig o safon.

AA3 Cofnodi myfyriol

- Casglu, dewis, trefnu a chyfathrebu gwybodaeth berthnasol wrth ymgymryd ag ymchwil i ffynonellau cyfeirio gweledol a chyffyrddol gan ddangos diddordebau a barnau personol. Rhoi sylw dyledus i ddewis ffynonellau ymholi priodol a dadansoddi'r rhain yn drylwyr er mwyn cael manylion llawn gwybodaeth.
- Cofnodi mewn llyfrau braslunio, llyfrau gwaith ac ar daflenni astudio arsylwadau a mewnwediadau sydd yn unol â bwriadau personol, fel nodiadau lliw, patrwm a gweadeddol. Gellir gwneud hyn trwy luniadu, gwneud marciau a dulliau addas eraill fel ffotograffau a sylwebaeth ddadansoddol.
- Myfyrio beirniadol ar y gwaith a'r cynnydd er mwyn adolygu'n effeithiol beth sydd wedi cael ei ddysgu, meithrin dealltwriaeth ddyfnach ac egluro pwrpasau ac ystyron.

AA4 Cyflwyno personol

- Cyflwyno ymatebion gwreiddiol sydd yn eu hanfod yn bersonol ac yn gwireddu'r bwriadau a nodwyd yn effeithiol, fel paneli appliqué wedi'u brodio â pheiriant ar gyfer tŷ newydd ffrind agos.
- Gwneud cysylltiadau pendant, lle bo'n briodol, rhwng gwahanol elfennau'r cyflwyniad, gan gynnwys ymatebion cyd-destunol, ymarferol ac ysgrifenedig, a chyflwyno gwaith sy'n ystyron, gwybodus ac mewn trefn sydd yn hawdd ei dilyn.
- Ystyriaeth wedi'i rhoi i ffurfiau gwahanol o gyflwyno, er enghraifft, trwy sesiwn tynnu lluniau mewn stiwdio o gostiw theatrig, neu frasluniau o'r cynnyrch tecstil mewn sefyllfa addas. Dewis yr un fwyaf priodol o'r rhain ar gyfer y cyflwyniad, gan roi sylw dyledus i bwrpas y gwaith a sut y gallai ennyn diddordeb cynulleidfa neu gleientiaid posibl. Nid yw bob amser yn angenrheidiol i gynhyrchu eitemau neu ddillad gorffenedig ond dylent fod yn ddigon cyflawn i ddangos y gellid dod â hwy i ddatrysiad terfynol.

U2 Unedau 2 a 3

ARWEINIAD: CYNNWYS A AWGRYMR AR GYFER CELF A DYLUNIO (CYFATHREBU GRAFFIG)

SYLWER: Nid oes angen glynu wrth y cynnwys hwn ond mae disgwyl i ddysgwyr roi ystyriaeth i'r agweddau y cyfeirir atynt isod. Caiff pob cyflwyniad ei asesu yn ôl ei deilyngdod yn unol â'r cynllun marcio generig sy'n seiliedig ar y pedwar amcan asesu. Mae'r cynnwys hwn yn cynnig arweiniad pellach i athrawon.

Gellir diffinio Cyfathrebu Graffig fel y broses lle mae syniadau'n cael eu mynegi trwy'r defnydd o symbolau, lluniadau, ffotograffau a theipograffeg i gyfleu cysyniadau a/neu emosïynau. Mae'r opsiwn hwn yn cwmpasu maes astudiaeth eang sy'n datblygu, gan ymgorffori amrywiaeth o ddisgyblaethau perthnasol a defnyddio sgiliau traddodiadol, fel caligraffi a llythrennu wedi'i greu â llaw, ochr yn ochr â thechnolegau digidol arloesol. Mae'r ffiniau rhwng prosesau graffigol perthynol yn mynd yn fwyfwy aneglur ond mae agweddau fel hysbysebu, dylunio pecynnau, gemau cyfrifiadur, dylunio gwe ac amlgyfrwng, darlunio a theipograffeg yn rhoi amcan o beth y gellid ymdrin ag ef yn yr opsiwn. Gall Cyfathrebu Graffig hefyd gael ei gysylltu'n agos ag animeiddio, pensaernïaeth, ffotograffiaeth a dylunio ar gyfer print. Gall canlyniadau fod yn ddau ddimensiwn neu'n dri dimensiwn, a gallant fod ar ffurf posteri, taflenni, crysau T, cloriau CD/DVD, cloriau llyfrau, tudalennau cylchgrawn, calendrau, stampiau, pecynnau, deunydd cyhoeddusrwydd, lifrai cerbyd, byrddau poster, hysbysebu, logos, brandio, hunaniaeth gorfforaethol, a dylunio arddangosfeydd a phwyntiau talu tri dimensiwn.

Dylai'r gwaith a gyflwynir ar gyfer Celf a Dylunio (Cyfathrebu Graffig) anelu at gynnwys tystiolaeth o'r canlynol er mwyn bodloni gofynion asesu.

AA1 Dealltwriaeth gyd-destunol

- Datblygu syniadau sy'n seiliedig ar astudiaeth gyd-destunol o ddylunio graffig ddoe a heddiw yn ogystal â ffynonellau eraill fel teledu a sinema, celfyddyd gain, dylunio cynnyrch a chyfryngau wedi'u cyhoeddi.
- Ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth o faterion sy'n dylanwadu ar bwrpasau, ystyron a chyd-destunau dylunio graffig, fel ystyriaethau moesegol a chadwraethol, strategaethau marchnata, ymgyrchoedd hyrwyddo, prosesau reprograffig a chynhyrchu cylchgronau a chyfnodolion.
- Sgïl dadansoddiol a dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol wrth gloriannu, cymharu a chyferbynnu gwaith dylunwyr graffig perthnasol a ffynonellau cyd-destunol eraill ac wrth werthuso'n ffurfiannol a chrynodol brosesau a chanlyniadau dylunio personol.

AA2 Gwneud creadigol

- Dethol ac arbrofi gyda chyfryngau a phrosesau dylunio graffig priodol, a defnydd dan reolaeth o deipograffeg a delweddaeth o ffynonellau cynradd ac eilaidd, gan gynnwys trin pwrpasol gan ddefnyddio meddalwedd ddigidol. Gellir cynnwys manylion technegol, ond dylent gael eu dethol yn ofalus a bod yn gryno. Ni ddylai ymddiddori mewn prosesau technegol fod yn bwysicach na datblygu syniadau creadigol.
- Archwilio adnoddau ysgogol a ffynonellau stiwdio ac amgylcheddol i gychwyn a datblygu syniadau gwreiddiol, gan roi sylw dyledus i gyfansoddiad a gosodiad, cyfrannedd, llinell, tŵn, lliw, gwriad, graddfa ac elfennau gweledol eraill. Dylid archwilio potensial llawn cyfathrebu graffig drwy arbrofi gyda thechnolegau sydd wedi'u sefydlu'n barod a thechnolegau sy'n datblygu a, lle bo'n briodol, dylid cyfuno dulliau dylunio graffig gyda phrosesau eraill i greu ffyrdd newydd o weithio. Dylid dogfennu pob cam arwyddocaol yn y broses creadigol, a rhoi sylw dyledus i gam olaf ond un y datblygu er mwyn sicrhau nad yw'r canlyniadau terfynol yn ymddangos yn ddisymwth.
- Dylid dangos gwahaniaethu wrth adolygu syniadau wrth i'r gwaith ddatblygu. Arferir rheolaeth ofalus wrth fireinio manylion, fel dewis ffontiau, perthynas y deipograffeg â'r delweddau, a phroses reprograffig addas, er mwyn cynhyrchu canlyniadau o safon.

© WJEC CBAC Cymru

AA3 Cofnodi myfyriol

- Casglu, dewis, trefnu a chyfathrebu gwybodaeth berthnasol wrth ymgymryd ag ymchwil i ffynonellau cyfeirio gweledol a ffynonellau eraill. Rhoi sylw dyledus i ddewis y delweddau mwyaf addas, a dadansoddi ac anodi'r rhain, yn hytrach na chynnwys llawer o brintiau bawd heb unrhyw sylwadau gwerthusol.
- Cofnodi, trwy luniadu, ffotograffau a ffyrdd eraill, fel brasluniau gosod, byrddau stori a nodiadau ysgrifenedig, syniadau, arsylwadau a mewnwediadau sydd yn berthnasol i fwriadau personol.
- Myfyrio beirniadol ar y gwaith a'r cynnydd er mwyn adolygu beth sydd wedi cael ei ddysgu, meithrin dealltwriaeth ddyfnach ac egluro pwrpas ac ystyr.

AA4 Cyflwyno personol

- Cyflwyno ymatebion creadigol sydd yn eu hanfod yn bersonol, yn gwireddu'r bwriadau a nodwyd yn effeithiol ac yn cyflawni'r gofynion dylunio.
- Gwneud cysylltiadau pendant, lle bo'n briodol, rhwng gwahanol elfennau'r cyflwyniad, gan gynnwys ymatebion cyd-destunol, ymarferol ac ysgrifenedig, a chyflwyno gwaith sy'n ystyrlon, gwybodus ac mewn trefn sydd yn hawdd ei dilyn.
- Ystyriaeth wedi'i rhoi i ffurfiau gwahanol o gyflwyno, fel hysbysebu ar gludiant cyhoeddus neu bosteri mewn llochesi bysiau, a dewis yr un fwyaf priodol o'r rhain ar gyfer y cyflwyniad, gan roi sylw dyledus i bwrpas y gwaith a sut y gallai ennyn diddordeb cynulleidfa neu gleientiaid posibl. Os yw maint print neu gost printio fformat ffafriedig yn gyfyngiad, yna gellir ei luniadu, ei ddisgrifio a/neu ei gyflwyno fel model wrth raddfa.

U2 Unedau 2 a 3**ARWEINIAD: CYNNWYS A AWGRYMR AR GYFER CELF A DYLUNIO (DYLUNIO TRI DIMENSIWN)**

SYLWER: Nid oes angen glynu wrth y cynnwys hwn ond mae disgwyl i ddysgwyr roi ystyriaeth i'r agweddau y cyfeirir atynt isod. Caiff pob cyflwyniad ei asesu yn ôl ei deilyngdod yn unol â'r cynllun marcio generig sy'n seiliedig ar y pedwar amcan asesu. Mae'r cynnwys hwn yn cynnig arweiniad pellach i athrawon.

Mae Dylunio Tri Dimensiwn yn wahanol yn yr opsiwn hwn oherwydd y pwyslais sydd yn cael ei roi ar ystyriaethau swyddogaethol ac iwtilitaraidd o'i gymharu â'r canlyniadau tri dimensiwn sy'n cael eu cynhyrchu mewn disgyblaethau eraill, fel cerflunwaith mewn Celfyddyd Gain, lle mae'n debyg y byddai'r bwriadau'n seiliedig ar briodweddau esthetig ffurf fynegiannol. Mae Dylunio Tri Dimensiwn yn cwmpasu amrediad o weithgareddau arbennig o eang, o emwaith ac addurniadau corff i ddylunio pensaernïol ac amgylcheddol. Mae agweddau eraill yn cynnwys cerameg swyddogaethol, dylunio cynnyrch, dylunio mewnol ac arddangosfeydd, dylunio theatr a dylunio cynhyrchiad gan gynnwys ffilm a theledu. Gellir cynnwys agweddau ar grefft hefyd, fel dylunio ac adeiladu pypedau, ac eitemau unigol o ddodrefn sy'n ymwneud ag ymarferoldeb a sgiliau llaw yn ogystal â phriodweddau esthetig.

Dylai'r gwaith a gyflwynir ar gyfer Celf a Dylunio (Dylunio Tri Dimensiwn) anelu at gynnwys tystiolaeth o'r canlynol er mwyn bodloni gofynion asesu.**AA1 Dealltwriaeth gyd-destunol**

- Datblygu syniadau sy'n seiliedig ar astudiaeth gyd-destunol o ddylunio tri dimensiwn ddoe a heddiw yn ein diwylliant ein hunain ac mewn diwylliannau eraill, yn ogystal â ffynonellau fel gemau a chyhoeddiadau ffug-wyddonol, ffilm a theledu, celfyddyd gain a thecstilau.
- Ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth o ffactorau sy'n dylanwadu ar bwrpasau, ystyron a chyd-destunau dylunio tri dimensiwn fel ffactorau ergonomig, ystyriaethau moesegol, cadwraethol ac economaidd, dulliau cynhyrchu a'r meini prawf ymarferol ar gyfer lle penodol. Gwybodaeth berthnasol o drefniadau gweithio lle mae canlyniadau tri dimensiwn penodol yn cael eu cynhyrchu, fel cynhyrchu set ar gyfer drama. Dealltwriaeth bod y rhan fwyaf o ddylunwyr yn y bôn yn ymatebol ac yn barod i gydweithio.
- Sgîl dadansodol a dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol wrth gloriannu, cymharu a chyferbynnu gwaith dylunwyr tri dimensiwn perthnasol a ffynonellau cyd-destunol eraill ac wrth werthuso'n ffurfiannol a chrynodol brosesau dylunio a chanlyniadau personol. Ymatebion personol i ddelweddau ysbrydoledig yn hytrach na chynhyrchu byrddau nawws wedi'u torri a'u gludo.

AA2 Gwneud creadigol

- Dethol ac arbrofi gyda chyfryngau a phrosesau dylunio tri dimensiwn priodol, fel pren, clai, plastig, metel, cerdyn a phapur, gyda defnydd diogel a gofalus o offer a chyfarpar addas a, lle bo'n briodol, defnydd arbenigol o ddylunio a rheolaeth trwy gymorth cyfrifiaduwr. Gellir cynnwys manylion technegol, ond dylent gael eu dethol yn ofalus a bod yn gryno. Ni ddylai ymddiddori mewn prosesau technegol fod yn bwysicach na datblygu syniadau creadigol.
- Archwilio adnoddau ysgogol a ffynonellau gweithdy ac amgylcheddol i gychwyn a datblygu syniadau gwreiddiol, gan roi sylw dyledus i'r defnydd sydd i gael ei wneud o'r canlyniad arfaethedig, ei arwynebedd, adeiladwaith, gwead, lliw, ffurf, mäs, cyfaint, graddfa, cyfrannedd, gwydnwch a chryfder ac elfennau tri dimensiwn eraill. Dylid archwilio potensial llawn agweddau penodol ar ddylunio tri dimensiwn trwy arbrofi gyda thechnolegau sydd wedi'u sefydlu'n barod a thechnolegau sy'n datblygu a, lle bo'n briodol, dylid cyfuno dulliau dylunio tri dimensiwn gyda phrosesau eraill i greu ffyrdd newydd o weithio. Dylid dogfennu pob cam arwyddocaol yn y broses creadigol, a rhoi sylw arbennig i'r cam olaf ond un, er mwyn sicrhau nad yw'r canlyniadau terfynol yn ymddangos yn ddisymwth.
- Dylid dangos gwahaniaethu wrth adolygu a mireinio syniadau wrth i'r gwaith ddatblygu. Rheolaeth ofalus o ran rhoi sylw i fanylder, fel cysylltiadau cydrannau wedi'u ffurfio'n dda, rhannau gweithio sydd yn gweithio, gorffeniad arwyneb ac ymddangosiad esthetig, er mwyn cynhyrchu canlyniadau o safon.

AA3 Cofnodi myfyriol

- Casglu, dewis, trefnu a chyfathrebu gwybodaeth berthnasol wrth ymgymryd ag ymchwil i ffynonellau cyfeirio tri dimensiwn, gweledol a chyffyrddol a ffynonellau eraill. Sylw dyledus wedi'i roi i ddadansoddi'n drylwyr y posibilïadau dylunio mwyaf priodol a'r datrysiadau mwyaf priodol i broblemau.
- Cofnodi, trwy frasluniau, lluniadau persbectif, lluniadau technegol â llaw a CAD, cynlluniau gweithio, ffotograffau, nodiadau ysgrifenedig a ffyrdd eraill, syniadau, arsylwadau a mewnwediadau sydd yn berthnasol i fwriadau personol.
- Myfyrio beirniadol ar y gwaith a'r cynnydd er mwyn adolygu beth sydd wedi cael ei ddysgu, meithrin dealltwriaeth ddyfnach, egluro pwrpas a, lle bo'n briodol, trosglwyddo dysgu i gyd-destun newydd, er enghraifft, o'r llwyfan i'r sgrin.

AA4 Cyflwyno personol

- Cyflwyno ymatebion creadigol sydd yn eu hanfod yn ddatrysiadau personol i ofnion dylunio ac sydd yn gwreiddu'r bwriadau a nodwyd yn effeithiol gyda thystiolaeth o chwilfrydedd ac ymrwymiad personol.
- Gwneud cysylltiadau pendant, lle bo'n briodol, rhwng gwahanol elfennau'r cyflwyniad, gan gynnwys ymatebion cyd-destunol, ymarferol ac ysgrifenedig, gan gyflwyno gwaith mewn trefn sydd yn hawdd ei dilyn.
- Ystyriaeth wedi'i rhoi i ffurfiau gwahanol o gyflwyno, fel taflenni dylunio a rhaglen glyweledol, a dewis yr un fwyaf priodol o'r rhain ar gyfer y cyflwyniad. Dylid rhoi sylw dyledus i bwrpas y gwaith a sut y gallai ennyn diddordeb cynulleidfya neu gleientiaid posibl, fel cyfarwyddwr neu stiwdio ddylunio. Os yw cost y ffurf fwyaf addas yn gyfyngiad, yna gellir ei lluniadu, ei disgrifio a/neu ei chyflwyno gan ddefnyddio defnyddiau rhatach. Gall canlyniadau fod ar ffurf darnau terfynol, prototeipiau, a modelau maint llawn neu wrth raddfa. Gallant fod yn ddarnau unigryw neu'n addas ar gyfer cynhyrchu swp bach neu fasgynhyrchu.

U2 Unedau 2 a 3

ARWEINIAD: CYNNWYS A AWGRYMR AR GYFER CELF A DYLUNIO (FFOTOGRAFFIAETH)

SYLWER: Nid oes angen glynu wrth y cynnwys hwn ond mae disgwyl i ddysgwyr roi ystyriaeth i'r agweddau y cyfeirir atynt isod. Caiiff pob cyflwyniad ei asesu yn ôl ei deilyngdod yn unol â'r cynllun marcio generig sy'n seiliedig ar y pedwar amcan asesu. Mae'r cynnwys hwn yn cynnig arweiniad pellach i athrawon.

Mae'r opsiwn hwn yn cwmpasu maes astudiaeth eang sydd yn newid o hyd, gan edrych ar ddelweddau yn seiliedig ar olau dros gyfnod o ddwy ganrif bron. Gallai dysgwyr edrych ar ddelweddau cynnar yn seiliedig ar olau a thechnoleg elfennol, fel camera twll pin, yn ogystal â'r rhai mwyaf cyfoes, a allai gynnwys y defnydd o gamerâu digidol, camcorders fideo, llungopiwyr, sganwyr a ffonau symudol. Gallant hefyd weithio'n unig gyda thechnoleg yn seiliedig ar ffilm neu dechnoleg ddigidol, neu weithio gyda'r ddwy. Gall canlyniadau fod yn seiliedig ar sgrin neu ar brint, a chynnwys delweddau llonydd neu symudol, a gallant fod yn arwahanol i'r maes pwnc, neu wedi'u cyfuno â ffurfiau eraill ar gelf.

Dylai'r gwaith a gyflwynir ar gyfer Celf a Dylunio (Ffotograffiaeth) anelu at gynnwys tystiolaeth o'r canlynol er mwyn bodloni gofynion asesu.

AA1 Dealltwriaeth gyd-destunol

- Datblygu syniadau sy'n seiliedig ar astudiaeth ymchwiliol gyd-destunol o ffynonellau ffotograffig ddoe a heddiw, yn ogystal â ffynonellau eraill fel ffilm, celfyddyd gain, celf osod, dylunio graffig, dylunio cynhyrchiad a chyfryngau wedi'u cyhoeddi, a lle ffotograffiaeth yn y rhain.
- Ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth o genres ffotograffig a ffilm a, lle bo'n briodol, cysylltu gwaith personol â genre penodol.
- Sgîl dadansodol a dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol wrth gloriannu, cymharu a chyferbynnu gwaith ffotograffwyr perthnasol a ffynonellau cyd-destunol eraill ac wrth werthuso'n ffurfiannol a chrynodol ganlyniadau ffotograffig personol.

AA2 Gwneud creadigol

- Dethol ac arbrofi gyda chyfryngau a phrosesau ffotograffig priodol, cyfryngau eraill a chyfuniadau o gyfryngau, gyda defnydd dan reolaeth o oleuo, cyflymder caead, agorfa, lensiau, hidlyddion a meddalwedd ddigidol. Gellir cynnwys manylion technegol, ond dylent gael eu dethol yn ofalus a bod yn gryno. Ni ddylai ymddiddori mewn prosesau technegol fod yn bwysicach na datblygu syniadau creadigol.
- Archwilio adnoddau ysgogol a ffynonellau stiwdio ac amgylcheddol i gychwyn a datblygu syniadau arloesol, gyda sylw dyledus i safbwynt, cyfansoddiad, llinell, tŵn, lliw, gwead, graddfa ac elfennau gweledol eraill. Dylid dogfennu pob cam arwyddocaol yn y broses creadigol. Dylid archwilio potensial llawn ffotograffiaeth trwy arbrofi gyda chyfryngau traddodiadol a digidol a, lle bo'n briodol, cyfuno ffotograffiaeth a thechnegau eraill i ddechrau ffyrdd newydd o weithio.
- Dylid dangos gwahaniaethu wrth adolygu syniadau wrth i'r gwaith ddatblygu. Rheolaeth ofalus o ran rhoi sylw i fanylder, er enghraifft, agweddau fel golygu, trin delweddau a chydrianiad y print, er mwyn cynhyrchu canlyniadau o safon.

AA3 Cofnodi myfyriol

- Casglu, dewis, trefnu a chyfathrebu gwybodaeth berthnasol wrth ymgymryd ag ymchwil i ffynonellau cyfeirio gweledol a chyffyrddol. Rhoi sylw dyledus i ddewis y delweddau mwyaf arwyddocaol yn unig, a dadansoddi ac anodi'r rhain, yn hytrach na chynnwys llawer o brintiau bawd/printiau cyswllt heb unrhyw sylwadau gwerthusol.
- Cofnodi, trwy ffotograffiaeth a ffyrdd eraill, fel brasluniau, byrddau stori a nodiadau ysgrifenedig, syniadau, arsylwadau a mewnwleidiadau sydd yn berthnasol i fwrddau personol.
- Myfyrio beirniadol ar y gwaith a'r cynnydd er mwyn adolygu beth sydd wedi cael ei ddysgu, meithrin dealltwriaeth ddyfnach ac egluro pwrpas ac ystyr.

AA4 Cyflwyno personol

- Cyflwyno ymatebion creadigol sydd yn eu hanfod yn bersonol ac sydd yn gwireddu'r bwriadau a nodwyd yn effeithiol, fel poster ffotograffig i gefnogi barn gadarn neu ddelweddau o adeiladweithiau pensaernïol wedi'u taflunio ar adeilad tri dimensiwn.
- Gwneud cysylltiadau pendant, lle bo'n briodol, rhwng gwahanol elfennau'r cyflwyniad, gan gynnwys ymatebion cyd-destunol, ymarferol ac ysgrifenedig, gan gyflwyno gwaith mewn trefn sydd yn hawdd ei dilyn.
- Ystyriaeth wedi'i rhoi i ffurfiau gwahanol o gyflwyno, fel dilyniannau wedi'u hanimeiddio a'r defnydd o gyfryngau cymysg, a dewis yr un fwyaf priodol o'r rhain ar gyfer y cyflwyniad, gan roi sylw dyledus i bwrpas y gwaith a sut y gallai ennyn diddordeb cynulleidfau neu gleientiaid posibl. Os yw maint print neu gost printio fformat ffafriedig yn gyfyngiad, yna gellir ei luniadu, ei ddisgrifio a/neu ei gyflwyno fel model wrth raddfa.